LLAWYSGRIF POMFFRED

[1]Howel dda vab Kadell brenhin Kymrv a wnaeth drwy rad Duw a dyrwest a gweddi (gan oedd eiddo adan ev tervyn: pedwar cantref ar hugain yn Neheubarth; deu naw cantref Gwynedd; trugain tre tra Chyrchell; trugain tre Buellt; ac yn tervyn hynny nid gair neb arnaddvnt hwy a gair yw i gair hwy ar baub); sef ydd oeδ drygkyfreithiav cyn noc ef, ac y cymerth yntev vj gwyr o bob kymwd o Gymrv ac a'i duc i'r Ty Gwyn ar Daf; a saith vgain baglawc y rwng escyb ac archescyb ac abadav ac athraon da; a gwneuthur kyfreithiev da a oruc a'i kadarnhav yn i enw e hvnan. [2]Ac o'r niver hwnnw y kymerth y deuddec llyc doytha a'r vn yscolhaic doytha i wneuthur y kyfreithiav. [3]A dodi ymelldith Dduw ac vn y gynvlleidva honno ac vn Gymrv benbaladyr ar y neb a dorrai y kyfreithev hynny. [4]Kanys wynt oedd orav ar gof kyfreithiav ac oysav.

[5]Ac a edrychassant kyfreithiav llys yn gynta gan ynt[a] bena, gan perthynant ar [1rb] y llys y brenin a'r vrenhines a'r xxiiij swyddawc a'i canlynant[b]: penteulu, ynad llys,[c] distain, hebogudd, pengwastraud, penkynydd, gwastavell, distain y vrenhines, effeiriad y vrenhines, bardd teulu, gostegwr, drysawr nevadd, drysawr stauell, llawvorwyn ystauell, gwastrawd awyn, kanhwyllydd, trulliat, medydd, meddic, swyddwr llys, coc, troidiauc, gwastrawd[d] awyn y vrenhines.

[6]Dyled y swyddogion yw kaffel brythynwisc i gan y brenin a llieinwisc i gan y vrenhines dair gwaith bob plwyddyn, Pasc, Nydolic, a Sulgwyn. [7]Traian holl ynnill y brenin a gaif y vrenhines. [8]Swyddogion y vrenhines a gaffant traian holl ynill swyddogion y brenin.

[9]Tri dyn a wna syrhaed i'r brenin: y neb a dorro i nawdd; a'r neb a laddo i wr yn i wydd ac yngwydd i wyr, pan vo ymarvoll a chymanva y rryngtho a phenaeth arall; a'r neb a rwystro i wraic.

[10]Kanmvw agen a delir yn i syrhaed wrth bob cantre a vo yn i dyrnas, gwialen arian a thri ban danai a thri i arnai a gyrhayddo o'r ddaiar hyd i iad y brenin pan ysteddo yn i gadair kynn [1va] fyrvet[e] a'i arianvys, a ffiol aur y bo llawn ddiod y brenin ynddi, kyn dewed ac ewin ameth a ryddalio aradr saith mlyneδ, a chlawr aur kyfled ac wyneb y brenhin a chyn dewed a'r ffiol.

[11]Braint arglwyδ Denewr a delir o warthec gwynion a ffen[f] pob vn wrth loscwrn i giliδ, a tharw rwng pob vgain ohonvn val y bo gyflawn o Argoel hyd yn llys Denewr. [12]Galanas brenhin yw i syrhaed deirgwaith gan i dderchavel[g] dair gwaith gan dri drechavel. [13]O dri moδ i syrheir y vrenhines: pan dorrer i nawdd; pan dynner peth o'i llaw gan drais; pan drawer drwy lid; ac yna traian syrhaed y brenhin vyδ i syrhaed hithe, heb aur heb ariant.

[14]Vn dyn ar bymthec ar hugaint ar veirch a gynail y brenin yn i gyweithas: y pedwar ar

---

[a] *MS* yn

[b] *MS* calynant

[c] ynad llys] *written in the margin, with a mark to locate the words in the text*

[d] *MS* Gwastrad

[e] ffyrvet] *catchword*

[f] *MS* ffer i

[g] *MS* dderchaed

hugaint swyddawc a'r deuddec gwestai; i am ben hynny y teulv a'i gerddorion a'i ynghanogion a'i weision bychain.

[15]Anrydeddusa wedi y brenin a'r vrenhines vydd yr edling. [16]Braut ne mab braut vyδ ynte i'r brenhin. [17]Nawδ yr edling hebrwng e dyn [1vb] hyd yniogel. [18]Vn syrhaed ac vn alanas yw yr edling a'r brenhin, eithyr aur ac ariant brenhinawl a'r gwarthec a osodir o Argoel[a] hyd yn llys Dinewr. [19]J le yn y nevaδ i am y tan a'r brenin. [20]Yrwng y gwrthrychad a'r golovyn nesa ydaw idd eiste[b] yr effeiriad tevlu. [21]Oddyna y penkynyδ. [22]Wedi hynny nid oes le dilis i neb. [23]Y brenin bie rroddi i holl dravl i'r edling yn anrydeddus. [24]Aed yr edling a'r macwiaid gidac ef i nevaδ y brenin. [25]Y kynvtwr bie kynne taan iddaw a chav y dryssav wedi ddel i gyscu. [26]Dygawn a ddyly yr edling yn y tair gwyl arbenic. [27]Bonheddic[c] kanhwynawl a eiste ar gled[d] y brenin. [28]Y parth deav iddaw oddyna pawb val y myno.

[29]Nawδ brenhinawl y syδ i bob swyddawc ac i eraill a gyrcho y llys. [30]Nawdd y vrenhines yw dwyn dyn dros dervyn y wlad heb erlid heb ragod. [31]Nawdd y pentevle yw kynhebrwng [2ra] y ddyn[e] dros dervyn y kymwd. [32]Nawδ yr effeiriad teulu yw kynhebrwng y ddyn hyd yr eglwys nessa. [33]Nawδ y distein, kynhebrwng i ddyn o'r pan savo yngwsaneth y brenin yni el y dyn diwaytha o'r llys. [34]Nawδ yr ynad llys, o'r pan ddechreuer y dadle o'r hawl gynta yni ddarffo y ddiwaytha. [35]Nawdd hebogyδ yw hebrwng i ddyn hyd y lle pella yr helia a'i adar y dyδ hwnnw. [36]Nawδ penkynyδ yw hyd y clywer bella llef i gorn. [37]Nawδ y pengwastrawd yw tra byrhao redec march kynta yn y llys. [38]Nawδ gwas ystavell, o'r pan eler i vrwyna yni ddarffo kyweirio gwely y brenhin. [39]Nawδ y distain y vrenhines a difer dyn o'r pan savo yngwysanaeth y brenhin yni el y dyn diwaytha i gyscu o'r ystavell. [40]Kyffelib yw nawδ [2rb] yr effeiriad a'i giliδ. [41]Kyfelib yw nawδ y vorwyn ystavell a'r gwastavell. [42]Nawdd barδ teulv yw kynhebrwng i ddyn ar y penteulv. [43]Nawδ y gostegwr yw diffryd i ddyn o'r osteg gynta hyd y ddiwaytha. [44]Nawδ y troydiawc yw o'r pan eisteddo dan draed y brenhin yni el y'w ystavell. [45]Nawdd y koc yw o'r pan bober y golwyth kynta yni ddarffo y diwaytha a'i ossod rrac bron y brenhin a'r vrenhines. [46]Nawdd y swyddwr llys a weryd dyn o'r pan ddechrevo ranv bwyd hyd pan gaffo y dyn diwaytha i vwyd. [47]Nawδ medydd a ddiffer o'r pan ddarymertho kerwyn vedd hyd pan i kvddio. [48]Nawdd y trulliad a weryd dyn o'r pan ddechrevo gwallaw y gerwyn gynta hyd pan wallawer y ddiwaytha.[f] [49]Nawdd meddic yw o'r pan gymero genad y bre*n*hin i edrych claf hyd oni ddel i'r llys. [50]Nawδ dresawr y nevadd, kynhebrwng i ddyn hyd y pyrth a'i wialen parth a'r porthawr; canys ef a'i gorchymyn. [2va] [51]Nawδ y porthawr yw cadw y dyn yni el y pentevlv y'w lety drwy y porth, ac yna y nowddwr yniogel hyd pan ddaw y dyn diwaytha o'r llys. [52]Nawdd y drysawr ystavell yw kynhebrwng i ddyn ar y porthawr. [53]Nawdd y gwastrawd awyn yw kynhebrwng y dyn tra wnel y go bedair pedol ac ev to hoilion a thra bydolo amws y brenhin. [54]Kyffelib yw y nawdd y gwastrawd awyn y vrenhines a nawδ gwastrawd[g] awyn y brenin. [55]Nawδ y kanhwyllydd yw o'r pan enyner kanwyll gynta hyd pan ddiffodder y ddiwaytha.

---

[a] *MS* argo l *with a hole in the page*

[b] idd eiste] i ddistain

[c] bonheddic] o veddic

[d] *MS* tled

[e] y ddyn] *catchword*

[f] *MS* ddiwaytho

[g] *MS* gwastrad

[56]Pwybynnac a dorro nawδ yr vn o'r rrai hynny, nevt syrhaet ev. [57]Syrhaed y pentevlv a ddyly traian syrhaed y brenhin, ac velly i alanas heb aur heb ariant. [58]Distain, ynad llys, penkynyδ, gwasdrawd, hebogyδ, vn syrhaed ac vn alanas ac vn ebediw, ac vn vraint yw ev merched. [59]Yn i galanas i telir naw mvw [2vb] [a naw][a] vgain mvw gan dri drychavel. [60]Pvnt yw gobyr ev merched. [61]Tair pvnt i chowill.[b] [62]Saith bvnt yw i hagweddi. [63]Syrhaed pob vn o'r swyddogion eraill eithyr y penteulv a'r effeiriad teulu (kyn hanwyn o'r swyddogion nid vn vraint): yn ev sarhaed i telir chwe buw a chwevgain o ariant. [64]Yn ev galanas i telir chwe buw a chweigain mvw gan dri drychavel. [65]Yn i hebediw i telir chwe[c] vgain. [66]Yn i gobyr i telir chwevgain. [67]Yn i chowill pvnt a haner. [68]Yn i hagweddi[d] tair pvnt. [69]Y neb a laddo dyn, i syrhaed yn gyntaf a delir, oddyna i alanas. [70]Ni byδ arddrychavel yn syrhaed neb.

[71]Llety y penteulu yw y ty mwia yn y dref, cans yn i gylch i byδ llety y teulu[e] mal y bwynt barod ymhob raid. [72]Yn llety y penteulu y byddant y bardd teulu a'r meddic [3ra] teulu.[f] [73]Llety er effeiriaid a'r yscolheigion vydd ty y kapele. [74]Llety effeiriad y vrenhines yw yw ty y clochyδ. [75]Llety y distain a'r swyddwyr i gyd gidac ef, y ty nessa i'r llys. [76]Llety yr ynad vyδ ystavell y brenin nev y nevadd, a gobe*n*nydd ydd ysteddo y brenin arnaw y dyd a a dan i ben ynte y nos. [77]Llety y pengwastrawd vyδ y ty nessa i yscubaur y brenhin a'r gwastrodion gidac ef kans hwi a ran yr ebran. [78]Llety y penkynyδ vyδ odyn y brenin a'r kynyddion gidac ef. [79]Llety yr hebogyδ vyδ yscubawr y brenin, gani char ehebawc vwc. [80]Gwely y gwastavell a'r vorwyn yn ystavell y brenin y byddant. [81]Llety dressawr nevadd a dressawr ysdavell yw ty y porthawr.

[82]Amkwyn a gaif y penteulu yn i lety, nid amgen no thair saic a thri chornaid medd; a chyvarvvs bob blwyddyn, nid amgen no thair pvnt, a gaif i gan y brenhin. [83]O anrraith a wnel y tevlv ran devwr a gaif o byδ y gyd ac wy; ac o draian y brenin yr eidion a ddewisso. [84]Y neb a wnel cam is kolofnav, os y pentevlv a'i deyly[g] vwch kyntedd, traian i ddirwy [3rb] nev i gamlwrw a gaif. [85]Os deily[h] ef kyn no'r distain ynghyntedd y nevadd [trayan a geiff].[i] [86]Kornaid meδ a ddaw iddaw ymhob kyveddach i gan y vrenhines. [87]O gad y brenin neb o'r teulv i ganthaw hyd oddis y pentan, gwahodded y penteulv[j] hwnnw attaw[k] e hvn. [88]Ar tal y nevaδ yd eisted[l] y penteulu a'r teulu[m] yn i gylch. [89]Kymered yr henevydd a vyno ar i ddeav ac arall ar i assw. [90]March osseb a gaif gan y brenin, [91]a dwy ran o'r ebran a gaif i varch.

[92]Y neb a syrhao ne a laddo effeiriad tevlv dioddeved k*yfreith* seneδ, ac am i waradwydd xij mvw iddaw: y traian a gaif ef a'r devparth a gaif y brenin. [93]Effeiriad teulu a gaif y wisc i penydio y brenin ynddi, a hynny erbyn y Pasc. [94]Ef a gaif offrwm y teulu a'r brenin a'r sawl

---

[a] *From X*

[b] *MS* chwill

[c] *MS* chw

[d] *MS* hagwedd

[e] teulu] pe *then a gap for around 10 letters*

[f] teulu] *catchword*

[g] *MS* dyly

[h] os dyly] os os=dyly *over 2 lines*

[i] *From X*

[j] penteulv] *written over a deleted word*

[k] hwnnw attaw] *written over deleted words*

[l] yd eisted] y distain

[m] *MS* cenn

a gymero offrwm yn y tair gwyl arbenic. [95]Byth agen e[a] kymer ef offrwm y brenin. [96]Bwyd saic a gaif o'r llys yn i amkwyn a chornaid meδ a march buddoseb i gan y bre[3va]nin,[b] a thraian holl degwm y brenin. [97]Trydyδ anhepkor brenin [a] trydydyn[c] a geidw braint yn absen y brenin yw.

[98]Effeiriad y vrenhines a gaif march buddoseb gan y vrenhines. [99]Ef a gaif i hoffrwm hi ac a berthyno attai dair gwaith yn y vlwyddyn. [100]Offrwm y vrenhines agen a gaif preswylvodawc. [101]Y wisc y penyttio y vrenhines y grawys ynddi a gaif ef. [102]Y le yn yr stavell kyvair wyneb a'r vrenhines y bydd.

[103]Distain a ddyly gwisc y penteulv ymhob vn o'r tair gwyl arbenic. [104]Gwisc y distain a gaif y bardd tevlv. [105]Gwisc y bardd teulv a gaif dresawr y nevadd. [106]Kroen hydd a gaif y distain gan y kynyddion o hanner Chwefraul hyd hanner Mai pen i govynno. [107]O'r pan ddel y distain i'r llys, wrth i kyngor i byδ y bwyd a'r llyn yn hollawl. [108]Ef a ddengys briawd le i bawb yn y nevadd. [109]Ef biav ranv y lletyav i bawb. [110]Ef a gaif i varch buδoseb gan y brenin. [111]Dwy ran [3vb] o'r ebran a gaif [i] varch. [112]Rydd vyδ y tir iddaw. [113]Y distain a gaif gobyr mayr y biswail. [114]xxiiij a gaif i gan bob swyddawc a ddarymreddo bwyd ne lyn yn y llys pan elont yn i swydd. [115]Ef biav rannv ariant y gwylvae. [116]Ef biav arddystu[d] gwirodav yn y llys. [117]Ef biav traian [dirwy][e] a chamlwrwf y gwsnaythwyr bwyd a llyn, nid amgen y trulliat, y koc, a swyddwyr y llys. [118]Ef a ddyly anrec i gan y brenin a lienwisc i gan y vrenhines dair gwaith yn y vlwyddyn.

[119]O'r pan ddotto y distain nawdd Duw a nawdd y brenin a'r vrenhines yn y llys, a dorro y nawδ hwnnw, nid oes nawdd iddo nac yn llys nac yn llan. [120]Kyfranawc yw y distain ar y xxiiij swyddawc, [121]a dwy ra*n* o ariant y gwestvae; [122]a dwy ran a gaif o grwyn y gwarthec a ladder yn y gegin. [123]O bob swyδ lys a roddo y brenin,[f] gobyr a gaif y distain, eithyr y swyddav arbenic. [124]Croen hyδ a ddaw iddaw gan y penkynydd yn hyddvref (ac o hwnnw i gwnair [4ra] llestri[g] i gadw kyrn y brenhin) a hynny kyn ranv o'r brenin a'r kynyddion. [125]Ef biav gossod bwyd a diawd rac bron y brenin a niver saic vwch law a niver saic is law yn y tair gwyl arbenic. [126]Ef hevyd a gaif gyhyd a'i hirvys [o'r cwryf];[h] [127]o'r bragod ar wyneb y gwaddot hyd y kygwn pervedd; [128]o'r meδ hyd y kwgwn eitha.

[129]Y neb a wnel cam ynghynteδ y nevaδ, os[i] deyly[j] y distain traian i ddirwy a'i gamlwrw gamlwrw a gaif. [130]Ef biav kadw ran y brenhin o'r anrraith; ac o'r rennir kymered ych nev vvwch. [131]Distain pie tyngv dros y brenin pan vo rraid. [132]Ef yw y treddedyn[k] a gynail braint y llys yn absen y brenin. [133]Pvnt yw gobyr i verch. [134]Tair pvnt yw i chowill. [135]Saith bvnt i hagweddi. [136]Pvnt a hanner a delir yn abediw distain.

[137]Dyled yr ynad llys yw eiste y rr[4rb]wng y gwrthrychiad[l] a'r golofyn y nevaδ y brenin.

---

[a] *MS* o

[b] nin] *catchword*

[c] trydydyn] Tri dyn

[d] *MS* arddydv

[e] *From X*

[f] + kroen hydd *deleted in ms.*

[g] llestri] *catchword*

[h] *From X*

[i] *MS* ys

[j] *MS* dyly

[k] *MS* etteddedyn

[l] *MS* gwrychiad

brenin. [138]Rran gwr a gymer yr ynad llys o ariant dayred. [139]Yn rat y barn[a] pob braint a berthyno ar y llys. [140]Ef biev dangos braint a dyled a swyddav gwyr y llys. [141]xxiiij a gaif ynte i gan y dyn y dangosso vraint iddo. [142]Pan ddel gobyr k*yfraith* i'r brawdwr, dwy ran a gaif ef o bydd yn y maes. [143]Ran devwr a gaif o anrraith a wnel y teulv kyn nid el ef o'i le. [144]O gwrthnepa neb iddaw am y vrawd a varno, rroddent iddaw wystyl yn llaw y brenin; ac o meglir yr ynad llys divarnedic vyδ i air a thaled gwerth i davawd i'r brenin ac na varned vyth. [145]Ac o meglir y llall taled i syrhaed i'r ynad llys, a gwerth i davawd i'r brenin. [146]Jawn yw i'r brawdwr kaffael iiij δ k*yfraith* o bob dadl iiij δ k*yfraith*. [147]Trydyδ anhepcor brenin yw i ynad llys. [148]xxiiij δ a ddaw i'r ynad llys pan dervyner dadyl tir [4va] a daiar. [149]Od a dyn ynghyfraith heb genad taled dair buw gamlwrw, [150]ac o byδ y brenin yn y lle taled yn ddauddyblic. [151]Ni ddyly neb barnv yni wypo tair kolofyn k*yfraith* [a] gwerth pob anivail kyfreithiawl. [152]Llenlliain a gaif yr ynad gan y vrenhines yn breswyliodawc. [153]I varch a ddyly vod yn vn bresseb a march y brenin. [154]Dwy[b] ran o'r ebran a gaif. [155]Y gwasdrawd awyn a ddedwc i varch yn kyweir[c] pan i myno. [156]Y tir a gaif yn rydd a march bytosseb[d] i gan y brenin. [157]Pa[r]thavant yr hyd a ddycer am ben yrδ[...].[e] [158]Over dlysav a gaif pan wysdler swyδ iddaw, nid amgen no thawlbwrδ ga*n* y brenin a modrwy aur gan y vrenhines. [159]Na aded ynte y tylysav hynny i ganthaw nac i werth nac yn rrad. [160]J gan y bardd pan gaffo gadair y kymer yr ynad llys korn bual. [161]A xxiiij δ a gaif yr ynad llys o bob dadl[f] ledrad a thir a daiar i gan y kytwyr, a hynny i gan y neb a ddiangho rrac yr holion hynny. [162]Ef yw y trydyδ dyn a gynail braint y llys yn absen y brenin. [163]Ni thal ebediw, kanys gwell eneydiayth[g] llys no dim presawl arall.

[164]Pa ddyδ bynnac y dalio heboguδ bwn, nev y krehyr nev aran, nev chwibanogyl vynyδ o rym [4vb] hebogav, tri gwysanaeth a wna y brenin i'r heboguδ y dyδ hwnnw: daly i varch tra ddiscyno a thra achuppo i adar a thra escyno.[h] [165]Dair gwaith ydd anrrecka y brenin ef y nos honno ef wrth vwyd. [166]Ar clet y kynghellawr yd eisted[i] eg kyveddach. [167]Kroen hyδ yn hyddvref a gaif yr hebogyδ i gan y penkynyδ i wneuthur tavyl hvalav a menic iddaw. [168]Dwy ran a gaif i varch o'r ebran. [169]Nit yf namyn tair diawt yn y nevadd rrac bod gwall ar i hebogav trwy veδdawd. [170]Llestr agen a ervyll y wirawd[j] iddaw yn y llys. [171]O llaδ yr hebogyδ i varch yn hela ne o byδ marw o ddamwain, march arall a gaif i gan y brenin. [172]Ef biev pob hvyedyc. [173]Ef biev nyth llymysten a gaffer ar dir y llys. [174]Saic a gaif yn i amkwyn a thri chornaid medd nev lyn. [175]O'r pan dotto hebogyδ [y hebogeu yn y eu mud][k] hyd pan i tyno allan ni ddyry ateb i neb a'i holo. [176]Kylch [5ra] a gaif[l] vn waith bob plwyddyn ar taiogav. [177]O bob tayawgdref[m] iiij δ k*yfraith* a gaif i ymborth o'i[a] hebogav. [178]I

---

[a] yn rat y barn] vn heb ran

[b] *MS* dwyn

[c] *MS* kywain

[d] *MS* hyt osseb

[e] δ *is crossed out; a gap is left.*

[f] bob dadl] baddadl

[g] *MS* cgwediay th

[h] *MS* ddiscyno

[i] yd eisted] y distain

[j] *MS* rawd

[k] *From X*

[l] a gaif] *catchword*

[m] *MS* tayagdref

dir a gaif yn rryδ. [179]Tair anrrec a envyn y brenin bevnvδ yn llaw i genad, eithyr y dyδ y lladdo yderyn enwoc nev yn y tair gwyl arbenic; kanis y brenin a'i law i hvn a'i hanrydedda yn y dyddiav hynny. [180]Y dyδ i dalio[b] heboguδ yderyn enwawc, oni bydd y brenin y gyd ac ef, pan ddel yr hebogyδ a'r ederyn ganthaw i'r llys, [y brenhin a dyly kyfvodi yn y erbyn; ac ony chyuyd, yntev roder y wisc a vo amdanaw y'r hebogydd].[c] [181]Ef biav calon pob lwdwn a ladder yn y llys. [182]Kyd anrreithier yr [hebogyd][d] gan gyfraith, nis anrreithia na'r mayr na'r kynhellawr ef, y namyn y teulu a'r rringill. [183]Vn vraint i verch a merch y gwyr gynt. [184]Pvnt a haner vyδ i hebediw.

[185]Y penkynyδ a gaif kroen ych y gaiaf i gan y distain i wneuthur kynllyvanav. [186]Ar lles y brenhin ydd heliant y kynyddion hyd Galan Rracvyr. [187]Oddyna [5rb] y kaffant hyd nawed tyδ Rracvyr nis kyfranant a'r tyrn. [188]Ni[e] byδ golwithion kyfreithiawl yn hydd brenin [gwedy][f] Kalan Rracvyr. [189]Y nawet tyδ i gwedda i'r penkynyδ dangos y kwn a'i gyrn[g] a thrayan o'r krwyn i'r brenin. [190]Hyd nawet dyδ Chwefrawr ni chaiff y neb a holo atteb i gan y penkynyδ onit swyddawc llys vyδ. [191]Ni aill[h] neb o'r swyddogion gohiriaw dadl[i] i gilidd o byδ a'i barno.[j] [192]Ran dev wr a gaif y penkynyδ i gan y kynyddion y gellgwn o'r krwynn. [193]Ran gwr i gan y kynyddion i vilgwn. [194]Pob kynyδ gellgi dwy ra*n* a gaif o'r krwyn yn erbyn kynyδ milgi. [195]Y penkynyδ a ddyly trayan o ran y brenin o'r krwyn, kans iddo i hvnan [y trayna][k] i'r brenin. [196]Gwedi hynny y rhaner y krwyn rrwng y kynyddion a'r brenin; [aed][l] y penkynyδ a'r kynyddion ganthaw ar douerth ar tayogav brenin. [197]Oddyna doent ar y brenin erbyn Nydolic i gymryd ev hiawn i ganthaw. [198]Lle penkynyδ a'r kynyddion yn y nevadd, is y golofyn kyverwyneb a'r brenin. [199]Llonaid korn o lyn a ddaw i gan y pe*n*teulu nev i gan y brenin, [arall y gan y vrenhines],[m] a'r trydyδ[n] i gan y distain. [200]Llamesten ddo bob Gwyl Vihangel a gaif [5va] i gan yr hebogyδ. [201]Amkwyn a gaif yn i lety, nid amgen saic a[o] chornaid llyn. [202]Ef biav trayan dirwy a chamlwrw ac ebediw a gobyr merched y kynyddion. [203]I gyd a'r[p] brenin i byddant gynyddion o'r Nydolic hyd pan allwynt hely ewigeδ y gwanwyn. [204]O'r pan ddechrevont hely y gwanwyn hyd nawetyδ Mai ni wrthebant i neb onid i swyddogion y llys. [205]Y tir a gaif yn rryδ, [206]a march buddosseb i gan y brenin. [207]Dwy ran o'r ebran a gaif march y penkynyδ. [208]iiij δ k*yfraith* a gaif gan bob kynydd milgi, ac wyth gan bob kynyδ gellgi pan ddelont yngwysanaeth[q] y brenin. [209]Or aa

---

[a] + da *underlined*
[b] *Sentence 181 is found at this point in the text*
[c] *From X*
[d] *From X*
[e] *MS* Lle
[f] *From X*
[g] *MS* gyrv
[h] ni aill] i gyvaill
[i] *MS* dal
[j] *MS* bano
[k] *From U*
[l] *From X*
[m] *From X*
[n] *MS* tryδ
[o] saic a] no *changed to* sa, + ic a *superscript*
[p] *MS* ir
[q] *MS* yngysanaeth

yn anrraith gan y breni*n*, kaned gorn pan vo iawn, a dewissed yr eidion a vyno o'r anrraith. [210]Mal y kaif groen ych y gaia kyn trydydydd[a] Nydolic gan y distain, velly y kaif kroen buwch rrwng hanner Mehevin a haner Medi i ganthaw. [211]Ac onis koffa erbyn y dyddie hynny nis kaif. [212]Y neb a'i holo y penkynyδ, keisied yn y dyδ kyfreithiawl i oddiwes ar i wely kyn gwisco vn cvaran, gan ni ddyry atteb onid o'i wely i keffir. [213]Sef vyδ y dyδ hwnnw duw Kalan Mai. [214]Pan dyngo tynged 'Myn vy nghorn a'm cwn a'm kynllyvan.' [215]Pvnt yw gobyr i verch, [216]a thair pvnt i chowill. [217]Saith bvnt [yw i hagweddi].[b]

[218]Dyled y pengwastrawd yw groen ych y gaiaf a chroen buwch yr haf i wne[5vb]uthur kebystrav i veirch y brenin, a hynny kyn rranv erhwng[c] y distain a'r swyddwyr. [219]Y pengwastrawd biav koessav y gwarthec a ladder yn y gegin, a halen a roddir iddaw ganthvnt. [220]Ran dav wr a gaif o arian y gwastrawd. [221]Ef a gaif hen gyfrwiav a hen ysbardvnav y brenin a hen ffrwynav. [222]Y pengwastrawd a'r gwastrodion a gaffant yr ebolion gwyllt o drayan i anrraith. [223]Y pengwastrawd biav esgynv y meirch oll a roddo y brenin. [224]Pedair keinioc a gymer ynte o bob vn eithyr i gan y tri, yr effeiriad tevlv a'r ynad llys a'r kroyssan. [225]Y pengwastrawd biav y gan y distain llonaid y llestri ydd yvo y brenin ohonaw o'r medd, a'r ail llonaid i gan y penteulu, a'r trydyδ i gan y brenin. [226]Y tir a gaif yn rydd, a march buδosseb gan y brenin, [227]a dwy ran a gaif i varch o'r ebra*n*. [228]Lle y pengwastrawd a'i gymdeithion: y golofn nessa i'r brenin. [229]Y pengwastrawd a'r penkynydd a'r troedawc[d] nid ysdeddant wrth bared y nevadd, bob vn a roddir yn i le[e] [...]

[8ra] [...] [230]y mewn kawc evydd. [231]Sef yw y pedwar post, i ddav vorddwyd a'i ddav vyriad. [232]Pvnt yw gwerth pob vn o'r tair gweli hyny.

[233]rTrulliad a gaif y tyr yn rryδ, [234]a march buddossep gan y brenin. [235]Gwirawd gyfreithiawl a gaif, nid amgen no llonaid y llestri y gwallewir ynddvnt yn y llys o'r kwrwf ac ev haner o'r bragawd ac ev drayan o'r medd.

[236]Kanhwyllydd a gaif i dir yn rryδ, [237]a march buddossep gan y brenin, [238]a gweddill y kanhwyllav, [239]a'i rran o arian y gwestvae.

[240]Koc biav krwyn y devaid a'r geivyr a'r mynav a'r lloe ac ymyscarr pob llwdwn a ladder yn y gegin; [241]eithyr y kalonav [y'r] hebogyδ a ranir, [242]a'r kledde biswel a a i'r porthawr. [243]Y koc piav y gwer a'r ysgai, eithyr gwer yr eidion a vo dair nos ar warthec y mayr. [244]I tir a geif yn rryd, [245]a march buddosep i gan y brenin, [246]a ran o arian y gwestvae.

[247]Gostegwr a gaif iiij δ k*yfraith* o bob kamlwrw ac o bob dir[8rb]wy a dalo y neb a wnel anostec yn y llys. [248]Rran a gaif o ariant y gwestvae. [249]Rran a gaif o bob kyfran y gan y swyddogion. [250]I dir yn ryδ a gaif. [251]March buddosep a gaif i gan y brenin. [252]Pan symvtter mayr y bisweil o'i varoniaeth,[f] trugaint a gaif ef i gan yr hwn a ddel yn i le, [253]kanis [253]kanis ef piav kadw y llys yni ddotter arall yn i le.

[254]rTroydiawc piav eiste i dan draed y brenin. [255]O vn ddescyl a'r brenin i bwytty. [256]Ev a

---

[a] *MS* trydydd

[b] *From Y*

[c] *MS* er=bwc *over two lines*

[d] *MS* troededdawc

[e] i le] *catchword*; *ff. 6r-7v are blank*

[f] *MS* varniaeth

ennyn[a] y kanhwyllav rrac y brenin wrth vwytta. [257]Ac eisios bwyd saic a gaif ef a gwirod, gan nid oes gynyδ iddo. [258]I dir yn ryδ a gaif, [259]a march buddosep a gaif i gan y brenin. [260]Rran a gaif o ariant y gwestvav.

[261]Swyddwr llys a gaif i dir yn ryδ, [262]a march buddoseb a gaif i gan y brenin. [263]Rran a gaif o arian y gwestvae.

[264]Distain y vrenhines[b] a gaif march buddosep i gan y brenin. [265]Wyth geiniawc[c] a ddaw iddaw o ariant y gwestvae; [266]a dwy geiniawc a gymer ef ohonvnt, a rrai eraill a ran i swyddogion yr ystavell. [267]Ef a vedd y bwyd a llyn ar yr ystavell. [268]Ef biav dangos[d] lle i bawb yn yr ystavell ac arthysdv y gwirodvdd.

[269]Morwyn ystavell a gaif holl ddillad y vrenhines [8va] drwy[e] y vlwyddyn eithyr y wisc y penyttio ynddi y Grawys. [270]Eithyr i thir a gaif yn rrydd, [271]a march buddosep[f] gan y vrenhines. [272]Hi biav kyfrwy y vrenhines a'i hysbardunav[g] a'i ffrwynav a'i harchenad pan dremyker. [273]Rran a gaif o ariant y gwestvae.

[274]Gwastrawd awyn y vrenhines a gaif i dir yn rrydd, [275]a march buddossep gan y vrenhines.

[276]Pvnt yw gwerth lledvegin y vrenhines. [277]Buwch yw gwerth pair y[h] brenin. [278]xxiiij y gigwen. [279]Kallawr y brenin cxx a dal. [280]Y gigwain xij δ k*yfraith* a dal. [281]Kallawr y vrenhines lx a dal. [282]Y gigwain iiij δ k*yfraith*. [283]Kallawr y taiawc xxx a dal. [284]Y gigwain ij δ a dal.

[285]Men e bwyn ygyd y[i] distain a'r ynad llys a'r yfeiriad tevlv, yna y bydd braint y llys kyd kyd bod absen y brenin. [286]Pan vyno y brenin wrandaw kerdd davawd, kanet[j] y penkerδ dav ganv, vn o Dduw ac arall o benaethav, a hynny yn y gwarchafdy. [287]Pan vyno y vrenhines kerdd yn yr ystavell, kaned y bardd teulv tri chanv iddi o gerδ Gamlan yn ddisen rrac tervyscu y llys.

[288]Kenav gellgi brenin tra vo kaiad i [8vb] lygaid, xxiiij δ a dal. [289]Tra vo yn y krowyn, xlviij δ a dal. [290]Tra vo yn y kynllvst, xvj a lxxx a dal. [291]Yn i over hely, cxx a dal. [292]Pan vo kyfrwys, pvnt a dal. [293]Sef a dal milgi brenin, hanner gwerth y gellgi o'r dechre hyd y diweδ. [294]Gellgi bryr han*ner* gwerth gellgi y brenin. [295]Sef a dal milgi bryr, hanne*r* gwerth i ellgi gogywed ac ef. [296]Vn werth yw gellgi bryr a milgi brenin gogywed ac ef. [297]Pa ryw bynnac vo kenav tayawc, kyn agori i lygait keiniawc a dal. [298]Yn i growyn ij δ k*yfraith*. [299]Yn i gynllust iij δ k*yfraith*. [300]Pan ellynger yn rrydd a chyvarth, iiij δ k*yfraith* heb arddyrchavel. [301]Kostoc tom kyvoed brenin, ni thal namyn iiij δ. [302]O bydd bugailgi, eidion a dal. [303]Od amhevir hynny, deved perchenawc a chymydawc vwch i law ac arall is i law i vyned y bore rrac blaen yr yscrubl y bore a chadw ev dylynyaid o'r bore hyd y nos.

[304]Ki kallawet o lleddir bellach[k] no naw kam i wrth y ty, ni thelir. [305]Pan ddalier agen

---

[a] *MS* envyn

[b] *MS* brenin

[c] + a gaif *underlined*

[d] *MS* dangas

[e] drwy] *catchword*; *MS* drwy drwy

[f] *MS* buddesop

[g] *MS* hysburdanav

[h] *MS* y y *over two lines*

[i] *MS* a

[j] *MS* kanent

[k] *MS* ballach

xxiiij δ yw i werth. [306]Nid oes werth kyfreithawl ar vytheiad. [307]Pob peth ni bo gwerth k*yfraith* arno, damdwng a geffir ohono. [9ra]

[308]Karw,[a] ych a dal. [309]Y neb a laddo[b] kylliaid brenin, taled tair buw camlwrw amdanaw. [310]Devddec golwyth brenhinawl[c] a geffir ynddaw: tavawd, tri golwyth y mwnwgyl, kymhibev, kalon, dwy leuynlay, tvmnon,[d] hydgyllen,[e] herwth. [311]Y tair buw kamlorw a delir dros bob vn o'r rrai hynny. [312]Pan river pob camlwrw, devgain a dal. [313]Ny[f] bydd kylleic[g] brenin namyn tra vo golwithion[h] ynddaw. [314]Ni byδ golwithion yddaw namyn o Wyl Gvric hyd Galan Gaiaf.

[315]Buwch yw[i] gwerth ewic a ladder. [316]O lleddir carw yn tref bryr, kadwed ef y carw hyd haner dyδ, ac yna ony[j] devant y kynyddion, gwnaed y bryr: blygyet yr hydd a llithiet y cwn o'r kic a chadwet y kroen a'r chwarthawr[k] dylvr a dyged y kwn ganthaw adref. [317]Oni ddevant y kynyddion nos hono, mwynhaed ef y kic a chadwed y kroen i'r kynyddion. [318]O lleddir y karw am hanner dyδ, kadwed ef yn gyvan hyd y nos; ac oni ddevant y kynyddion yna mwynhaed y bryr hwnnw mal hwn gynt. [9rb] [319]O lleddir yr hydd y nos yn anneδ y bryr,[l] taned vantell arnaw a chadwet yr hyδ yn gyva hyd y bore; oni ddevant yna bit yn vn vraint a'r rai gynt. [320]O byδ hely gellgwn i wr rryδ, arhoed y bore hyd pan ellyngont y kynyddion kwn y brenin dair gwaith; oddyna helied ynte. [321]Pwybynac a laddo yr hydd agen, rroddet chwarthawr i perchen hwnnw. [322]Ni bydd chwarthawr[m] tyr yn hydd brenin. [323]O gwyl dyn i ar fordd gwystvil yn fforest brenin, bwried ergit iddaw os myn; ac os gwan, emlyned ef oni gwelo, ac o llithr iddaw o'i olwc gaded e hvnan.

[324]O dywedir ar ddyn gweled lladrad ganthaw yn y dydd golav, ac arall yn llywio hynny, rroddet lw pedwargwyr ar hvgaint o gantref, mal y del kyfniver o bob kymwd, ac ni aill y lliwiad ddim yn erbyn hynny.

[325]Davddyblic vyddant dirwy a chamlwrw llys a llan. [326]Pedair pvnt ar ddec yw maint dirwy llan [9va] os yn y vynwent y gwnair y cam. [327]Os oddieithyr y vynwent i gwnair y kam yn y noddva, saith bvnt vyδ maint y ddirwy. [328]Hanner dirwy llan a'i chamlwrw ef a caif[n] yr abat o bydd kyvarwydd yn llythr ac a moes eglwys, a'r hanner arall a gaif meibion llen yr eglwys. [329]Sef agen y kyfranant y meibion llen a'r abat evelly, pan ddel dirwy nev gamlwrw i gan nawddwr lan vddvnt. [330]Sef i rroddir y da hwnnw yn enwedic i'r sant ac nid ar vraint offrwn.

---

[a] karw] *catchword*
[b] *MS* ladda
[c] *MS* brehinawl
[d] *MS* T6nmon
[e] *MS* Hydgylleir
[f] *MS* Lly
[g] *MS* kyllei *a hole in the page,* + c *superscript*
[h] *MS* lwithion
[i] *MS* y
[j] *MS* o
[k] *MS* chwawr
[l] *MS* bryre
[m] *MS* chwarthaw
[n] *The* c *may be a capital* G

[331]Hyd hyn gan ganiat Duw k*yfreith*iav llys[a] rry draythasam ni; weithian gan borth gogoneddvs Arglwydd Jesu Grist kyfreithiav gwlad a ddangosswn. [332]Penaf onaddvnt ynt tair kolofyn k*yfraith*: [333]naw affaith galanas, naw affaith tan, naw affaith lladrad. [9vb]

[334]Naw affaith galanas: kynta yw tavawdrvddiaith. [335]Ail yw kydsyniaw. [336]Trydyδ yw rrodi cyngor.[b] [337]Pedweryδ yw disgwiliad. [338]Pymed yw kanhymddaith. [339]Chweched yw ardwyaw. [340]Seithved yw kyrchv y dref. [341]Wythvet yw porthordwy a'i ddaly pan ladder. [342]Nawed yw gweled i laδ a heb i ddifryd.

[343]Dros bob vn o'r tair kynta y telir ix xx a llw canwr i [wadv] gwaed a gweli a choll enaid. [344]Dros bob vn o'r tair eraill i telir dav naw vgaint a llw kanwr i wadv gwaed[c] a gweli a choll enaid. [345]Tros bob vn o'r tair diwaetha i telir tri naw vgaint a llw kanwr i wadv gwaed a gweli a choll enaid.

[346]Y neb a ddywatta llawrvddieth koed a maes, rrodded lw [10ra] dengwyr[d] a devgain heb[e] gayth a heb alldud, a thri ohonvnt yn ddiowredawc o dri pheth ar bob vn onaddvnt, o varchogayth a lliain a gwraic. [347]Y neb a addevo llawruddiaeth, taled holl alanas.[f] [348]A thrayan galanas a ddaw ar y llowruδ, a'r deuparth a rennir yn dair rran: dwy ran a dal kenedl y taad a'r drydeδ a dal kenedl y vam.

[349]Naw affaith taan: kynta yw kynghori[g] mynd i losci. [350]Ail yw dyhvnaw am losci. [351]Trydyδ yw myned i losci. [352]Pedwerydd dwyn y rrwyll. [353]Pymed yw lladd y taan. [354]Chweched yw[h] keisio peth i enynv y taan. [355]Seithved yw chwythv y taan yni enyno. [356]Wythved[i] yw enynv y peth a loscer. [357]Nawed yw edrych ar y peth a loscer heb i ddifryd. [358]Y neb a ddywato vn o'r naw affaith hynny, rrodded lw dengwyr a devgain heb gayth heb alldud. [10rb]

[359]Naw affaith lledrad: kynta yw ssyllhv twyll a cheisiaw kydymaith. [360]Ail yw dyhvnaw am y lledrad. [361]Trydyδ yw rroddi bwyllwr i'r lleidyr. [362]Pedwerydd ymddwyn y bwyllwr yn i gymdeithas. [363]Pemed yw rrwygaw y bvarth nev dori y ty. [364]Chweched yw dwyn y peth a'i gychwyn. [365]Sseithved yw kydymaddaith a'r lledrad dyδ nev nos. [366]Wythved yw kymrvd rran o'r lledrat. [367]Nawed yw gwelet y lledrad a'i gelv ai ir gobyr ai ir gwerth. [368]Y neb a ddywatto vn o'r naw affaith hyny, rroddet lw dengwyr a deugaint heb gayth heb alldud.

[369]Naw nyn[j] a dyngant tystioleth ar y gair gan i kredv ev [10va] gair[k] pob vn onaddvnt ar wahan.

[370]Y neb a ddywatto koed a maes, rrodded lw dengwyr a devgaint o wyr o'r wlad heb gayth a heb alldud; hynny yw rraith gwlad hynny diwad koed a maes llawrvddiaith ar

---

[a] *Gap sufficient for* ys *following* ll
[b] *MS rroder a chyngor*
[c] *MS* gwaed a gwaed
[d] dengwyr] *catchword*
[e] *MS* hed
[f] *MS* taled holl alanas taled holl alanas
[g] *MS* kynhori
[h] + chwythv y taan *underlined*
[i] *MS* Wwythved
[j] naw nyn] Namyn
[k] gair] *catchword*

wahan e hvn. [371]Os lledrad llosc vydd ac affaith ynddo. [372]Os trais llosc vyd ac affaith ynddo.

[373]Arglwyd y rrwng i ddevwr.
[374]Abad y rwng i ddav vanach ar ddrws i gor.
[375]Taat y rrwng i ddav vab.
[376]Brawdwr ar [yr] hyn a varnws gynt o byδ petrvs.
[377]Mach ar i vechnieth. [10vb]
[378]Effeiriad y rrwng[a] i ddev ddyn blwy.
[379]Morwyn ar i morwyndawd.[b]
[380]Bugail ar i vvgeilieth o lladd lwdwn i gilidd ar i gadw.
[381]Lleidyr[c] diobaith ar i gyd ladron pan ddycker i'r groc, kanis gwir yw edryt ef yna.

[11ra] [382]Tri aylawd[d] ar ddec y syδ vn werth ar ddyn: i ddav lygat, a'i ddwy glust gan golli ev glywed,[e] a'i ddwy ffroen, a'i ddwy wevvs, a'i ddav droed, a'i ddwygaill. [383]vi buw yw gwerth pob vn onaddvnt ac xx o ariant. [384]O thorir i glust agen oll ac o chlyw ohonai, dwy vvw a xl o ariant yw i gwerth. [385]Gwerth bys dyn, buwch ac xx o ariant. [386]Gwerth bawd dyn, dwy vvw a xl o ariant. [11rb] [387]Gwerth i davawd e hvn, kimint a gwerth yr aelodav eraill oll. [388]Holl aylode dyn pan gyfriver, seyth bvnt a phedwar vgein pvnt yw i gwerth. [389]A xxiiii δ yw gwerth gwaet yn Gwyneδ. [390]Ac yn Nehevbarth xxx δ.

[391]Tair kraith gogyvarch ysyδ: [392]vn ar wyneb dehav, cxx a dal; [393]vn ar law dehav, lx a dal; [394]vn a[r] droed dehav, xxxii a dal.

[395]Tair pvnt yw gwerth pob vn o'r tair gweli anghevvawl. [396]Ascwrn ygrevan,[f] iii δ cwta a dal. [397]Ascwrn[g] is y grevan, iii δ ky*freith* a dal.

[398]Sef yw maint galanas maer nev gynhellawr, ix mvw a ix xx mvw gan dri drychavael. [11va] [399]Syrhaed pob vn onaddvnt, ix muw a ix xx mvw o ariant. [400]Pvnt a delir yn ebediw maer nev gynhellawr. [401]Pvnt yw gobyr ev merched, [402]tair pvnt i chowill, [403]saith bvnt i hagweddi. [404]Od a merch maer nev benteulu nev o arbenigion[h] y llys yn llathlud heb rodd kenedl, ix eidion kyhyd ev kyrn ac ev yscyvarn a gaif yn i hagweddi. [405]Ni byd penkenedl na mayr na chynhellawr. [406]Sef yw maint galanas penkenedl, tri ix mvw a[i] thri ix vgain mvw[j] gan dri drychavel. [407]Yn i syrhaed i telir tri ix mvw a ix xx o ariant. [408]Galanas vn o aelodav penkenedl vyδ, nid amge*n* i gar, a delir o ix muw gan dri drychavael. [409]Yn i

[a] *MS* rwn
[b] *MS* morwyndadawd
[c] + ar i
[d] tri ayl] *catchword*; *MS* aylaw
[e] *MS* gylywed
[f] *MS* ygreva
[g] *MS* ascwr
[h] *MS* arbendivigion
[i] *MS* a a
[j] vw *superscript*

syrhaed i telyr now muw a naw vgain o ariant. [11vb] [410]Penkenedl a ddyly ii δ gan bob gwr a vyno i gares. [411]Penkenedl a ddyly ii δ gan bob gwr a gymero ynghenedl. [412]Ef a ddyly ymyrv ymhob lle gida i gar.

[413]Pob dyn a gaif drychavael yn i syrhaed a'i alanas[a] eithyr kayth ac alldud. [414]Sef yw y drychavel, naw vgain a delir i gida'r gwarthec.

[415]Galanas bonheddic kynhwynawl a delir o deir buw a lx muw gan dri drychavel. [416]Yn i syrhaed i telir tair buw a lx o ariant. [417]Kymro vamdad vyδ bonheddic kynhwynawl heb gayth heb alldud heb led ach ynddaw. [418]Os gwr bryr vyδ bonheddic kynhwynawl[b] pan i llad,[c] vi buw a gaif y bryr i gan y llawruδ. [419]I'r brenin i daw traian[d] pob galanas, kanis ef biav kymell pob galanas lle ni allo kenedl i gymell. [420]Ac a gaffo [o] dda y llowrvδ o'r pryd bigilidd ar y tir, y brenin biav.

[421]Galanas taiawc brenin,[e] iii buw a lx mvw gan dri drychavel. [422]Yn i syrhaed i kaif dair buw a lx o ariant heb ynghwanec. [423]Galanas alldud brenin a delir [12ra]o dair buw[f] a lx muw, [424]yn i syrhaed i telir teir buw heb ynghwanec. [425]Galanas alldud bryr hanerawc vyδ ar alanas alldud brenin. [426]Galanas[g] alldud taiawc, haner galanas alldud bryr. [427]A'i syrhaed ef velly.

[428]O gad arglwyδ y'w gayth arwain arvav a syrhav dyn ac wynt, taled yr arglwyδ dros i weithred. [429]Pvnt a haner a delir yn galanas kayth telediw. [430]O byδ anavvs agen, nev ry hen, nev ry ifank, nid amgen no llai noc vgain mlwyd, pvnt a dal o henvydd o'r tu draw i vor. [431]O henvydd o'r tu hwn, pvnt a dal kanis ef i hvnan a lygrws i vraint [o] myned yn gayth, nid amgen no chyflocddyn. [432]O thery ryδ gayth taled xii δ ky*freith* iddaw: vi δ i'r tair kyvelin o vrethyn gwyn pentan i wneuthur pais iddaw wrth ladd eithin, a thair dros lowdwr; vn dros gvranav a dyrnvolav; vn dros wyddi; vn dros [12rb] rraf xii kyvelin, nev dro vwiall os koydwr vyδ. [433]O thery kayth neb rruw ddyn rryδ, iawn yw trychu i law ddehav nev taled i arglwyδ.

[434]Pwybynac a gydio a gwraic gayth heb genad i harglwydd, taled xxii δ ky*freith* ac na chytie bellach a hi. [435]Y neb a beichocko gwraic kayth a vo ar gyfloc, rrodded arall o'i harrglwyδ hyd pan ango; ac oddyna maged y mab a doed[h] y cayth ar i arglwyth drachefyn. [436]O byδ marw hythav ar y mab, taled i gwerth ky*freith* o'i harglwyδ.

[437]Y neb a wnel kynllwyn, y*n* ddavddyblic i tal i alanas y dyn a'i lladdo; xxii mvw a dal i'r brenin. [438]Y neb a ddywatto kynllwyn nev vyrn[i] ne gyrr kohoyddawc, rrodded lw l o wyr heb gaeth heb alldud. [439]Ni byδ kyrch kohoyddawc yn llai no ix nyn.

[12va] [440]Llys[a] biav tervynv a wedi llys, llan, ac wedi llan, braint, ac wedi braint, kyngwarchadw ar i ddiffaith. [441]Ty ac odvn ac yscubawr yn gynwarchadw.

---

[a] *MS* ai alanas ai alanas
[b] *MS* kynhwynal
[c] *MS* lla
[d] *MS* traia
[e] *MS* brenin brenin
[f] o dair buw] *catchword*
[g] *MS* Galalias
[h] *MS* a doed a doed
[i] *MS* vryn

[442]O thyf kynen y rrwng dwy dref vn vraint am dervynv, gwyrda brenin biav terrvynv hwnnw os gwddent; o byδ betrus yntev dyledogion piev, tyngv o bawb i tervynnav ac oddyna rraned yn ddav hanner y rrwng y ddwy dref.

[443]Kyd tervyno tref a'r llall, ni ddyly ddwyn rran tir i wrth. [444]cxx a ddaw i'r brenin pan dervynner tir, a xxiiii δ i'r brawdwr. [445]Pan ddyko ky*freith* dir i ddyn, haner pvnt a gaif y brenin o bob rrandir.

[446]Y neb a holo tir yn nawettyδ Rracvvr brawd a gaif ohonaw kyn nawettyδ Mai. [447]Ac oni chaif vrawd yna holed nawettyd Mai elchwyl o myni i gafel, ac oddyna agored vydd gwir iddav pan vynno y brenin.

[448]Teir gwaith y rrenir tir: kyssevin y rrwng brodvr, oddyna y rrwng kefyndyr, oddyna y rrwng kyvyrdyr; [449]gwedi hynny ni bydd rran ar [12vb] dir.

[450]Pan rano brodyr tref ev tad rryngthvnt, yr ievva pie yr yssyddyn, a'r beinc, a wyth erw, a threfnav oll, a'r gallawr, a'r vwyall gynvd, a'r kwlldwr; [451]kan ni all y tad roddi hyn namyn i'r mab ievva, a chyd gwystler, ni ddigwyddant vyth. [452]Gwedi hynny kymered pob brawd essyddyn ac wyth erw. [453]Y mab ievva wedi hynny a ran, ac o hynna i hyna dewissent.

[454]O gomeδ dyn dair gwys o blegit brenin am dir, onid mawr angen a'i lludd, y tir a roddir i'r neb a'i rryholo. [455]O daw wrth yr ail gwys nev wrth y trydyδ gwys, gwrthepet os iawn iddaw am y tir, a thaled dair buw kamlwrw i'r brenin. [456]Pan ysdyner tir iddaw ni thal dim yn i ebediw. [457]Pwybynac a holo tir o ach, kyn gwrando i hawl rraid yw hynafiaid y wlad tyngv yr ach. [458]Pwybynac a gynhalio tir dair oes yn vn wlad kyn boynt dyledogion heb hawl heb losc heb dori aradr, ni wrthebir vddvnt am y tir hwnnw vyth gan rrygayws ky*freith* y rryngthvnt.[b] [...]

[21ra] [...] [459]ymguddio blaen i lloscwrn. [460]Kath arall[c] iiii δ a dal. [461]Teithi kath yw klybot a gweled, a bod yn[d] gyfglust gyflygad gyfewin o daw laδ llygot, ac nad ysso i chynafon ac na bo twn yn i hewineδ.

[462]Ni byδ dirwy am gi kyd lladrataer, namyn kamlwrw. [463]Llv vn dyn y ddywad y syδ ddigon, kanis vn baich kefyn yw. [464]Kyd dyker yn lledrad ni wnair ry ladrad arnaw. [465]O chyrch neb ki dyn er keisiaw i rwygaw, kyd lladdo ef y ki a'r arf a vo yn i law, ni [thal][e] ddim amdanaw. [466]O brath ki ddyn oni ddel y gwaed y dyn, taled i arglwydd gwaed y dyn, ac o lladd y dyn rwygedic y ki heb symvd oddyno, ni chaif namyn xvi o ariant. [467]Ki kynevodedic a rryvvkio dyn dair gwaith, onis tal i arglwydd o ky*freith*, rrwymer dvy rychwant i wrtho wrth droed i arglwyδ, ac velly y lleddir, ac oddyna y telir teir buw yn gamlwrw.

---

[a] llys] *catchword*

[b] y rryngthvnt] *catchword*; *ff. 13r-20v are blank*

[c] *MS* arrall

[d] *MS* y

[e] *From X*

[468]Ni bydd na dirwy na chamlwrw ar neb [edeinyawc][a] [21rb] kyd lladrader; am edyn adainiawc i werth agen a deler.

[469]Bonedd gwenyn, o baradwys pan ynt ac o achos pechod Adda, ac yna y doythant oddyno ac y rroddes Duw rad arnaddvnt, ac wrth hynny ni cheffir yfferennav heb gwyr. [470]Modrydyf gwenyn, xxiiii δ a dal. [471]Y gyntaid, xvi δ; [472]yr ail gynthaid, xii δ; [473]y drydeδ haid, viii δ. [474]Y gynthaid o'r gynthaid, viii δ. [475]Modreda wedi ol y gyntaid ohonai, xx δ a dal; [476]wedi y ddel[b] yr eil haid ohonai, xii δ a dal. [477]Ni thal neb haid namyn iiii δ ky*freith* kyn no'i bod dri diev a'r hindda yn wasdad: dyδ i geissiaw lle, a dydd i vvdaw, a dyδ i orffwys. [478]Y neb a gaffo haid a'i gangen ar dir dyn arall, iiii δ a gaif gan berchenawc y tir o myn ynte yr haid. [479]ixetydd kyn Awst, xxiiii δ a dal pob haid, kanis braint modreda a gymer yna. [480]Y neb a gaffo byda ar dir dyn arall keiniawc ky*freith* a gaif nev y kwyr, a dewis i berchenawc y tir.

[21va] [481]Or pan dotter yd yn y ddaiar yni el yni yscub, ariantal a ddyleir amdanaw; [482]ac oddyna yscub iach yn lle y glaf. [483]I mae i bawb ddal ar i yd o myn ky*freith* amdanaw.

[484]Os perchenawc yr yscrubl a'i glanha drwy lw, ef a'i dichon. [485]Ni ddyleir am glefyd tal gwedi cael vn tal, kan nid adriblin ni thal.

[486]O bob march y bo hual nev lyfethyr, keiniawc y dyδ a dwy y nos. [487]Disgyfrith,[c] dime dime y dyδ a cheiniawc y nos. [488]O discin rryddhav y[d] march oll pan ddalier ar yr yd taled gamlwrw i'r arglwydd. [489]O bydd y ddwy egwyd am yr vn troed, ni ddal ddim.

[490]O bob eidion buarth, dime y dyδ a cheiniawc y nos.

[491]O'r kadw ky*freith* o'r moch, hwch a ddewisso,[e] eithyr y tri llwdyn arbenic; daly yr hwch a ddewisso oni ellynger o'i gyfraith ac o ffyrddling o bob vn. [492]Ac yna agen kynykier o perchenawc yngwydd tystyon, ac onis gyllwng yna gwnaed i [21vb] ddevnvd ohonai. [493]Sef yw y kadw ky*freith* o'r moch: xx llydyn a baedd.

[494]O'r kadw kyfreith o'r deved, davad a geffir ohonvnt, keiniawc o bob pvm llydyn. [495]Maint y kadw ky*freith* o'r devaid, dec llydyn ar hugaint.

[496]Ynaid eraill a ddywaid o'r xv llydyn o'r moch, vn, ac o'r xxx llydyn o'r devaid, davad.

[497]O bob oen y telir wy iar hyd pan gaffer y kadw, ac yna oen a delir ohvnvnt.

[498]Ac o'r geivyr ac o'r mynv y kyffelip.

[499]Y neb a gaffo gwydde yn i yd, torred phon a vo kyhyd ac o ben i elin hyd ymhen i vys bychan, yn y praffder y myno, a lladded y gwydde yn yr yd; a honno ac a laddo i maes o'r yd, taled. [500]Gwydde a gaffer yn llygru yd drwy yscubawr nev ydlam, gwascer gwialen ar i mwnwgyl a gader yno oni vo marw.

[501]Y neb a gaffo iar yn i yscubawr nev yn i ardd lin, daliet yr iar yni gollyngo y perchenawc o wy; o deil y ke[22ra]lioc,[f] tored i ewin nev taler wy drosto o bob iar a vo yn y tuy.

[502]Y neb a ddalio kath yn llygota yn i ardd lin, taled y perchenawc i llwgwr.

---

[a] *From X*

[b] + y gynthaid o honai *underlined*

[c] *MS* digyfrith

[d] y *superscript*

[e] + ail hwch a ddewisso

[f] lioc] *catchword*

[503]Y neb a ddalio llo yn i yd, dalied o'r pryd bigiliδ heb laeth i vam, ac yna ev gollwng yn ryδ hyd galan gaiaf, ac yna braint vam, ac yny digwydd, gwystyl am lwgwr yd.

[504]O llwgwr yd neb yn emyl ffordd, ac na chaffo ddaly vn llwdyn arnaw, kymered grair a doed i'r dref, ac o thyngant lw diarnabot,[a] talent yr yderyf llwdwn. [505]A'r ky*freith* honno a elwir 'telitor wedi haloc lw'.

[506]O deil dyn yscribl[b] ar yd a bod ymrysson y rrwng y deiliad a'r perchenawc, y deiliad bie tyngv kaffel ev blaeniaid ac ev holiaid ar yr yd yn gyfreithiawl. [507]O deil dyn yscribl kynevin ar yd nev wair, ac ymladd o'r scribyl yn y gwarche, a llaδ o lwdwn y llall yn hynny, perchenawc yr yscribul biev [22rb] talv y llwdwn a ladder, a'r deiliad a vyδ ryδ. [508]Pwybynac a wrthotto gwystyl am lwgwr yd, o byδ marw yr yscribyl, ef a'i tal.

[509]O lladd ysgribl trefgorδ llwdwn ac na wyper pwy a'i lladdawδ, doed perchenawc y llwdwn a chrair ganthaw, a rroddent lw dyrnabot, ac oddyna talent cryf eidion. [510]Ac o byδ eidion moel yn y buarth, taled ran dav eidion. [511]A'r ky*freith* honno a elwir 'llwyr dal wedi llwyr dwng'. [512]O bydd adde ar vn eidion lladd y llall, y perchenawc a'i tal.

[513]Maer bie kadw diffaith y brenin.[c] [514]Punt a hanner a ddaw i'r brenin pan wystler mayrion nev gynghellwrieth. [515]Tri dyn a gynail y mayr ganthaw i nevadd y brenin eg kened noch ef. [516][Ef][d] a ran y tevlv pan elont o'v dovreth. [517]Yn anrraith o dda gan devlv y [ran deu wr].[e] [518]Ar y pedwerydd[f] y kaif gylch dwy waith yn y vlwyddyn ar y tayogav y brenin. [519]Ni bydd penkenedl neb tra vo ma[22va]yr[g] nev gynghellawr. [520]Nid oes le dilis i'r mayr yn nevadd y brenin. [521]Maer biev kymell holl dyled y brenin hyd y bo mayr mayth. [522]Y mayr a'r kynghellawr biev traian gobyr merched y taiogav, a thraian ev kamlwrw, a thraian i dirwy, a thraian ev hyd pan ffowynt o'r wlad, a thraian yr yd o bob marw daiawc. [523]Y mayr biev rranv pob peth a'r rringill dewisso i'r brenin.

[524]O damwinia i'r mayr na allo gynal ty, kymered y taiawc a ddewisso attaw vlwyddyn o'r calan Mai bigilidd. [525]A mwynhaed ef laeth y taiawc yr haf, a'i yd y kynhaiaf. [526]Pan el y taiawc agen i wrthaw, gaded iddaw bedair hwch o hychod mawr a baed a'r yscrubyl eraill oll, ac viii erw yn ar, a iii gaiafar. [527]A'r ail vlwyddyn a'r drydeδ vlwyddyn velly y kaiff, ac nid yr vn taiawc. [528]Oddyna ymborthed ar yr eiddo e hvn tair blyneδ; wedi hyny gwareded y brenin arnaw o ddodi taiogav iddaw yn y messur [22vb] gynt.

[529]Pan ellyngo dyn i anrraith o ky*freith*, y mayr a'r kynghellawr a gaffant yr aneireδ a'r yndderigedd a'r diriewyd. [530]Rran ddav hanner a vyδ rrwng y mayr a'r kynghellawr. [531]Dyled y kynghellawr kynal dadle y brenin yn i wydd ac yn i absen. [532]Ef bie dodi kroes a[h] gwardd ar bob dadl. [533]Ar clet y brenin ydd eisde yn y tair gwyl arbenic os yn y gyngellwriayth y [bydd y][i] byrenin. [534]Modrwy avr a thelyn a thawlbwrdd a gaif i gan y brenin pan el yn i swyδ. [535]Yn oes Howel Dda traian byw taiawc a'i varw a ddaw i'r mayr

---

[a] *MS* dyrnawt
[b] bl *superscript*
[c] + y bre *underlined*
[d] *From X*
[e] *From X*
[f] *MS* perwynt
[g] yr] *catchword*
[h] *MS* a a
[i] *From X*

a'r kynghellawr. [536]Ac o hyny y devparth a gaif y mayr a'r traian a gaif y kynghellawr. [537]Y mayr[a] a ranai a'r kynghellawr a ddewissai.

[538]Pedair buw a lxxx o ariant yw syrhaed tevluwr os o hynny ydd ymarddelw. [539]Tair buw a delir yn syrhaed taylvwr bryr.

[540]Rringill a gaif y tir yn ryδ, [541]a lety yn y llys. [542]Y rrw[23ra]ng[b] y ddwy golofyn y saif tra vo y brenin yn bwytta, [543]kans ef biav goglud y nevadd rac tan. [544]Yna[c] gwedi bwyd bwytaed ynte y gyd a'r gwsnaethwyr. [545]Oddyna nac ysdedded ac na thrawed y post nessaf i'r brenin. [546]Gwiraud k*yfreith*iawl a gaif, nid amgen no llonaid llesdyr y gwallawer ac ef yn y llys o'r kwrw, ac ev haner o'r bragawd ac ev drayan o'r medd. [547]Ef biav goesgyn pob eidion i wneuthur kvranav. [548]Nid byδ hyd ynddvnt namyn hyd i fferav. [549]Nawetyδ Kalan Rracvvr i kaif gan y brenin pais a chrys a chapan a iiij kyvelin o liain o ben i elin hyd ymlaen i hirvys i wneuthur llawdwr. [550]Ni byδ hyd yn y dillad namyn oddis pen i elin hyd wrth gwlwm i lowdwr. [551]Kalan Mawrth y kaif pais [23rb] a chrys a llowdwr a mantell. [552]Pengiwch agen a gaif yn y tri amser. [553]Ef biev rranv y rrwng y mayr[d] a'r kynghellawr a'r brenin. [554]Ef biav o yd y taiawc foadvr ac o yd y marwdy yr yscub a vo dros ben pan raner. [555]Pan adao kyllidws foadur i yd heb vedi [a fan][e] gaffer[f] y kyfelib yd o varwdy, y talarav a gymer y rringill.

[556]Ef a gaif pob ymenyn blwch, a'r mayn isa i'r vrevan, a'r dvlin oll a'r llinhat, a'r to nessaf i'r ddaiar o'r yd, a'r bwiaill a'r troellav a'r ieir a'r gwyddav a'r kathav. [557]Torth a'i henllyn a gaif o bob[g] ty y del iddo ar neges y brenin. [558]Tair kyvelin a vyδ yn hyd e pyllo rrac i arganvod. [559]Ni byδ tenlli yn i lawdr. [560]Ef biev tarw a ddel gan anrraith. [561]Pan vo marw y rringill, ynrvgareδ yr arglwyδ y byδ yr eiddaw oll. [562]Gwys y rringill gan dystion a tharaw y post tair gwaith, nev y lle ni aller dywad y gwys. [563]Pan ddywat[23va]taer[h] gwys agen, llw y neb a wyssier ar i trydyδ o wyr vn vraint ac ef yn erbyn gwys y rringill e hvnan a ddywad gwys y rringill.

[564]Gof llys biav penav y gwarthec ac ev traed, [565]eithr y tavodav biav yr ynad llys, a llenwi lle y tavodav o vorddwydyδ y gwarthec a hyny o ran yr arglwyδ o'r larder yn y gegin. [566]J ymborth ef a'i was a ddaw o'r llys. [567]Yn rrad y gwna waith y llys oll eithyr tri pheth, kallawr a bwyall lydan a gwaiw. [568]Ef biav keinion[i] ynghyveddach. [569]Ef hevyd biav iiij δ o bob karcharawr i diotto heirn i arnaw. [570]Y tir a gaif yn ryδ. [571]Gwiraud kyfreithiawl a gaif o'r llys, nid amgen no llonaid y llestri y gwallawer ynddvnt o gwrw ac ev haner o'r bragod ac ev draian o'r meδ. [572]A thri dyn a gaif y messur hwnnw [23vb] o'r llys: yn gynta y gof, oddyna y rringill, diwaytha y kaif y trulliad. [573]Ni aill vn gof vod yn vn gymwd a'r gof llys heb genad. [574]Vn ryddyd a'r brenin vyδ am valv ar y velin. [575]Ef biev gobyr merched y govaint a vwrrynt wrth i hwn. [576]Gobyr merch[j] gof llys, yr arglwyδ biev. [577]Sef yw hynny,

---

[a] r *superscript*

[b] ng] *catchword*

[c] *MS* yni

[d] y mayr] *superscript*

[e] *From X*

[f] *MS* affer

[g] bob] o *deleted in ms.*

[h] taer] *catchword*

[i] *MS* keiniawc

[j] *MS* mer

cxx δ. [578]Pvnt a haner i chowill. [579]Pvnt yw i hagweddi. [580]cxx yw ebediw gof llys.

[581]Dyled [y porthaur][a] yw kafel i dir yn rrydd. [582]Yn y kastell drachefyn y ddor y bydd i dy. [583]I ymborth a gaif o'r llys. [584]A phren a gaif o bob pwn kynnvd. [585]Pren hevyd a allo i dynv a'i law ddehav o bob menaid, drwy na rwystro ar gerdded y meirch na'r ychen. [586]A chyn ni allo i dynv yr vn, pren essios a gaif ef, ac nid yr hwn a ddewisso.[b] [587]O'r moch preydd a ddel i'r porth ef a gaif hwch, ac ni haydd mwy noc hyd y gallo yn i vn llaw i drychavel [24ra] erbyn[c] i gwrych megis na bo is i thraed no phen i lin. [588]O'r anrraith warthec a ddel i'r porth o byδ eidion cwtta arnai y porthawr a'i kymer, a'r eidion diwaytha a ddel i'r porth, [589]a'r kledde bisswail a reuir, a hynny oll o'r gwarthec a ladder yn y gegin. [590]iiij δ kyfraith a gaif o bob karcharawr a garcharer yn y llys gan iawn.

[591]Rraid yw bod y gwiliwr yn vonheddic gwlad, kans iddaw yr ymdduriaid y brenin. [592]I vwyd a gaif o'r[d] llys yn breswyliadawc, [593]ac oni bydd y brenin yn y llys, yn gynta ef a gaif y bore saic. [594]A thorth a'i henllyn yn i vorevwyd [a gaif]. [595]Asgwrn mer a gaif o bob eidion a ladder yn y gegin. [596]Y tir a gaif yn ryδ. [597]Gwisc a gaif ddwyaith yn y vlwyddyn i gan y brenin. [598]Dwywaith yn y vlwyddyn i kaif yscidie ac yssane.

[599]Mayr y biswail a ddyly y saim a blonec o'r llys. [600]Ef bie krwyn[e] y gwarth[24rb]ec a vo dair nos ar warthec y mayrdy. [601]Ef bie gobyr merched gwyr y vayrdref. [602]Kyd syrhaont gwsnaythwyr y llys mayr y biswail ar y ffordd pan ddycont vwyd nev lyn o'r gegin nev o'r ysdavell parth a'r nevadd, nis diwygiant iddaw. [603]Pan daler i syrhaed, vj buw a cxx o ariant a gaif yn i syrhaed. [604]Yn i alanas i telir vj buw a cxx mvw gan dri drychavel.

[605]Penkerdd a ddyly eisde ar klet yr edling. [606]Ef biav i dir yn rydd. [607]Ef biev kanv yn gynta yn y llys. [608]A chevarvvs neithiawr, nid amgen xxiiij δ, a gaif gan bob morwyn pan wrhao. [609]Ni chaif ddim o neithior gwraic y rrygavas gynt genthi tra vv vorwyn. [610]Sef y byδ penkerδ, pan enillo gadair. [611]Ni all vn barδ [erchi][f] hyd y bo i bengeirddieth ef, onid bardd o orwlad vyδ, heb genad. [612]Kyd lluddio y brenin na roddid [24va] dim[g] yn i gyweth ysbaid, digyfraith vydd penkerdd.

[613]Seith bvnt yw gobyr merch y brenin ac i'r vam i telir. [614]I gwr a dal i chowil, kanis tir a delir iddi. [615]Pedair pvnt ar hugain yw i hagweddi. [616]Od a merch bryr gan wr heb rodd kenedl, pan atter, sef vyδ i hagweddi vj eidion kyhyd i kyrn ac yw i yscyvarn. [617]Eithyr i daiawc yn i ddadl kyffelib dri eidion a hyny a delir.

[618]O chymer gwr wraic o roδ kenedl a'i adv kyn y saith mlyneδ, taled i hagweddi. [619]O byδ merch bryr tair pvnt yn i hagweddi. [620]Pvnt a haner yn i chowill. [621]cxx δ yn i gobyr. [622]O byδ merch taiawc pvnt a haner yn i hagweddi. [623]cxx δ yn i chowill. [624]xxiiij δ yn i gobyr. [625]Os gwedi y saith mlyneδ i gedy, bid ran dav hanner y rryngthvnt onid[h] braint a ddyry rragor i'r gwr. [626]Dev parth y pl[24vb]ant a dav yn rran y gwr, nid amgen yr hynaf a'r ievaf, a'r traian yn rran y vam. [627]Os angav a'i gwahan, dav haner vyδ y rryngthvnt.

---

[a] *From X*

[b] *MS* ddiwisso

[c] erbyn] *catchword*

[d] *MS* on

[e] *MS* crbu

[f] *From X*

[g] dim] *catchword*

[h] *MS* oni

[628]Syrhaed gwraic wriawc wrth vraint i gwr i telir iddi. [629]Pan ladder gwr[a] gwreigiawc, i syrhaed a delir kyssevin, oddyna i alanas; traian agen a gaif y wraic o'r syrhaed.

[630]Gwraic gwr rrydd a ddichon roddi i chrys a'i mantell a'i phenllian a'i hyscidie a'i blawd a'i hyd a'i llaeth a'i hymenyn a'i chaws heb genad i gwr; benthygio holl dodrefn i thy a aill hevyd. [631]Ni aill gwraic taiawc venthygiaw dim heb genad i gwr namyn i phengiwch[b] a'i gogyr a'i rridill, a hynny hyd y klywer i llef a throed ar i thomen.

[632]Od a morwyn yn[c] llathlud heb ganiad kenedl, i that a'i hadwc o'i hanvodd ac ni thal gobyr arglwyδ. [633]Od a gwraic agen yn llathlud, ni aill neb i dwyn o'i hanvoδ rrac y gwr. [634]O'r lle [25ra] y bo[d] i adlam, oddyna y daw gobyr. [635]Y neb a ddyco trais ar wraic, taled i gobyr o'i arglwydd a'i dirwy, ac i'r wraic i tal i syrhaed a'i hagweddi, a'i dilysrwyδ a rydd; ac o bydd morwyn talet i chowill. [636]O dywad y gwr y trais a'r wraic yn i yrv arno, kymered y hi grair yn i llaw ddehav a'i gala[e] yn i llaw assw, a thynget i'r krair dwyn trais ohonaw arni a'r gala[f] honno, ac velly ni chyll hi ddim o'i iawn. [637]Y neb a ddywatto trais rrodded lw l o wyr heb[g] gayth heb alldud, a thri o'r gwyr yn ddiowredawc o dri pheth k*yfreith*ion. [638]Ac am drais nid oes wyr diowredawc[h] o dyry l o wyr heb gayth heb alldud.

[639]O dri[i] achaws ni chyll gwraic i hagweddi kyd adawo i gwr: nid amgen o glafri ac o anadl ddrwc ac o eisie kyd.
[640]Tri pheth ni ddygyr rrac gwraic kyd adawer am i cham: i chowill a'i hargyfre a'i hwynebwerth pan gyttio [i] gwr a gwraic [25rb] arall.

[641]Oni ddevnyddia morwyn i chowill kyn i chyvodi y bore i gan y gwr, i gyd y byδ rryngthvnt. [642]Tair gwaith i kaif gwraic wynebwerth gan i gwr o chyttia ef a gwraic arall; ac os diodde hithe dros y drydeδ waith ni chaif ddim.

[643]O roddir morwyn addved i wr a dywedud o'r gwr nad oedd vorwyn, tynged y vorwyn ar i phymed nad oeδ wraic; sef yw y rrai a dyng, i that a'i mam a'i chwaer a'i brawd.

[644]Tri llw a ddyry gwraic i wr pan enllibier: kynta llw, saith wragedd; a'r ail enllib llw xiii; a'r drydeδ enllib llw l o wragedd. [645]Am gusan a'i gouysiau a'i hymrain[j] yw y tri llw. [646]A'r gwr a ryδ yr vn llw y'w wraic briod. [647]Y wraic am i gobyr, llw saith wragedd vn vraint a hi. [648]Na rodded neb wraic i wr heb vach ar i gobyr [25va] o'i[k] arglwyδ. [649]O dwc gwr wraic yn llathlud i dy, kymered gwr y ty vach ar i gobyr o'i arglwydd; onis kymer, taled i hvnan. [650]Gobyr alldudes,[l] xxiiij δ. [651]Penkerdd bie gobyr merched y beirdd eraill a voend y danaw.

---

[a] gwr *superscript*
[b] *MS* phegiwch
[c] yn *superscript*
[d] y bo] *catchword*
[e] *MS* 6, *with a space for three letters*
[f] *MS* 6, *with a space for three letters*
[g] *MS* he
[h] *MS* dioredawc
[i] *MS* dyry
[j] *MS* hyrain
[k] oi] *catchword*
[l] *MS* alldudas

[652]Nawdd kayth, ergid kryman. [653]Nawdd mayr y biswail yw ergid gwyddi nev vwyall.[a]

[654]Cxx yw gwerth kerwyn veδ a daler i'r brenin, kanis o'i wyr y rrenir val hyn: y traian i'r brenin, a'r ail traian i'r neb a'i gwnel, a'r trydyδ i'r neb a roddo y meδ.

[655]Kroen karw nev vvwch nev ych nev ddyfrgi, xij δ kyfraith a dal pob vn onaddvnt. [656]Kroen llostlydan, cxx δ. [657]Kroen belev, xij δ a dal. [25vb]

[658]Pob gwyddlwdwn a ladder ar dir arall, perchen y tir a gaif y chwarthawr ol nessa i'r ddaiar.

[659]Pa beth bynac a ddangosso dovretwr y brenin i'r tayogav y delont[b] o'e ty, y tayogav brenin biav talv o chollyr, eithyr ev kleddyvev ac ev llodrav. [660]Ac ev meirch[c] wyntav ni cheidw y taiogav namyn y nos, kanis ef a tal o chollir yna. [661]Kwynossawc brenin keiniawc a ddyryδ i'r gwasanaethwyr[d] ir arbet i yscubaur a'i vwyd.

[662]O roddir Kymraes[e] i alldud, i phlant a gaif rran o dref, eithyr essyddyn arbenic. [663]Hwynt agen a gaffant hyd y drydeδ ach. [664]O'r kynyweddi[f] hono y daw gwarthec[g] divach, kanis o byδ llowrvδ y kysswynvab hwnw kenedl i vam a dal holl alanas drosdaw kanid oes genedl tad a'i talo.

[665]xxiij δ a delir yn syrhaed gwenidawc kyflogaeth nid el yn rrau nac en ureuan.[h]

[666]O chyttia gwr gwreigiawc a gwraic arall, taled cxx δ i'r [26ra] wraic[i] k*yfreith*iawl yn i hwynebwerth

[667]Od yscar gwr a'i wraic kyn pen y saith mlyneδ, val hyn y rrenir i dodrefyn y rryngthvnt. [668]Y gwr bie a vo rryntho a'r llawr o'r dillad gwely, a'r wraic biav y teisban. [669]Y gwr bie yr yd, a'r wraic y blawd parawd. [670]Y gwr pie y nithlen, a['r] vrekan a'r gobenyδ tyle, a'r kwlldwr a'r vwiall gynvd a'r llawvwiall a'r krymane oll namyn vn kryman. [671]Y wraic biav y vwiall lydan a'r bal ac vn kryman, a'r perveδ daradyr, a'r gwr biev yr holl dodrefyn ond hynny. [672]Y wraic biev kar yr ychen a'r gwyddi a'r llaethlestri oll namyn vn payol i'r gwr, a'r holl ddysgle namyn vn hevyd i'r gwr. [673]Y wraic biav yr emenyn oll namyn vn llestyr i'r gwr; ac o byδ brevanav ymenyn y gwr biev vn vrevan.[j] [674]A'r wraic biav[k] y kic a vo ar y llawr ac [26rb] yn i heli ac a halen arnaw a heb halen, a'r caws oll a vo yn i heli ac ar y llawr a'r caws a vo heb halen; y gwr biav y kic drychafedic oll a'r caws. [675]Y wraic biav bod yn y ty hyd y nawettyδ yn aros i ran o'r da.

[676]Y wraic a vo marw i gwr ac a ddywetto i bod yn veichioc, hi a ddyly vod yn i thy yni wyper a vo beichiawc. [677]Ac yna oni byδ beichiawc, taled tair buw kamlwrw i'r brenin ac adawed y tir a'r ty i'r ytiveδ. [678]Od a dwy wrageδ ygyd i neb ryw[l] le ac na bo neb y gyd ac

---

[a] + cxx
[b] *MS* dleont
[c] *MS* merich
[d] *MS* gwnaethwyr
[e] m *superscript*
[f] *MS* kyn nyn wedi
[g] *MS* gwartec
[h] *MS* urrauan
[i] wraic] *catchword*
[j] *MS* vreva
[k] *MS* beav
[l] *MS* ruw

wy,[a] a dyvod dav wr yn ev herbyn a bod ganthvnt o'r ddevwr, ni ddywygir vddvnd. [679]O byδ vn dyn gyd ac wynt, er i vychaned, ni chollant ddim o'i hiawn.

[680]O dwc wr wraic yn llathlud a'i hattal y gyd ac ef [26va] hyd[b] ymhen y vijved dyδ heb wneuthur iawn iddi, hyd ymhen y vlwyddyn ni ddyly wneuthur [yawn][c] iddi; yna agen hi a ddyly gwbwl iawn. [681]Gwraic a el yn lladlud yn i haddvedrwydd a'i dwyn o'r gwr i lwyn nev berth nev ty, a'i hymrain a'i hellwng drachefyn, a chwynaw ohonai wrth i chenedl ac yn y dadlav; sef a ddyly yn i diweirdeb: kymryd tarw tri gaiaf ac eilliaw i losgwrn a'i iraw a gwer, ac oddyna grynnyau y llosgwrn drwy ddorglwyd; ac oddyna ayd y wraic o vewn y ty, a doded i thraed wrth y trothav a chymered y lloscwrn yn i dwy law, a rrodder gwr o bob parth i'r tarw i gymell y tarw, a gwialen yn llaw bob vn onaddvnt; ac o gaill i attal, kymered yn i diweirdeb: onis deil, kymered a lyno wrth i dwylo.

[682]Gwraic a ymroddo i hvnan yn llwyn ac ymherth, [a'e hadaw o'r gwr][d] a go[26vb]rdderchu arall ohonaw, a'i dyvod hithe ynghwyn ar y dadlav ac ar i chenedl: os dywad a wna y gwr, tynged i gloch heb davawd. [683]Os diwyn a wna ynte, taled iddi geiniawc[e] kyfled a'i thin.

[684]Abediw gwr rryδ, cxx δ. [685]Abediw gwsnaethwr, cxx δ. [686]Abediw tayawc, vj a lxxx δ. [687]O byδ eglwys ar [i] dir, cxx δ vyδ i abediw. [688]xxiiij δ a dal gwr ystavellawc yn i ebediw. [689]Ystavellawc o wraic, xvj δ.

[690]Y neb a ddywatto i vod wrth anrraith, rrodded lw dengwyr[f] a devgaint.

[691]Pwybynac a gnithio[g] [dyn],[h] taled i syrhaed yn gynta, kanis drycha a gossod yw syrhaed dyn. [692]ij δ ynghyvair i vawd, a j δ ynghyvair pob bys o'r a el yn y pen; a cheiniawc ynghyvair pob blewyn bonwyn a dynner o'i ben, a xxiiij δ ynghyvair y gwallt taldrwch.

[693]Dewissed bawb i syrhaed, wrth i benkenedl ai wrth i dad [27ra] ai wrth i swyδ.[i]

[694]Raceisdeddiad kantref, nid amgen y troydiawc, a rydd kerwyn vragawd i'r brenin bob plwyddyn.

[695]Pan vo marw dyn gorwlad ar dir dyn arall, xvj δ a gaif perchenawc y tir dros i varwdywarchen, a'r ebediw oll i'r arglwydd eithyr hynny.

[696]Pvm nyn[j] nessa eu[k] gwerth a ddywad baych kefyn os holir yn lladrad. [697]Seithnyn nessa ev gwerth a ddywad pwn march os holir yn lladrad.

[698]Pvnt yw kyvarvws gwr arddelw yn y vlwyddyn.

[699]Ni thal penkenedl ebediw, kanis y neb a vo penkenedl wedi ef a'i tal. [700] Ni byδ penkenedl[l] y mab wedi y tad y nessa iddaw, kanis oes vodawc vydd penkenedl. [27rb]

---

[a] *MS* wyf
[b] hyd] *catchword*
[c] *From X*
[d] *From X*
[e] *MS* geiawc
[f] *MS* dengwyyr
[g] *MS* chwithio
[h] *From X*
[i] ai wrth i swyδ] *catchword*
[j] *MS* ynyn
[k] *MS* yw
[l] *MS* penkedl

[701]Val hyn y rrenir ariant gwestvay: ij δ a gaif y distain; iiij δ a gaif y trulliad, neu dudded y gerwyn, a dewis i'r neb a'i talo; ij δ a gymer dresawr y nevadd; vn a gymer y medydd; dwy a gaif y gwas ystavell; vn a ddaw i'r gostegwr; iiij δ a gaif y koc; dwy a gaif swyddawc y llys; vn a gaif morwyn ystavell; vn a gaif distain y vrenhines; vn a gaif y troidiawc; vn a gaif y kanhwyllyth; vn a ddaw i ddrysawr ystavell; vn a ddaw i wastrawd[a] y vrenhines.

[702]Pwybynac a vo[b] mach dros arall, onis tal y talawdr yn oed y dydd, oed xv niwyrnawd a gaif y mach, os ar dda marwol y bydd mach. [703]Onis tal y talawdr yna, oed hyd ymhen y pemthec niwyrnod[c] ar hugaint a gaif y mach. [704]Onis tal y talawdr yna, oed dec diwyrnawd a devgaint a gaif y mach yna. [705]Os ar dda [27va] bywiawl y byδ i mach ac na chaffo[d] y talawdr talv yn oed y dyδ, oed xv niwyrnawd a gaif y mach yna. [706]Ac oni thal y talawdr, oed x niwyrnod a gaif y mach. [707]Oni thal y talawdr yna oed v niwyrnawd a gaif y mach. [708]Oni thal y talawdr yna, taled i hvnan. [709]A phan gyvarffo y talawdr ac ef, ysbeilied o'r a vo o ddillat amdanaw eithyr y pilin nessa iddaw, a gwnaed velly yn wasdad yni gaffo dal i dda i ganthaw.

[710]Ac o byδ marw kynocnyn ac na chaffo dalv i gymvn wrth neb i dda, dyced y mach y vechnieth dros y marw hwnnw, ac yna taled y tair ach nessa iddaw y da. [711]A chyd dyco y mach y vechnieth dros luδ[e] arglwyδ ni thal na dirwy na chamlwrw.

[712]O byδ marw mach dyn [27vb] kyn talv o'r talawdr drosdaw y vechnieth, doed y kynocnyn ar i seithved o'r dynion nessa iddaw vwch ben [bed][f] y mach a thynged i vod yn vach. [713]Oni chaffant wyntav i veδ evo, tyngent vwch allawr gysegredic y vod yn vach, ac velly y kaif. [714]Gorvodawc vn vraint vyδ a'r neb ir aeth drosdaw, ac velly am ddyn a wystler dros arall. [715]Oed gorvodawc i geissio i orvodogayth: vn dyδ a blwyddyn. [716]Ac ni ryddheir hyd hyny o amser, ac ni ddyleir i ovvn am y kam a wnel.

[717]Y neb a addevo dylev da iddo, taled yn ddiohir pan ovyner, eithyr yn y tair gwyl arbenic, [718]o Nos Nadolic wedi gosper hyd Duw Kalan gwedi efferen; ac o Nos Basc wedi datwreyn hyd Duw Pasc Bychan wedi efferen; ac o Nos Sadwrn y Sulgwyn gwedi gosper hyd Duw Sul y Drindawd gwedi efferen. [719]Ni ddyly neb govvn i giliδ yn hyny [28ra] o amser.[g]

[720]Ni ddyly neb gymryd mab yn vach heb genad i dad; [721]nac yscolhaic heb genad i athro; [722]na manach heb genad[h] i abad; [723]nac alldud, ganid gair i air ar Gymro; [724]na gwraic onid dros dyn y meddo hi arglwyddieth arno. [725]A rrai hyn, nid machnieth [eu machnieth].[i]

[726]Tri lle ydd ymddivacha mach gan k*yfraith*: vn onaddvnt, talv o'r talawdyr drosdaw. [727]Ail yw rroddi oed i'r talawdr yn absen y mach. [728]Trydyδ yw dwyn gavel ar y talawdr yn absen

---

[a] *MS* wastrawδ
[b] vo *superscript*
[c] *MS* niwyrno
[d] *MS* chao
[e] *MS* buδ
[f] *From X*
[g] o amser] *catchword*
[h] *MS* gena
[i] *From X*

y mach, ac yna talv tair buw gamlwrw i'r arglwyδ.

[729]Y neb a ddywatto mach, rrodded lw y seithnyn nessa ev gwerth. [730]Oed mach i wybot ai mach ai nid mach, dridiev. [731]Ysbaid mach a baroto i tal, os i hvn y tal y tal, dwy wythnos. [732]Oed mach i geisio oed, tridiav.

[733]Gwerth gaiafdy: xxx a dal y nenbren, xxx a dal pob forch [28rb] a gynhalio e nen; e vinkiav a'e talveinkiav a'r ysdyffylav a'r ddor a'r gynhor a'r gorddrws a dvpya a'r trotheu,[a] iiij δ k*yfraith* a dal pob vn. [734]Y neb a noytho gayafdy, traian i werth a dal. [735]Gwerth kynhaiafdy, xxiiij δ o bydd twll[b] taradr ynddo; oni byδ twll taradr ynddo, xij δ k*yfraith* a dal. [736]Hafdy xij δ a dal. [737]Fforch kynhaiafdy nev hafdy, ij δ k*yfraith* a dal. [738]Dorglwyd, ij δ k*yfraith* a dal. [739]Gwerth tollglwyd[c] j δ k*yfraith*.

[740]Escubawr brenin, cxx a dal. [742]Escubaur bryr, lx δ a dal. [742]Escubawr taiawc brenin, xxx δ. [743]Gwnaed bawb yscubawr yn agored hyd Wyl yr Holl Saint.[d] [744]Oni wnair tair bangor yn y tri lle ar y pared, ni thelir llwgwr yscrubl yn yscubawr o hyny allan.

[745]Odvn biben[e] brenin, cxx a dal o byδ ty. [746]Ty odvn bryr, lx a dal. [747]Ty odvn tayawc brenin xxx a dal. [748]Pob odvn k*yfreith*iawl ar ni [bo] piben[f] arnai, hanerawc vyddant ar y rrai gynt[g] herwyδ [28va] braint ev perchenawc.

[749]Y neb a gynev tan yn odyndy, oni chymer ffyδ gan y llall wedi ef ar yr odvn yngwyδ tystyon ar ddiffoddi y tan nev i vod yn ddigolled, [750]kymwys[h] vyδ y gwall a ddel y rryngthvnt, gan gyd gollant. [751]Llety kynta a losco yn y dref o walldan, y ddav dy gynta a enyno ganthaw a dal. [752]Dav haner vyδ y tal y rrwng y neb a roddo y tan a'r neb a'i kynevo. [753]Y neb a venthikio ty a than ynddo i arall, ac o hwnnw oni chyne dan dair gwaith yn y ty, kwbwl dal a gaif amdanaw o llysc y ty.

[754]Owen sant, _____ pvnt a dal.
[755]Derwen, _____cxx.
[756]Y neb a'i tyllo drwiddi, _____lx δ.
[757]Kaingk vchelwar, _____lx δ.
[758]Pob kaingk arbenic yn y dderwen, _____xxx δ.
[759]Ffawydden, _____lx δ a dal.
[760]Avallen ber, _____lx δ a dal.
[761]Avallen sur, _____xxx δ a dal.
[762]Kollen, _____xv δ a dal.
[763]Ywen goed, _____xv δ a dal. [28vb]
[764]Draynen, _____vij δ a dime a dal.
[765]Pob pren wedi hyny, _____iiij δ.

---

[a] u *superscript*
[b] twll *underlined*
[c] *MS* coll gwyd
[d] *MS* holsaint
[e] *MS* ben
[f] *MS* pen
[g] *MS* gyn
[h] *MS* keniwo

[766]Y neb a laddo derwen ar forδ y brenin, taled tair buw camlwrw i'r brenin, ac wedi hynny kuddied y dderwen ac arloysed fforδ y brenin; a phan el y brenin heibiaw, kuddiet bon y pren a brethyn vnlliw. [767]O digwydd pren ar draws avon a thynv maglav ar y pren, perchenoc y tir y bo bon y pren arnaw a ddyly dyvod i'r pren, pa dv bynac y trosso yr avon bon y pren.

[768]Kleddav i bo aur nev ariant arno, _____ xxiiij δ a dal.
[769]Tarian lasar, _____ xxiiij δ.
[770]Kleddev heb aur heb ariant, _____ xxiiij δ.
[771]Tarian lyw y pren, _____ xij δ.
[772]Gwaiw, _____ iiij δ.
[773]Bwiall ynillec, _____ ij k*yfraith*.
[774]Kyllell, _____ [j δ].[a]
[775]Talgell,[b]
Krenoc,
Fallt,[c]
} xxx δ a dal pob vn onaddvnt [29ra]
[776]Bwa[d] a xij saeth, _____ iiij δ k*yfraith*.
[777]Payol helic, _____ ij δ k*yfraith*.
[778]Paiol gwyn, _____ j δ k*yfraith*.
[779]Hesgyn helic, _____ k*einiawc*.
[780]Rraw haiarn, _____ k*einiawc*.
[781]Kaib, _____ ij δ k*yfraith*.
[782]Neddyf, _____ k*einiawc*.
[783]Rrascyl, _____ dime.
[784]Kroper, _____ dime.
[785]Trwyddew, _____ dime.
[786]Main melin, _____ xxiiij δ.
[787]Brevan, _____ iiij δ.
[788]Telyn y brenin,
a'i vrekan,
a'i dawlbwrδ,
} cxx δ a dal pob vn.
[789]Telyn penkerδ, _____ cxx δ a dal.
[790]J chyweirgorn, _____ xxiiij δ a dal.
[791]Telyn bryr, _____ lx δ a dal.
[792]I chyweirgorn, _____ xij δ a dal.
[793]Brekan bryr, _____ lx δ a dal.
[794]Gobenyδ tyle, _____ xx δ a dal.
[795]Tawlbwrδ ascwrn morvil, _____ lx a dal.
[796]Tawlbwrdd ascwrn arall, _____ xxx δ a dal.
[797]Tawlbwrdd o van eidion,[e] _____ xij δ a dal.

---

[a] *From X*
[b] *MS* Tallgoll
[c] *MS* Sallt
[d] bwa] *catchword*
[e] *MS* eiddion

[798]Tawlbwrδ bren, iiij δ.
[799]Bwiall lydan, iiij δ k*yfraith*. [29rb]
[800]Bwiall gynvd, ij δ k*yfraith*.
[801]Llaw vwiell, j δ k*yfraith*.
[802]Taradr mawr, ij δ k*yfraith*.
[803]Perveδ daradyr, j δ k*yfraith*.
[804]Ebill, dime[a]
[805]Kwlldwr, iiij δ k*yfraith*.
[806]Swch, ij δ k*yfraith*.
[807]Gylyf,[b] j δ k*yfraith*.
[808]Kaib, j δ k*yfraith*.
[809]Pal, j δ cwtta.
[810]Kryman, j δ k*yfraith*.
[811]Gwellav, j δ k*yfraith*.
[812]Krib, j δ k*yfraith*.
[813]Kabolvaen, dime.
[814]Payol yw, iiij δ k*yfraith*.
[815]Hesgyn yw, ij δ k*yfraith*.[c]
[816]Kanwyr, k*einiawg*.
[817]Seir, dime.
[818]Klo haiarn, k*einiawg*.
[819]Klo pren, dime.
[820]Ffiol ddwfr, ffyrddling.
[821]Chwynogl, ffyr*ddling*.
[822]Sayth, ffyr*ddling*.
[823]Turnen, ffyr*ddling*.
[824]Gwerthud, ffyr*ddling*.
[825]Kyngladur, ffyr*ddling*.
[826]Ysdyllawd dirwyn, ffyr*ddling*. [29va]
[827]Ffust, fyr*ddling*.
[828]Krevenllin, fyr*ddling*.
[829]Orddwyn, fyr*ddling*.
[830]Spodol, fyr*ddling*.
[831]Kawc pren, fyr*ddling*.
[832]Fforch, fyr*ddling*.
[833]Kribin, fyr*ddling*.
[834]Yscub geirch[d] fyr*ddling*.
[835]Dull llin, fyr*ddling*.
[836]Kyw iar, fyr*ddling*.
[837]Bvrwy, fyr*ddling*.

---

[a] *MS* dime er dime
[b] *MS* Kylyf
[c] *A gap of approx. 3 lines is left here*
[d] *MS* geir

[838]Llywiadur, _____ fyr*ddling*.
[839]Lliugroen, _____ fyr*ddling*.
[840]Drych, _____ fyr*ddling*.
[841]Rescen, _____ fyr*ddling*.
[842]Gevel bren,[a] _____ fyr*ddling*.
[843]Hval bren, _____ fyr*ddling*.
[844]Mayl, _____ fyr*ddling*.
[845]Kist, _____ damdwng.
[846]Evydden, _____ dam*dwng*.
[847]Trybeδ, _____ dam*dwng*.
[848]Gradell, _____ dam*dwng*.
[849]Ysgraff a'i ferthyn,[b] _____ dam*dwng*.
[850]Tvnnell, _____ dam*dwng*.
[851]Morthwyl, _____ dam*dwng*.
[852]Bithiad,[c] _____ dam*dwng*.
[853]Eidion gwedi ymydawo a'i ddelediwrwydd,[d] _____ dam*dwng*.
[854]Ysden bridd, _____ dam*dwng*. [29vb]
[855]Kostrel, _____ dam*dwng*.
[856]Lluric, _____ dam*dwng*.
[857]Penffesdin,[e] _____ dam*dwng*.
[858]Helym, _____ dam*dwng*.
[859]Prychwyn, _____ dam*dwng*.
[860]Gwregis evraid nev arianaid hevyd, _____ dam*dwng*.
[861]Modrwy, _____ dam*dwng*.
[862]Breichrui,[f] _____ dam*dwng*.
[863]Kic ddescyl, _____ ij δ k*yfraith*.
[864]Descyl arall, _____ j δ k*yfraith*.
[865]Gogyr, _____ j k*einiawg*.
[866]Hidyl, _____ j δ k*yfraith*.
[867]Noe, _____ dime.
[868]Klawr pobi, _____ dime.
[869]Rraf vlew ddevddec kyvelin, _____ ij δ k*yfraith*.
[870]Rraff lwyf ddevddec kyvelin, _____ v[g] δ k*yfraith*.
[871]Torch milgi brenin, _____ viij δ k*yfraith*.
[872]Torch milgi gwrda, _____ viij δ k*yfraith*.
[873]Kynllyvan milgi brenin, _____ iiij δ k*yfraith*.
[874]Kynllyvan milgi gwrda, _____ ij δ.
[875]Kynllyvan olread, _____ viij δ k*yfraith*.

---

[a] *MS* bre
[b] *MS* fertyn
[c] *A letter or mark before the word*
[d] *MS* ddeldiwrwydd
[e] *MS* Penffedin
[f] *MS* Breichui
[g] j *would be expected, but here it appears to be a* 6

[876]Tom ty, iiij δ.
[877]Kawell teilo, k*einiawg*.
[878]Berva, k*einiawg*. [30ra]
[879]Honffest,[a] xxiiij δ.
[880]Gevyn, iiij δ k*yfraith*.
[881]Gleisiadec, xxiiij δ.
[882]Penllwydec, xvj δ.
[883]Gaflawec, viij δ.
[884]Ballegrwyd, iiij δ.
[885]Gleisiat, ij δ k*yfraith*.
[886]Karr, ij δ.
[887]Ystrodur, j δ k*yfraith*.
[888]Ystol, ij δ k*yfraith*.
[889]Breki kafyn, ij δ k*yfraith*.
[890]Prenial gwehyddes, xxiiij δ.
[891]Y peithynav a'r kloriane, viij δ.
[892]Y carvanav a'r troyllav, a'r troedlassav, viij δ.
[893]Offer gof, cxx δ.
[894]Einiawn vawr, lx δ.
[895]Einiawn gyriawg,[b] xij δ.
[896]Megin, viij δ.
[897]Gevel gof, iiij δ.
[898]Ordd, iiij δ.
[899]Kethrawl, iiij δ.
[900]Kwynssyll, iiij δ k*yfraith*.
[901]Troreid,[c] iiij δ k*yfraith*.
[902]Karnllif, iiij δ.
[903]Haiarnllif, iiij δ. [30rb]
[904]Brevanllif, iiij δ k*yfraith*.
[905]Brevandy, pvnt.
[906]Ar bob mayn iddaw, lx δ.
[907]Ar i heirn, lx δ.
[908]Ar i wydd, xxx δ.
[909]Ar y ty, xxx δ.
[910]Ar bob vn o'i main, ij δ k*yfraith*.
[911]Ar y kelvyδ, j δ k*yfraith*.
[912]Ar i vrevanvuth,[d] iiij δ k*yfraith*.
[913]Kleddyf o bydd brevlyf,[e] xij δ.
[914]O byδ gwrymssaid, xvj δ.

---

[a] honffest] *catchword*
[b] *MS* gyriaw
[c] *MS* Troceid
[d] *MS* wrevan vut
[e] *MS* brevlyd

[915]O byδ gwynssaid,[a] _____ xxiiij δ.
[916]Tarian, _____ viij δ.
[917]O byδ kalch lasar nev evrgalch, _____ xxiiij δ.
[918]Kyfrwy, _____ viij δ k*yfraith*.
[919]Ffrwyn evraid, _____ viij δ.
[920]Ffrwyne eraill, ystainiaid a dulys, ac evyddiaid, _____ iiij δ.
[921]Ffrwyne arianaid, _____ vj δ k*yfraith*.
[922]Ysbardune evraid, _____ iiij δ.
[923]Ysbardvne arianaid, _____ ij δ kyfraith.
[924]Ysbardune eraill evyddiaid ac stainiaid a dvlys, _____ j δ k*yfraith*. [30va]
[925]Rrai a ant wrth vraint y kyfrwy y ddwy warthavyl; eraill a a gwerth k*yfraith* arnaddvnt,[b] yw hynny _____ viij δ.
[926]O byddant arianait, _____ j δ.
[927]O byddan ystainiaid nev evyddiaid nev ddulys, _____ iiij δ k*yfraith*.
[928]Brongengyl vn gerdded a gwarthavyl yw.
[929]E due kengyl, _____ ij δ k*yfraith*.
[930]Svder, _____ iiij δ k*yfraith*.
[931]Panel kynghvgyl, _____ j δ k*yfraith*.
[932]Panel lliain, _____ ij δ k*yfraith*.
[933]Kanwyl, _____ j δ k*yfraith*.
[934]Hossanav mawr, _____ viij δ k*yfraith*.
[935]Hyssyaws,[c] _____ vj δ k*yfraith*.
[936]Dwy ystywaws,[d] _____ iiij δ k*yfraith*.
[937]Botyssav kynhyglawc, _____ iiij δ k*yfraith*.
[938]Yscidie kareiawc, _____ ij δ k*yfraith*.
[939]Yscidie, _____ j δ k*yfraith*.
[940]Gwregis, _____ j δ k*yfraith*.
[941]Kyllell glvn, _____ j δ k*yfraith*.
[942]Kyllell gell, _____ j δ k*yfraith*.
[943]Honsex, _____ ij δ k*yfraith*.
[944]Agalen gwregis, _____ j δ k*yfraith*.
[945]Rrwyll, _____ j δ k*yfraith*.
[946]Gwregis llawdyr, _____ j δ k*yfraith*. [30vb]
[947]Dreva amyd, _____ viij δ k*yfraith*.
[948]Dreva geirch, _____ iiij δ k*yfraith*.
[949]Dwyglwyd buarth, _____ j δ.
[950]Hual haiarn, _____ j δ k*yfraith*.
[951]Kogail,[e] _____ fyrddling.
[952]Hestawr,[f] _____ ffyr*ddling*.

---

[a] *MS* gwyssaid
[b] *MS* anaddvnt
[c] *MS* Hyssyawl
[d] *MS* ystywawl
[e] *MS* kogoil
[f] *MS* hesbawr

[953]Korn kanv y brenin, ij δ k*yfraith*.
[954]Rrai a ddywaid am ddillat pan yw damdwng y sydd amdanvnt; eraill a ddywaid pan yw y dvll hwn y syδ amdanvnt, nid amgen:
[955]Mantell gwrym, xxiiij δ.
[956]Pob tuddedyn Seisnic, xxiiij δ.
[957]Krys a llawdyr, xxiiij δ.
[958]Kynghvgyl, damdwng.
[959]Teisban, viij δ k*yfraith*.
[960]Llenlliain, viij δ k*yfraith*.
[961]Penlliain, viij δ k*yfraith*.
[962]Ffvnen, iiij δ k*yfraith*.
[963]Pengiwch, j δ k*yfraith*.
[964]Hesgyn brenin, pvnt k*yfraith*.
[965]Hysgyn y vrenhines, pvnt k*yfraith*.
[966]O bydd hesgin yn eiddo[a] vchelwr, cxx δ k*yfraith*.
[967]Os y wraic bieyvyδ, cxx δ.
[968]Rwch mab aillt, lx δ k*yfraith*. [31ra]
[969]Rwch[b] y wraic, lx δ k*yfraith*.
[970]Rwch taiawc nev y wraic, xxx δ.
[971]Klustoc, iiij δ.
[972]Kevair gaiaf, ij δ.
[973]Kevair gwanwyn, j δ.
[974]Penffest aradyr, j δ k*yfraith*.
[975]Olwynav, j δ k*yfraith*.
[976]Probwyllev a racarnaud, j δ k*yfraith*.
[977]Pob yav a ffysdylav, j δ k*yfraith*.
[978]Pysdyl, ffyr*ddling*.
[979]Rraff pren, j δ k*yfraith*.
[980]Jrai, kenioc kwtta.
[981]Oc, j δ.
[982]Draenglwyd, j δ.
[983]Pob peth arall yn y byd o'r ni bo gwerth kyfraith arnaw, damdwng a vydd amdanaw. [31rb]

[984]Pwybynac a ddotto rrwyd yn avon ar dir arall heb genad, traian y pyscod a gaif ef, a'r devparth a gaif perchenawc yr avon.

[985]Y neb a dorro aratr dyn arall, taled iddaw aratr newyδ, ac arddadwy[c] naw niwyrnawd. [986]Gwerth arddadwy, ij δ k*yfraith*.

[987]Val hyn y dyly lloc ar ddyvod. [988]Lloc yr ameth yn gynta, oddyna lloc y swch a'r kwlldwr wedi hyny. [989]Oddyna lloc yr ychen gore yn yr aradr. [990]Oddyna lloc y geilwad. [991]Oddyna yr ychen gore o ore i ore.

---

[a] *MS* eidd

[b] rwch] *catchword*

[c] *MS* a arddawy

[992]Pob gwystyl a ddigwydd ymhen y nawettyδ eithyr hyn. [993]Arve eglwys ni ddyleir i gwystlo vyth, a chyd gwystler ni ddigwyddant vyth. [994]Kwlldwr a swch a[a] bwiall gynvd kyd gwystler [ny digwydant byth].[b] [995]Oed vn dyδ a blwyddyn y syδ agen i[c] avr a llvrygav a llestri[d] gore[31va]vraid pan wystler.

[996]Kyfraith benthic yw dyvod val y roddo. [997]Y neb a'i benthykio kymered tystion rrac myned yn i erbyn. [998]Od air yn i erbyn a goddiwes o'r perchenawc, taled yn ddavddyblic. [999]Y neb a addawo[e] da i arall, a'i ddywad pan ddeler o'i ovvn a['i] law ar y krair, ef a ddyly i ddywad kyfraith anvdon arnaw, os yn gyhoyddawc y twng, nid amgen tair buw kamlwrw i'r arglwydd. [1000]A chymered ynte i benyd am i anvdon; ac os tystion a vyδ gan y llall, i dda a gaif.

[1001]Klais a driko dri nawettydd, vn ddiwyn yw a gwaed, ac vn ddywad. [1002]Os ar ddywad y byδ, rodded i lw ar i drydydd o wyr vn vraint yn y nawettydd kyntaf. [1003]Os yn yr ail nawettyδ y tric, rodded i lw ar y bedweryδ o wyr vn vraint ac ef. [1004]O thric y trydyδ nawettyδ, rodded i lw [31vb] ar i bymed o wyr vn vraint. [1005]Ac velly y dywedir gwayd.

[1006]Vn anivail a a o iiij δ k*yfraith* i pvnt, gellgi. [1007]Os taiawc bieivydd, iiij δ k*yfraith* yw i werth. [1008]Ac o roddir i'r brenin, pvnt a dal. [1009]Amws yn pori allan, a milgi heb i[f] dorch, kolli y'w braint a wnant.

[1010]Vn dyn a ddiangk o ladrad kyvadde kic a chroen ar i gefn: alldud anghenawc[g] diadlam a vo dri diav a thair nos heb[h] i wesdva heb gardawd a chyrwydraw tair tref ohonaw bevnvδ, a naw ty ymhob tref, ac yna rrac newyn gwneuthur lladrad a'i ddal ar i gefyn a chic a chroen, i ellwng a ddyly yn rryδ heb werth heb groc. [1011]Vn[i] dyn ni ddyly i dy vod yn varwdy kyd boed marw heb gymvn: ynad llys. [32ra]

[1012]Oerbwnk[j] galanas yw pan laddo dyn arall, a dodi oed i ddiwyn y gyflavan hono, a'i ladd ynte o genedl arall ni ddyleo ddim iddaw, kyn diwyn y gyflavan hono. [1013]Sef i gelwir yn oerbwnk galanas y gyflavan hono, rrac trymed i golli a thalv y gyflavan hono a wnaeth gynt.

[1014]Y neb a dalo galanas, o bydd i genedl oll yn vn wlad ac ef, kwbwl dal a delir erbyn pen y pythefnos. [1015]O byδ i genedl yn wasgarawc yn y gwladoeδ eraill llawer, oed bythefnos a gaif ynghyvair pob gwlad. [1016]Val hyn i deleir gwasgarv galanas. [1017]Pvnt yw rran brawd. [1018]cxx δ rran kefynderw. [1019]lx δ rran kyfyrderw. [1020]xxx δ rran keivyn. [1021]xv δ rran gorcheivyn. [1022]Saith a dime rran gorchafyn. [1023]Tair a dime a ffyrddling rran nai vab gorchafyn. [32rb] [1024]Nid oes briawd ran briawd ach bellach no hynny. [1025]Rran tad o alanas i vab yw keiniawc. [1026]Vn k*yfraith* yw yni gymer gyrenydd ac y dywetter. [1027]Rrac colli k*yfraith* kyrenyδ yni ddywatter kyrenyδ, keiniawc baladr. [1028]Ni thal kenedl syrhaed i kar i neb tra vo dim ar i helw i hvn. [1029]O diffic hevyd i dda ef, iawn yw rranv gwerth y syrhaed hono

---

[a] *MS* a a

[b] *From X*

[c] *MS* vdd6nt agen

[d] *MS* lledri

[e] *MS* ddawo

[f] i] *in smaller writing, pushed in*

[g] *MS* anghanwc

[h] *MS* heb heb

[i] *MS* Y Vn

[j] oer] *catchword*

hyd y drydeδ ach.

[1030]O'r pymed dyδ kyn Gwyl Vihangel y dyly brenin gwarchad i goed, hyd y pymthecved dyδ wedi yr Ystwyll. [1031]Moch a gaffer yn y coed, y decved llwdwn a gaiff y brenin hyd ymhen y nawettyδ; oddyna allan ywyllys y brenin amdanvnt.

[1032]O syrheir y rringill yn i eiste yn y dadle, taler iddaw [32va] gograid eisin. [1033]Y brenin biav o anrraith[a] gre a geivyr a dillad [amarwyavc][b] ac arian ac arvav y karcharorion, heb i traianv a neb. [1034]Ni ddyly ynte traian y kessic tom. [1035]Y neb a ddywetto yn syberw nev yn hagerw yn erbyn brenin, taled tair buw kamlwrw yn ddavddyblic; ac ni thelir i neb gweli tavawd namyn i vrenin.

[1036]Wyth penvarch brenin yw mor, a diffaith brenin, ynghanawc diadlam, lleidyr, marwdy, ebediw, dirwy, a chamlwrw.

[1037]Pan gymero taiawc dir i gan vrenin, lx a ddyry o bob rrandir. [1038]O byδ eglwys ar dir y dayawcdref, cxx δ a daw i'r brenin i gan y neb a'i kymero. [1039]Kayth a roddo y brenin dir iddaw, dec a phedwar vgaint yw i ebediw, a'r traian a ddaw i'r mayr a'r kynghellawr. [32vb]

[1040]Lledvegin gwraic bryr, haner pvnt a dal. [1041]Lledvegin gwraic tayawc nev i verch, keiniawc kwtta yw i werth, gan ni ddylant hwy ledvegin.

[1042]Gwerth rracddaint dyn yw xxiiij δ gan dri drychavel. [1043]Gwerth kilddaint yw xxx δ. [1044]Gwerth dant amws yw xxiiij δ. [1045]Gwerth dant palfray, xij δ. [1046]Gwerth dant eidion nev varch tom, iiij δ k*yfraith*. [1047]Gwerth dant davad nev avyr, j δ k*yfraith*.

[1048]Tri dygyngoll kenedl: [1049]kynta onaddvnt yw mab heb ddwyn heb ddywad, a llaδ o hwnnw gwr o genedl arall; talv a ddyleir yr alanas honno ac[c] oddyna i ddywad ynte rrac gwneuthur yr ail gyflavan ohonaw. [33ra] [1050]Yr ail[d] yw talv galanas oll eithyr keiniawc a bod godor am hynny, a llaδ o'r genedl am y godor hwnw: ni byδ dial amdanaw. [1051]Trydyδ yw pan enllibier gwirion am gelain a'i holi ynte, ac nas dywatto yn oed k*yfraith*; er lladd y dyn o'r genedl ni thelir amdanaw.[e]

[1052]Tri oed k*yfraith* i ddial kelain: [1053]rrwng dwy wlad, enynv hawl y dyδ kynta[f] wedi lladder y y gelain o'r kysevyn wythnos, ac erbyn pen y pythefnos oni ddaw i atteb rryddhav i ddial. [1054]Ail yw o byddant y ddwy genedl yn vn kantref, enynv hawl y trydydd dyδ wedi lladder y gelain, ac oni ddaw i attep kyn pen y nawet dyδ, k*yfraith* yw i ddial. [1055]Trydyδ yw os yn vn kymwd y bydd y ddwy ge[33rb]nedl, enynv hawl yr ail dyδ wedi lladder y gelain, ac oni ddaw i attep yr wythved dyδ, k*yfraith* yw rryddhav i ddial.

[1056]Tair rrwyd brenin: [1057]i devlv, ac nid oes diwyn am y rrwyd hono, namyn trugareδ y brenin. [1058]Ail yw i re: o bob march a ddalier arnai, _____iiij δ. [1059]Trydyδ yw gwarthec i vayrdy:[g] o bob eidion a gaffer arnvnt, _____iiij δ k*yfraith* a gaif ef.

[1060]Tair rrwyd bryr: i re a gwarthec i vayrdy a['i] voch; o cheffir enivel yn ev plith, iiij δ k*yfraith* a gaif o bob vn onaddvnt.

[1061]Tair rrwyd taiawc: i warthec a'i voch a'i hendref. [1062]O Galan Mai oni ddarffo Medi, iiij

---

[a] *MS* oe amarch

[b] *From X*

[c] *MS* a

[d] yr ail] *catchword*

[e] *MS* amdana

[f] t *superscript*

[g] ai voch] *deleted and underlined in ms.*

δ kwtta a gaif o bob anivail a gaffo arnvnt; a hyny yw pedair keiniawc k*yfraith* mynac. [33va]

[1063]Tair dirwy brenin: dirwy ymlaδ kyfadde, a dirwy ladrad anolaith, a dirwy drais. [1064]Diwyn dirwy drais, gwialen ariant a gyrhayddo o'r ddaiar hyd jad y brenin pan eisteddo yn i gadair a gyn vrassed a'i hirvys a thair ban ar bob pen i'r wialen kyn vrassed bob vn[a] a'r wialen,[b] a ffiol avr y bo llawn ddiawd y brenin ynddi, kyn dewed ac ewin ameth ar a amhaytha saith mlyneδ kyn no hyny, a chlawr avr kyfled a chyn dewed a'r ffiol. [1065]Diwyn dirwy ymlaδ yw xij mvw nev dair pvnt. [1066]Diwyn dirwy ladrad, kessvynaw y lladrad ar dyn a'i ddiwad ohonaw yn dda ar i davawd a gossod rraith arnaw a'i ffallv: lleidr kyfadde gan ballv i rraith, gwirion o'i ben i hvnan ni ddelid dim yn i law ni chad dim ganthaw: xij mvw dirwy a a arnaw.

[1067]Tri anhepcor brenin yw [33vb] i ynad llys, a'i veddic tevlv, a'i[c] effeiriad teulv.

[1068]Tri pheth ni chyfran brenin: avrgrawn a lleidir ac ehebawc.

[1069]Tri phedwar y sydd. [1070]Pedwar achaws yr ymchwelir brawd: ofyn gwyr kedyrn, a chas galon,[d] a chariad kyveillon, a serch da. [1071]Yr ail pedwar yw pedair tarian a a rrwng dyn a'i raith gwlad rrac hawl ladrad: [1072]vn onaddvnt yw kadw gwestai yn k*yfreithi*awl, nid amgen o bryd gorchyvarwy hyd y bore dranoeth, a dodi i law drosdaw dair gwaith yn y nos, a thyngv hynny ohonaw a dynion y ty ganthaw. [1073]Ail[e] tarian yw geni a meithring a thyngv o'r perchenawc a dav o wyr vn vraint ac ef gwybot i eni a gweled i veithrin ar helw y dyn heb vyned dair nos i wrthaw. [34ra] [1074]Pedweryδ[f] yw gwarant. [1075][Trydydd yw] kadw[g] kyn koll, a gwnevthur o'r dyn a dev wr vn vraint ac ef kyn kolli o'r llall y da irioed i vod ar i helw ef. [1076]Nid oes warant namyn hyd y drydedd law, a gwneuthur o'r dryδeδ law kadw kyn koll; a hynny a differ dyn rac hawl ladrad. [1077]Trydyδ pedwar yw pedwar dyn nid oes nawδ vddvnt nac yn llan nac yn llys. [1078]Vn onaddvnt dyn a dorro nawδ brenin yn y llys yn vn o'r tair gwyl arbenic. [1079]Ail yw dyn a wystler o'i voδ i'r brenin. [1080]Trydyδ yw cwynossawc[h] brenin, y neb a ddyleo i borthi y nos hono ac a'i gatto heb vwyd. [1081]Pedwerydd yw kayth. [34rb]

[1082]Tair kyflavan o'r a wnel dyn yn i wlad i hvn y dyly dyn kolli tref i dad: lladd i arglwyδ, a lladd i benkenedl, a lladd teispantyle; rrac trymed y kyflafanav, a*m* hynny y[i] ddyly yntav kolli treff i dad.

[1083]Tri thawedawc gorsedd: arglwydd ac ynad a mach; arglwydd gwyr yn gwrandaw ar wyrda yn barnv k*yfreithi*av, ac ynad yn gwrando hawl ac ateb, a mach yn gwrandaw ar y talawdyr yn atteb.

[1084]Tair gwanas k*yfreithi*awl y syδ i wayw yn y dadlav: gwan i arllost yn y ddayar a'i vn llaw val y bo a braidd a'i ddwy law i dynv; [1085]a gwan y pen mewn twyn yni guddio i vwn; [1086]a'i ddodi ar lwyn a vo kyviwch a gwr. [1087]Ac oni byδ ar vn o'r tair gwanas hynny a myned y

---

[a] vn *superscript*

[b] *MS* wilen

[c] *MS* ai i

[d] *MS* calon

[e] *MS* Trydydd

[f] pedweryδ] *catchword*

[g] *MS* Radw

[h] *MS* onynossawc

[i] y *written over* a

dyn arnaw mal y bo marw, [34va] traian yr alanas a a ar perchenawc y gwaiw.
[1088]Tri over ymadrawδ a ddywedir ynadlav ac ni ffynant: gwad kyn dedvryd, a llys kyn dedvryd, a chynghevsedd wedi brawd.
[1089]Tri over laeth y sydd: llaeth kath a llaeth kassec, a llaeth gast; ni ddiwygid yr vn onaddvnt.
[1090]Tair syrhaed ni ddiwygir o cheffir drwy vedddawd: syrhaed y'r effeiriad tevlv a'r ynad llys a'r meddic tevlv, kani ddyly yr vn o'r rrai hyny vod yn veddw vyth kani wddant na bo rraid i'r brenin wrthvnt.
[1091]Tair palwawd ni ddiwygir: vn arglwyδ ar i wr, yn i reoli[a] mewn dyδ kad ac ymladd; ac vn tad ar i vab ir i gospi; ac vn penkenedl ar i gar ir i gynghori.
[1092]Tair gwrageδ ni ddadle[34vb]vir ac ev hytiveδ am dref ev mam. [1093]Gwraic a rodder yngwystyl dros dir a chaffel mab o hono tra vo yngwystyl. [1094]A gwraic a roddo kenedl i alldud. [1095]A mab gwraic a ddialo gwr o genedl i vam a cholli tref i dad o'r kyflavan hono, ac wrth hyny na ddyleir dadle[b] ac ef am dir i vam.
[1096]Tair syrhaed gwraic, vn a ddyrchaif, ac vn a istwng, ac vn y sydd syrhaed gwbwl. [1097]Nid amgen no rroddi kussan iddi o'i hanvoδ, y traian y sydd eisie o'r syrhaed hono. [1098]Yr ail yw i phalvv[c] o'i hanvoδ, a hono sydd syrhaed gwbwl. [1099]Trydeδ syrhaed yw bod genthi o'i hanvoδ, a hono a ddyrchaif, nid amgen no'r traian. [1100]Ac os gwraic vyδ hono, herwydd [35ra] braint[d] y gwr iddi[e] i telir.[f] [1101]Os gweddw vyδ, herwyδ braint i that i telir iddi.
[1102]Tri chywiliδ kenedl, ac o achaws gwraic y maynt ill tri. [1103]Vn yw onaddvnt, lladdlvdaw gwraic o'i hanvodd. [1104]Ail yw dwyn o'i gwr wraic arall am i phen o'i hanvoδ a'i gyrv hithe allan. [1105]Trydyδ yw i hysbeiliaw a bod yn drech ganthaw i hysbail no bot genthi.
[1106]Tri chadarn enllib gwraic: [1107]vn onaddvnt gweled gwr a gwraic yn dyvod, vn o bob parth i'r llwyn. [1108]Ail yw onaddvnt i kaffel dan vn vantell. [1109]Trydyδ[g] yw kaffel gwr rrwng dav vorddwyd gwraic.
[1110]Tri chyffro dial ynt: diasbedain karessav; a gweled gelor ev kar yn mened i'r llan; trydeδ yw [35rb] gweled beδ ev car yn y vynwent yn newydd heb ddiwyn.
[1111]Tair fforδ y llyssir tystion: vn onaddvnt am dyngv anvdon kohoyddawc am ladrad; ail yw galanas heb ddiwyn; trydydd[h] yw gwreicdra.
[1112]Tri pheth ni chyngain hawl ladrad arnvnt kyd holer yn lladrad: adeilad, a diosc koed ac eredic.
[1113]Tri mab yn dri broder vn vam vn dad ni ddylant gyfran o dref ev tad gan ev brawd vn vam vn dad. [1114]Vn onaddvnt mab llwyn a pherth, ac wedi kael y mab hwnw kymryd y wraic hono o roδ kenedl a chwedi hynny caffel mab, ni ddyly hwnnw gyfran tir a'r mab a ga[35va]ffad[i] kyn noc ef yn llwyn ac ymherth. [1115]Ail yw kymryd gwraic o yscolhaic o roδ

[a] *MS* roli
[b] *MS* dalef
[c] *MS* b phal66
[d] braint] *catchword*
[e] *MS* eiddi
[f] *MS* teler
[g] *MS* tryδ
[h] *MS* tryddd
[i] ffer] *catchword*

kenedl a chaffel mab ohonai ac oddyna kymryd[a] vrdde effeiriadeth, ac ef yn effeiriad kaffel mab, ni ddyly y mab a gad kyn yr vrdde gyfran tir a'r mab a gad gwedi yr vrdde. [1116r]Trydyδ yw mvd, kani ddyly dir yni attepo ac na roddir gwlad i vvd.
[1117r]Tri dyn a gynydd ev braint yn vn dyδ. [1118r]Taiawc o dref y kyssegrer eglwys ynddi[b] gan genad y brenin, dyn o'r dref y dydd hwnnw a vo y bore yn daiawc a'r nos hono yn wr rryδ.
[1119]Ail yw dyn a roddo brenin vn o bedair swydd ar hugain brenhinawl iddaw. [35vb]
[1120r]Trydyδ yw yscolhaic y dyδ y kaffo gorvn, y bore yn[c] daiawc a'r nos honno yn wr rryδ.
[1121r]Tri gwerth k*yfraith* beichiogi: y gwaed[d] kyn delwad, xlviij δ a dal. [1122]Ail yw kyn dyvod enaid ynddo, o chollir o grevlonder traian i alanas a delir amdanaw. [1123r]Trydyδ yw gwedi del enaid ynddo, talv kwbwl o'r alanas o chollir o grevlonder.
[1124]O dair fforδ y dygir mab ac y dywedir. [1125]Vn onaddvnt yw gwraic lwyn a pherth, o byδ beichiawc, pan vo ar i llawn vaich dyged y periglawr attai, a thynged yngwyδ y periglawr,[e] 'Esgor neydyr[f] imi y beichiogi hwnn os krews tad gan vam eithyr y gwr y dygaf [36ra] iddo[g] yr awr hon', ac velly kyf*reithi*awl i dwc. [1126]Ail yw penkenedl a saith law cenedl ganthaw a'i dwc. [1127r]Trydyδ yw, oni bydd penkenedl, llw dengwyr a devgaint a'i dwc.
[1128]Val hyn y dywedir mab o genedl: [1129]kymrvd y mab o'r gwr a dywetter i vod yn vab iddo a'i ddodi y rryngtho a'r allawr,[h] a doded y llaw assw ar ben y mab a'r llaw ddehav ar yr allawr a'r kreiriav; a thynged nas crews ef gan vam y mab hwnnw, ac nad oes dafyn o'i waed ynddaw. [1130]Ac oni byδ byw y tad, i benkenedl biav i ddywad a saith law kenedl ganthaw. [1131]Ac oni byδ pen[36rb]kenedl, llw dengwyr a devgaint a'i dywad.
[1132r]Tair gormes doeth: meδdawd a godineb a dryganian.
[1133r]Tri dyn a ddyly tavodiawc drostvnd: gwraic, ac anghyviaith ac alldud, a chryc anianawl.
[1134]Vn dyn biav dewis i davawd: arglwydd.
[1135r]Tri llwdwn digyfraith ev gwaith y syδ ar aniveiliaid mvd: ystalwyn, a tharw trefgorδ, a baeδ kenfaint.[i]
[1136r]Tri llwdwn nid oes werth k*yfraith* arnaddvnt: knyw hwch a bytheiad a charlwng.
[1137r]Tri gwaed digyfraith syδ: gwaed pen dyn krach, a gwaed daint, a gwaed trwyn.
[1138r]Tri than ni ddywygir: tan goddaith Mawrth hyd ha[36va]ner[j] Ebryll, a than ennaint[k] trefgorδ, a than gevail trefgorδ a vo naw kam i wrth y dref a tho banadl arnai nev do tywyrch.
[1139r]Tri edyn a ddyly brenin ev gwerth pa le bynnac y lladder: ehebawc a gwalch a chygfran.[l]
[1140]Perchenawc y tir y lladder arnaw a ddyly l δ gan y neb a'i lladdo.
[1141r]Tri ffryf a ddyly brenin ev gwerth: llostlydan a belev a charlwng, kanis ohonvnt y dyleir gwnevthur amryw ddillad i vrenin.

---

[a] *MS* kyryd
[b] *MS* yn
[c] *MS* y
[d] *MS* gwed
[e] e *superscript*
[f] *MS* neyddyr
[g] iddo] *catchword*
[h] *MS* llawr
[i] *MS* kefnaint
[j] ner] *catchword*
[k] *MS* enanaint
[l] *MS* chyfran

[1142]Tri pheth ni ad[a] k*yfraith* ev damdwng: blawd a gwenyn ac ariant, kanis kyffelib ynt bob vn y'w giliδ.
[1143]Tair k*ont*[b] k*yfreith*iawl y [36vb] sydd: k*ont*[iv] kath a k*ont*[iv] gast a k*ont*[c] gwiwair,[d] kanis attal a allant pan vynont, a gillwng.
[1144]Tri phren y syδ rydd i llaδ yn fforest y brenin: pren krib eglwys, a phren pelydyr a wneler yn rraid y brenin, a phren gelawr gwr a ladder yn rraid y brenin.
[1145]Tri chyhyryn[e] kanastr: vn onaddvnt, lladrad fforδ y kerddo kyfran ohono, kanis naw affaith y sydd iddaw. [1146]Ail yw hyδ brenin, pwybynac a wnel kam iddo. [1147]Trydyδ, abo blaidd, y neb a wnel kam amdanaw. [1148]Sef yw abo blaidd, adriblin gweddill dant ac awch: ni varn k*yfraith* tal eithyr o delediw, nac o adriblin ni varn, kanis nid adriblin yn dal. [37ra]
[1149]Tri chorn[f] bvelin[g] brenin, pvnt yw gwerth[h] pob vn onaddvnt: korn yfed[i] a chorn kyweithas a chorn hely yn llaw y penkynydd.
[1150]Tair hely rryδ ysyδ ymhob gwlad, ganid oes dref tad vddvnt: dyvyrgi a chadno ac iwrch.
[1151]Vn werth yw iwrch ac vn arddrychavel a gavyr.
[1152]Tri ffeth a dyr k*yfraith*: amod ac anghyvraith ac anghanoctid.[j]
[1153]Tri hwrδ ni ddiwygir: [1154]vn onaddvnt govvn o ddyn iawn y'w elyn am i gar mewn tri dadlev heb i gaffel, a chyvarvod i elyn ac ef wedi hynny, a gwan hwrdd ynddaw a gwaiw yni vo marw, yr hwrdd hwnnw ni ddiwygir iddaw. [1155]Ail yw gwneuthur eddigeδ o wraic wriawc wrth wraic arall am i gwr, a chyvarvod o'r ddwy [37rb] wrageδ a gwan hwrδ o'r wraic wriawc yn y llall oni vo marw a'i dwylo, ni ddiwygir iddi. [1156]Trydyδ yw rroddi morwyn i wr a mach ar i morwyndawd, a gwan hwrdd ynddi a bonllost[k] a'i hymrain o'r gwr vnwaith, a'i chael yn wraic; ynte a ddyly yna galw ar neithiorwyr attaw, a golav kanhwyllav, a lladd i chrys o'r tu kefyn yn gifiwch a thal i phedrain a'r tv rrogddi yn gyviwch a gwar i c*hont*.[l] [1157]K*yfraith* twyll morwyn yw hono, a'i gillwng a'r [hwrth][m] hwnnw ynddi heb ddiwyn iddi.
[1158]Tri dyn ni ddyly brenin i gwerthv: lleidyr a chynllwynwr a bradwr arglwydd.
[1159]Tri enw[n] rringill y sydd: 'gwayδ gwlad', a 'garw gychwedl[o] gwas y kynghellawr', a 'rringill'.

[1160]Y lle y bo keidwad kyfreithiawl addwyn, a dwyn da yn lladrad o'i warchadv, a bod yr allweδ[37va]av ganthaw ef, a gweled tor ar y ty, Llyfr Kynawc a ddywaid bod yn haws i

---

[a] *MS* all
[b] *MS* k, *with a space for three letters*
[c] *MS* k c
[d] *MS* gwaiwair, *first* a *deleted in ms.*
[e] *MS* chyhyrn
[f] tri chorn] *catchword*
[g] *MS* bvelinp
[h] *MS* pvnt a dal yw gwerth
[i] *MS* enaid
[j] *MS* ynghanoctid
[k] *MS* bolillost
[l] *MS* c *with a space for four letters*
[m] *From X*
[n] enw *superscript*
[o] garw gychwedl] garwaith ueddel

gredv ef o dygir i dda e hvn y gyd a'r da a ddyker yn lladrad i ganthaw. [1161]Ef a ddyly agen tyngv a dynion oll y ty ganthaw i vod yn iach ef i wrth y da hwn. [1162]O chleddir agen y ddaiar dan y ty, gwedi gwnel ef o k*yfraith* i vod yn iach, y brenin biav y ddaiar ac ni ddyly keidwad vod drosdaw. [1163]Da a addevo agen i dyvod yn i warchadw, taled ef hwnw ynghyfraith wedi gwnel ef y k*yfraith* y vod yn iach ohonaw, eithyr da a ddycker drwy y ddaiar. [1164]O dwc dyn [da][a] ar geidwad a cholli peth ganthaw, a bod ymdayrv y rrwng y keidwad a'r perchenawc am y da hwnnw, y keidwad biav tyngv a'r vn dyn nessa i werth o'i genedl.

[1165]K*yfraith* avr yw i roddi o law bigiliδ yngwyδ tystyon yn[b] llaw y keidwad a'i katwo. [1166]K*yfraith* ariant yw i [37vb] rrivo o law bigiliδ yngwyδ tystion yn llaw y keidwad.

[1167]Oed tystion gorwlad nev warant gorwlad, pythefnos. [1168]Oed tystion tramor nev[c] warant tramor,[d] vn dydd a blwyddyn.

[1169r]Tair aylwyd a ddyly gwneuthvr[e] iawn i bob dyn ni bo arglwyδ addef[f] iddaw a chymell iawn iddaw: vn o dad ac vn o chwegrwn ac vn i vrawd yr hynaf.
[1170r]Tri dyn a ddylant vod yn anrraithodde o k*yfraith* ac ni ddylant ev divetha ev hvnain: dyn a wrthotto k*yfraith* lys; a dyn a[g] vo fflemawr rrwng dwy wlad; a llawruδ a laddo kelain yngwlad y brenin: a gaffer o dda iddaw o'r pryd bigiliδ, y brenin biav oll.
[1171r]Tri gwarthruδ morwyn: [1172]vn yw dywedud o'i that wrthi [38ra] 'Mi a'th roddais[h] i wr, vorwyn.' [1173]Ail yw erchi iddi vyned i gyscv ar y gwr. [1174r]Trydydd yw i gweled[i] y bore yn kyvodi[j] i gan y gwr. [1175]Ac o achaws y tri hyny y tal y gwr drosti i hamobr [i harglwydd][k] a'i chowill a'i hagweddi iddi hithav.
[1176r]Tri argay gwaed: mynwes a gwregis perveδ a gwregis llawdwr.[l]
[1177r]Tri dyn y telir galanas vddvnt ac ni thalant hwy ddim o alanas. [1178]Vn onaddvnt yw arglwyδ, kanis ef a ddyly traian kymell o bob galanas lle ni bo kenedl gymell. [1179]Ail yw penkenedl, kanis wrth i vraint ef y telir galanas i gar. [1180r]Trydydd yw tad, kanis rran a ddaw iddaw[m] ef o alanas i vab, nid amgen no cheiniawc, ganid kar i vab iddaw. [1181]A hanner ran brawd a dal chwaer o alanas, ac ni thelir iddi ddim oni bydd plant iddi; o byδ ni thal ddim. [38rb]

[1182]Gwr rryδ a ddyly atteb dros alldud o bob hawl [ac] ni ddylio kolli i davawd ac enaid ac aylodav [kany dyly neb colli tauawt ac eneit ac aelodeu][n] a thavawd dyn arall.

---

[a] *From X*
[b] *MS* yn yn
[c] *MS* new
[d] + tramo *underlined*
[e] *MS* gwnethvr
[f] *MS* ef
[g] *MS* a a
[h] mi ath roddais] *catchword*
[i] *MS* gwele
[j] yn ky6odi] *superscript*
[k] *See The Legal Triads of Medieval Wales*, *Q118*.
[l] *MS* llawdw
[m] a ddaw iddaw] a addaw
[n] *From W*

[1183]Gwerth tuddedyn parawd ynghyfraith Howel Dda xxiiij δ.

[1184]Dav ddyn ni ddyleir govvn i galanas kyd lladder yn y wlad: kayth[a] dyn arall, kanis meddiant a vyδ i bawb ar i gayth mal ar i anivail o k*yfraith* Howel Dda; ail yw dyn a gaffer hyd y nos yn[b] ymddaith yn stavell y brenin heb dan na chanwyll, wedi el y brenin i gyscv: os llaδ gwsnaethwyr y brenin, ni ddyly brenin govyn galanas.

[1185]Llyma mal y dyleir llywio lledrad yn gyfreithiol: gweled o ddyn o'r pan vo golav y dyδ hyd pan vo pryd kyflychwr a'r lledrad, a thyngv o'r neb a'i llywio ar i bedwerydd [38va] o wyr vn vraint ac ef, ar borth[c] y vynwent, ar ddrws yr eglwys, vwch ben yr allawr gysegr.

[1186]Dyrnawd a gaffer gan ddyn o'i anvoδ, nid sarhaed yw hwnnw. [1187]Iawn yw hagen diwyn[d] yr eniwed, nid amgen gwaed a gweli a chrach ogyvarch o byδ. [1188]Pan daler ragddant, gwerth crach ogyvarch, o byδ, a delir ganthaw.

[1189]Pvm hallwedd yngnadieth yw y rrai hyn. [1190]Vn onaddvnt govyn i athro. [1191]A'r ail i gadw. [1192]A'r trydyδ mynych ovyn[e] i dysc. [1193]Pedweryδ yw tremygv golud. [1194]Pymed yw cadw gennyd y dysc a geffych. [1195]Y browdwyr a varn y brodiev, na vid vwy genwch gwerth no[f] Divy; na vernwch gam [er] gwerth, bernwch iawn er[g] Duw.

[1196]Y neb a doro tervyn ar dir dyn arall, taled teir buw [38vb] camlwrw i'r brenin a gwneuthvr y tervyn yn gystal a chynt. [1197]Y neb a honno o dystyon, kyfreith yw iddaw eu mwynhav yn y dadlav. [1198]E neb a dypier am dystiolaeth, tynged val y bo kyfraith iddo. [1199]Ac yna kymered y llall grair a diwaded o'y lw ar i seithved. [1200]Ac oddyna sylled yr ynaid y chwedl o lywiaid. [1201]Y neb a lysso tyst kyn dwyn[h] tystioleth, colled i ddadyl.

[1202]Pwybynac a syrhao neb o werin o bedair gwlad, nid amgen Gwynedd, Powys, Dehevbarth, a Lloygyr, taled bedeir buw a phedwar vgaint o ariant. [1203]Pwybynac onaddvnt a dalo galanas y'w giliδ, taled[i] iij buw a thrugaint mvw heb arddyrchauael.

[1204]Y neb a gaffo hwch goed varw ar dir dyn arall, kymered y chwarthawr blaen ohonai. [1205]Bwystvil arall a vo iawn [39ra] i yssv,[j] chwarthawr dilwr[k] a gaiff. [1206]O bydd cadno neu llwdyn anhyys,[l] kenioc cota a gaif i gan berchanawc y tir.

[1207]Broch ni allws ynghyfraith Howel Dda gwnevthur gwerth kyfreth arnaw: y vlwyddyn y byddai y vynyglawc ar y moch, braint ki[m] a vyddai arnaw yntev; a'r vlwyddyn y byddai y gynddareδ ar y kwn, braint hwch arnaw yna. [1208]Yscyvarnawc ni wnaethbwyd gwerth kyfreth arney: y naill mis y byddai yn wrw a'r llall yn vanw, ac wrth hynny nid oes werth arney. [1209]Blaidd a chadno ac amryw aniveiliaid eraill[n] ni wnant namyn drwc, nid oes

---

[a] *MS* kaythyth
[b] yn *superscript*
[c] *MS* barth
[d] *MS* dwyn
[e] *MS* oby
[f] *MS* no gwerth
[g] *MS* or
[h] dwyn *superscript*
[i] *MS* taleδ
[j] i yssu] *catchword*
[k] *MS* dulud
[l] *MS* anneyg
[m] *MS* kyfraith
[n] i *superscript*

werth arnvnt a rrydd yw i bawb i llaδ. [1210]Ni all neb dalu ych yn dec delediw namyn hyd y chweched waith, ac ni istwng ar i werth tra vo byw. [39rb] [1211]Ni ellir talu buch yn dec deledyw namyn hyd y nawed llo; ni istwng ar i gwerth tra vo byw. [1212]Gwerth pob anivail a aller i yssu y devparth ar yr enaid a'r traian ar y corff o'r Calan hyd Wyl Jeuan; o Wyl Jeuan hyd y Calan y devparth ar y kic a'r croen a'r traian ar yr enaid.

[1213r]Teithi gwr yw gallu[a] kyd a gwraic a bod yn gyva i holl aylodav. [1214r]Teithi gwraic dyvod arwydd mab arnai a bod yn gyva i holl aelodav. [1215r]Teithi trais yw llef a chorn a chwyn.

[1216r]Tair aelwyd a ddyly gwneuthur bodd dyn kyny bo arglwyδ ef iddaw: vn i dad ac vn i chwegrwn ac vn i vrawd hynaf.

[1217]Vn vraint vyδ dyn a wystler a'r neb a rodder [39va] yngwystyl drostaw.

[1218]O dywedir ar ddyn gweled lledrad ganthaw liw dyδ goleu, ac arall yn lliwio hynny, rrodder lw pedwar gwyr ar hugaint o'r cantref val y del kyfniverwch o bob kymwd, ac velly nid llywiad dim yn erbyn hynny.

[1219]O dywad gwr alanas am yrv braw ar ddyn am veichiogi gwraic, rodder lw l o wyr heb gayth heb alldud.

[1220]Ymhob dadleu nid oes namyn [pedwar][b] peth, gwys, holi, tangneveδ, brawt. [1221]Ac eisioes er gobyr ac ir gwerth i llygrir.

[1222]Pedwar anghyvarch [gwr],[c] i varch a'i arvav a thwnk i dir a'i wynebwerth.

[1223]Pwybynac a dalo tir dros alanas, kyllidet[d] drosdaw[e] val kynt, kanys rryδ vyδ y tir i'r neb i taler iddaw. [39vb]

[1224]O dair fforδ y telir gwialen ariant i'r brenin a ffiol avr: o ddwyn trais ar vorwyn, ac o dori tangneveδ,[f] ac am syrhaed y brenin.

[1225]Od ymda[g] gwraic i hvnan a dyvod gwr iddi a dwyn trais arnai, os dywad a wna y gwr rrodded lw l o wyr, a thri onaddvnt heb vynnv gwraic na bwytta kic na marchogeth. [1226]Oni myn ddywad taled i gwaddawl a'i dilysiant a'i dirwy a'i wialen ariant i'r brenin yn y wedd y dyleo. [1227]Oni ayll y gwr dalv dycker i geillie.

[1228]Pwybynac a gytio a chassec a llygrv i chyvebrwyδ, taled[h] iiij δ i'r perchenawc.

[1229]Oed arwaessa[i] yngwlad arall nev lanw a thrai, dwy wythnos. [1230]Oed arwassa yn vn wlad nev yn vn cantref, tridiev. [1231]Os yn arglwiddieth arall y byδ yn agos, naw niav, ac ni ddodir tervyn ar dduw Sul nac ar dduw Llvn. [39'ra][j]

---

[a] *MS* galw
[b] *From X*
[c] *From X*
[d] *MS* kyllidep *with the* p *written over another letter*
[e] *MS* drodaw
[f] *MS* tangheveδ
[g] *MS* yma
[h] *MS* taleδ
[i] *MS* a rwssa
[j] *f. 39 occurs twice*

[1232]Mab[a] aillt y bo maynawr[b] iddaw [ac] eglwys ar i dir, vn alanas vyδ a'r brobost. [1233]Y rrwng llys a llan naw niav i roddi attep a naw i roddi gwir a naw i roddi mach o hawl ddisyvyd. [1234]Am hawl o vn o'r cantref, tridiav i roddi attep a thri i roddi mach a thri i roddi gwir. [1235]Yn y cantref nessa, pvm niav i roddi attep a phvmp i roddi mach a phvmp i roddi gwir. [1236]Yn y trydydd cantref naw niav i roddi atteb, ix i roddi mach a ix i roddi gwir. [1237]Naw niaw i arglwyδ i ymgoffav am i lw.

[1238]Tri ergid ni thelir dim amdanvnt: vn yw i garw yn yd, ac i gi ac i ebawl gwyllt yn yd.
[1239]Tair kyfrinach a ddyly y brenin i gaffel: i gan i vrowdwr, a'i yffeiriad, a'i veddic.
[1240]Tair nodwydd k*yfreith*iawl y [39'rb] sydd: nodwyδ gweinawl y vrenhines, a nodwydd y meddic yn gwniaw gwelioedd, ac vn y penkynyδ yn jachav kwn brathedic.
[1241]Tri pheth o cheffir ar fforδ ni roddir atteb amdanvnt: nodwydd a phedol a chenioc.

[1242]Ni thelir gweli tavawd namyn i arglwydd; ac i vrawdwr yn myddylio i varn; ac yffeiriad yn[c] i wisc yn y tair gwyl arbenic vwch i allawr, ne y darllen yscriven garbron y brenin, nev yn i gwnevthur.

[1243]O byδ dav ddyn yn myned drwy goed, a gillwng gwryscen o'r blayna ar yr ola, ef a ddyly talv i lygat iddaw.

[1244]Pwybynac a dorro[d] kyvar a wnel o'i vodd, taled gamlwrw i'r brenin, ac i'r [39'va] kyvarwyr[e] oll eu darvedic.

[1245]Pwybynac a roddo tan ne haiarn twymvn, o gwna hwnnw ddrwc yr haner a ddaw ar y neb a roddo y tan a'r haner arall ar y neb a'i dycko.

[1246]Ni ddiwygir y drwc a wnel ki kynddeiriawc gani meddir arnaw.

[1247]Pvnt yw gwerth nyth ehebawc. [1248]cxx δ yw gwerth ehebawc tra vo mvd. [1249]O bydd gwyn gwedi mvd, pvnt a dal. [1250]xxiij δ yw gwerth hwyedic. [1251]cxx yw gwerth[f] gwalch. [1252]xxx δ kyn mvd, lx δ tra vo mvd. [1253]O byδ gwyn gwedi mvd, cxx δ a dal. [1254]Nyth llamysten, xxiiij δ. [1255]Gwerth llamysten tra [vo] emvd a chyn Awst, xij δ.

[*Tail of Z*]

[1256]Pwybynac a wnel k*yfraith* [39'vb] lyw, gwnaed val hyn: kymered penrraith ganthaw yngwyδ yr hawlwr a'r amddiffynnwr, a thynged i weled liw dyδ golav gyda'r da ar heol yn addyweyngv,[g] a thynged nad ir kas nad ir ofn nac ir gobyr ac nad [ir] gwerth, namyn ir mynegi gwirioneδ; a hwnnw a ddywedir dygyn vynac. [1257]Ni byδ k*yfraith* lyw o'r modd hwnw oni byδ llw dav ddyn.

[1258]Mab a geisier ar olav val hyn: y vam yn[h] i veithrig ix mis i ymddwyn yn i brv, ac wedi esgoro y tri mis kynta i veithrin, a hynny i gymrvd yn lle blwyddyn; ac oddyna y dyly i

---

[a] mab] *catchword*
[b] *MS* mayawr
[c] + meddylio *underlined*
[d] *MS* dro
[e] *MS* kyvarwr
[f] gwerth *superscript*
[g] n *superscript*
[h] yn *underlined*

dad i veithring o'i holl gyfreidie, nid amgen: davad ffrwythlawn a'i gwlan a'i hoen (a hono a elwir k*yfraith* ddavad kywyewyn) a gweren a cheiniawc a phadell haiarn a dalo iiij δ kyfraith; tri mv [40ra] gwenith[a] i wneuthur vwd iddo, a llwyth car dav ychen o gynvd a dwy gyvelin o vrethyn gwyn i gvddiaw y mab, nev iiij δ k*yfraith*. [1259]Ac i'r vameth, dwy gyvelin o vrethyn, buwch ffrwythlawn a'i llo, a thri charaid o'r yd gorav o'r tri yd, haiδ a cheirch a gwenith; hyny oll a roddir i'r vam ir i veithring os myn; ac onis myn rrodder i arall.

[1260]Pwybynac a gyvarffo tervyn llys ac ef ynghyweth yr arglwyδ e hvn, llys a dervyna o byδ dadl, kanis ohonai y daw ev braint o bob tir. [1261]Yni gyvarffo llys ac arglwydd ac escob, yr eglwys a dervyna; ac yna dywedir bagyl ac evengil a dervyna. [1262]Pan vo ymdervynv y rrwng llys arglwyδ a thir arall, y mayr a'r kynghellawr [40rb] biav tervynv a thyngv drosdaw o byδ rraid. [1263]Pan dervyno tref a'i giliδ ni ddyleir dwyn rrandir o gwbwl yn dervyn. [1264]Messur rrandir xij erw a thrychant o erwi k*yfreith*iawl: yn y xij bydd tai ac aneδ i'r neb bieifo y rrandir, yn y trychant y byδ ar ac eredic a chynvd. [1265]Saith randir a vyδ yn y vaynol leia y tervyn, xxiiij a vyδ yn y mwiaf. [1266]O bob ymdervynv a vo y rrwng dwy dref, cxx δ a ddaw i'r arglwyδ, a xxiiij δ i'r ynaid.

[1267]Pwybynac a ddel i ddadlav k*yfreith*iawl i adde k*yfraith*, o holir dair gwaith mal y klywo yr arglwydd a'i ddav henevydd, oni ryδ atteb yn vn o'r tair gwys, kolledic vyδ o'r hawl a holer [40va] iddaw, a chyn klywo namyn vn waith, os i gyngor ydd a heb roddi divrawd, i ddadl a gaif. [1268]O bydd dadverwyr a ddyleo dosbarth[b] dadl tervyn, iawn yw bod wrth i dosbarth a ddywetond kyn k*yfraith*. [1269]Sef y ruw wyr vyδ y rrai hynny, gwyr heb swyδ vddvnt, heb swydd arnaddvnt. [1270]K*yfraith* a varn y kynwarchadw[c] tervyn, ac nid a randir[d] yn dervyn; ac o chais dwyn kimint a randir yn dervyn, kolledic vydd o'r kwbwl.

[1271]Pwybynac y dyker tref tad i ganthaw yn wayth no chyvraith[e] ac na chaffo iawn ohonai, jawn yw gwneuthur vn o dri thwrwf k*yfraith* o myn ddyvod iddo a'i waith, nid amgen, llaδ kelain ne loscy ty ne dori aradr. [1272]Oni wna vn o hynny a bod yr amriodawr a'i vab a'i verch [ar y tir], ni aill ymwrthryn ac ef. [1273]Wedi [40vb] hynny kynwys a ddyly hyd nawet dyn. [1274]Pwybynac yn vn wlad a'i dref tad heb ymhawl amdanaw heb wneuthur vn o dri thwrwf kyfraith yn ysbait kan mlyneδ, kaiad vyδ k*yfraith* Howel iddaw;[f] o hynny allan ni wrandewir i hawl.

[1275]Yn y pedweryδ dyn yd[g] a dyn o ambriodawr yn briodawr, tad a mab ac wyr, a gorwyr a vydd priodawr gan bod pob vn o'r rrai hynny wedi i giliδ ar y tir drwy rodd ac ysdyn gan arglwyδ o bob vn wedi i giliδ onaddvnt. [1276]Od a dyn o briodawr yn ambriodawr [...] kanis davddyblic vyδ ir yn ambriodawr.[h] [1277]Vn dyn a aill kadw tir kenedl; os vddvnt i keidw ac iddaw e hvn gydac wynt, kyd bwynt oll yn ddieithr ni byddant golledic ohonaw o bydd vn yn i warchadw. [1278]Tair anoes traoes kylch[i] y syδ iawn i gadu[j] ar vab, a phan [41ra]

---

[a] gwenith] *catchword*
[b] *MS* tosbarth
[c] *MS* kyrst archadw
[d] *MS* arandir
[e] *MS* chyraith
[f] *MS* idda
[g] *MS* od
[h] *MS* ambrodor ambriodawr
[i] *MS* keylch
[j] *MS* gada

vo marw[a] y neb a vo arnaw, e dyledawc vcha a vai hebddaw a ddyly dyvod y tir yn i law.

[1279]Tref gyd ni aill neb dwyn ambriodawr arnai na'i llogi[b] na'i benthygiaw namyn o gytvndeb gwyr y dref, namyn a ddycko gwr iddaw e hvn arnaw. [1280]Pwybynac o kyttirogion a ddel i holi tir o gytvndeb ynadlav yr arglwyδ a chyrvd kyd oed vddvnt o k*yfraith*, o bydd vn heb ddyvod i'r oed hwnnw ac nas lluddio angen kyfraithiawl, godor ar gwbwl o'i gymdeithion yw. [1281]Sef yw yr angen hevyd, Duw nev angen presenawl nev garchar.

[1282]Pwybynac arganvo yn dechre i hawl na ddyd ef kolli ne gaffel o neb namyn ohonaw e hvn, a thystv hynny i'r arglwyδ ac i'r ynaid, ni ellir godor am hwnnw er i vod gynt yn kyderlyn a'r llaill.

[1283]Dadl tervyn y kilio y wlad i wrthaw gan ddywedud[c] nas gwypoynt dwyn hyn i greirie, ymrysson a vyδ yna y rrwng y ddev wr pa weδ y gatto kyfraith [41rb] tervynv ar i giliδ. [1284]O dervydd bod y gwyr a holo yn gymraint a'r gwyr a amddiffyno ac yn gyhyd ev gwarchadw, vn o'r lleoeδ y rran k*yfraith* yn ddav hanner yw hwnnw y rrwng y ddwy blaid. [1285]O dervyδ vod y tir mal na ddyleo neb o'r ddwy blaid, diffaith y brenin yw. [1286]Dyn a adawo tref i dad yn anghyfreithiawl heb wneuthur kam nev anteithi ac ef, i arglwyδ a ddyly amobyr i verch a'i ebediw e hvn, a'i ran o'r alanas o lleddir, a dayredav y'r arglwydd bievffo y tir y dyscyno arno; a'r gwr hwnnw a elwir 'drud a dal dav gyfloc'. [1287]Rran gwr o dref tad a ddyly dav evell, ac velly y dylant ornest o bydd a yrro arnaddvnt; ac o gyrant wyntav, yn lle vn gwr y dylant yrrv.

[1288]Pwybynac a warchatwo maynawl k*yfreith*iawl, ni ddyly na mayr na chynghellawr vod arnaw, na rran na dovreth[d] na meirch na [41va] chwn na hebogav na makwiaid, namyn i daly[e] a dan arglwyδ y wlad, eithyr twng a llwyδ a chyllid mawr y gaiaf. [1289]Bryrtref k*yfreith*iawl: ni ddyly y perchenawc na swyδ na gavel ac ni ddyleir iddaw ynte namyn i wsanaeth. [1290]Kyfryw wyr a'r rrai hyny a ddylant vod yn ddadverwyr k*yfreith*iawl pan vo ymryson rrwng dwy dref am dervyn – gwyr ni bo swyδ vddvnt na swydd arnvnt.

[1291]Mab a ddyly ymhen y saith mlynedd i ddodi dan law i beryglor; ac yna y bydd syrhaed a wenel ac a wneler iddo. [1292]Ac ymhen yr ail saith mlynedd[f] y dyly dir ac y dyleir llvydd[g] iddaw ynte, a dayred gwr iddaw o hyny allan.

[1293]Ni vernir ornest ar wr oni vo vn[h] vlwydd ar hvgaint, ac o dair blwydd ar hugaint allan [ny barn][i] kyfraith iddaw ornest. [1294]Gwr y gorffer arno[j] ni [41vb] ellir gwybyddiad ohono. [1295]Ac ef a ddyly dref tad, ac ni ddyly kyvarws, gani aill dwyn gwr i arnaw.

[1296]Tir y lladder kelain amdanaw hep negyvyaeth nev a vo mwy, hwnnw a elwir yn wayttir; a phlant y neb a ladder bievyδ hwnnw.

[1297]Y maer a'i gymydeithion a ddylant i gan ynghanogav a wnent anraith o dref, y gwarthec ievaink hyd ev dwyvlwydd a'r devaid a'r geivyr a kwbwl; eithyr y gwarthec mawr

---

[a] vo marw] *catchword*

[b] *MS* llosci

[c] *MS* ddywedwynt

[d] *MS* doverth

[e] *MS* dalv *amended to* daly

[f] *MS* mlynedδ

[g] *MS* llvdd

[h] vo vn] vn *changed to* vo, + vn *superscript*

[i] *See AL VIII.xi.24*

[j] *MS* ano

ac avr ac ariant a thuthedyn amarvyawc[a] a thlws y bo wrllys ni chan. [1298]Ni ddyly arglwyd gyfran dyn o dwng o dref i dad ar mayr nac ar kynghellawr. [1299]Ni ddyly y mayr ddim yn tre y kynghellawr,[b] na'r kynghellawr ddim yn tref y mayr. [1300]Kynghellawr bie roddi kerwyn vedd bob gaiaf a'i [42ra] hyved[c] yn ty y mayr. [1301]Pwybynac a vyno bod yn vayr yn y wlad, ef a ddyly roddi y'r arglwyδ vn waith cxx δ a phvnt. [1302]Y kynghellawr a ddyly pan bryno ynte i swyδ rroddi pvnt vn waith i'r arglwydd.

[1303]Pwybynac a vwrio rrwid mewn dwfr ni bo eiddo heb genad, y drydedd ran a ddyly perchennawc y rrwyd o'r hela, a dwy i berchenawc y dwfr, a chamlwrw i'r arglwydd.

[1304]Llyma dervyn Llyfr Praw,

A Llyfr Kynawc.

[1305]Saith escobawt[d] a ddyly vod dan Ddewi, nid amgen Myniw, a Llan Deilo, Llan Ysmayl, Kaledawc, Llan Vsil, Deceman. [1306]Gossodedic yw bod abadav yn y rrai hynny o yscolheigion ac vrddolion. [1307]A'r llanav hynny a ddylant vod yn rryδ o bob arglwyddieth vyd, onid fforδ a gerdder drwyddvnt. [1308]Pwybynac a wnel gwaed [42rb] ar arall yn yr vn [o'r] rrai hynny, yn herwyδ syrhaed talet i'r eglwys vj phvnt, a'i syrhaed i'r dyn herwyδ i vraint. [1309]Golchuries o'i genedl a dal i'r eglwys yngwaradwydd[e] o'i genedl, val na wnel arall.

[1310]Os y dyn a leddir yna, hyd y nawed dyn y rrenir i alanas, a hynny o vraint y lle. [1311]Y telir kimint ac i ddav gevynderw ac i ddwy chwioredd kimint ac i vn o'i vrodyr, ac velly hyd y nawed dyn.

[1312]Pan lladder dyn, yn dridyblic y telir gwerth i waed; a phan syrhaer yn[f] ddavddyblic.

[1313]O dervyδ i ddyn issel i vraint kyhydrec a dyn vchel i vraint yn anghyfreithiawl, kyd gwnel yr vchaf i vraint gwaed ar yr issaf ni ddyly i ddiwyn gani ddyly ynte gyhydrec ac a vai vwch noc ef.

[1314]Galanas brabost Kastell [42va] Llangoel[g] ix mvw a clxxx mvw dair gwaith gan i arddrychaf, a hwch a davad a dwy vaynawl a dwy olchuries i goffav y gyflavan. [1315]Pwybynac a dalo tir yngalanas, ef a ddyly talv i'r arglwydd bob peth ar a ddel ar y tir bob amser. [1316]Galanas brobost Anwyl Llenion [a] Llempreyn, vj buw a chant, a hwch a davad ac vaynol a golchuries. [1317]A chimint a hyny galanas pob vn o'r brobostav Myniw. [1318]A thraian i galanas yw gwerth ev[h] haelodav. [1319]Mab aillt a vo ymaynawl, o byδ eglwys ynddi kymint vyδ i alanas a galanas y brobost.

[1320]Maynawl yw hon y bo ynddi vn dref ar bymthec. [1321]O bob tref i telir i'r arglwyδ tvnell[i] o gwrwf, a cxx torth o vara, a'i henllyn. [1322]Messur tvnell yw pedwar mv; ym mhob

---

[a] *MS* amarvawc
[b] *MS* kynghellaw
[c] hyved] *catchword*
[d] *MS* escobawb
[e] *MS* angwaradwydd
[f] *MS* yn yn
[g] llan] *catchword*
[h] ev] i ev
[i] tunell *changed to* tvnell

mv dwy rreniad. [1323]Dec torth ar hugaint gan bob mv, ac xv kossvn yn enllyn [42vb] nev rysgyniaid o emenyn tri dernvedd a thair modveδ yn i hyd, a'r gimint yn i led.

[1324]Yn rrandir i dyly vod xij erw a ccc erw. [1325]Messur erw yw deunaw[a] hyd y hiriav ac vn i lled, ac vn troedveδ ar bymthec[b] yn hyd yr hiriav.

[1326]Taiawc a allo dwyn i ach hyd ar y penkenedl, tair buw a lx yw i alanas, hwch a davad; ac oni aill ynte i ddwyn, tair buw yw i alanas. [1327]O lleddir alldud mab vchelwr, tair buw a gaif y mab vchelwr.

[1328]Ni ddyly neb barnv ar dir escob Dewi namyn yr escob a'r kynhonwyr, ac velly i Deilo a Thydecho a Bevno.

[1329]O dervyδ dwyn trais ar wraic a'r gwr yn gwadv, rrodded lw l o wyr, a thri onaddvnt heb escynnv march, heb issu kic, a heb achaws [43ra] a gwraig.[c] [1330]Oni watta ynte, taled i'r wraic i hagweddi, a hithe bid rydd i ganthaw; a thaled i'r arglwyδ wialen ariant kyhyd a hyd i enav a chyn braffed a'i berveddvys, a phiol avr y bo[d] diawd ynddi, a chyn dewed ac ewin ameth a'r a ddalio aradr saith mlynedd ne vliscin wy gwydδ. [1331]Oni aill talv hyny, torer i aelodav gwrawl.[e]

[1332]O byδ dwy wragedδ yn kerdded i gyd a dwyn trais arnvnt, ni thelir dim vddvnt. [1333]O byδ mab, ir i vychaned, gidac wynt, wynt a ddylant yr hyn a ddywedassom ni vchod.

[1334]Pwybynac a wnel kraith ar wyneb, taled werth y gwaed a mantell bob plwyddyn tra vo byw.

[1335]Pwybynac a arddo ffordd y brenin, taled cxx δ.

[1336]O dervydd gyrv ar ddyn dianglod losci ty, rodded lw xxiiij o wyr. [1337]Os ar ddyn anglod vawr i gyrir, rodded l o wyr [43rb] ac vn onaddvnt heb escyn march.

[1338]O gyrir ar ddyn ladd anivail yn lladrad, ai ar fforδ ai mewn bevdy, rodded lw l o wyr, ac vn onaddvnt heb escyn march.

[1339]O dervyδ i verch gwr nev y'w nith, a hi yn wyrf, gadv torri i morwyndawd, taled i that i hamobr. [1340]Os gwraic vydd hithe, taled i hvn.

[1341]O dair fforδ y dyly dyn vod yn enaidvadde: o ladrad barnedic i groc, ac o vrad arglwydd, ac o laδ dyn yn lladrad.

[1342]O dair fforδ y telir gwialen[f] ariant a phiol[g] avr i'r brenin: am dorri tangnevedd arglwyδ y rrwng dwy wlad; ac am dreissio morwyn; ac am laδ dyn yn lladrad.

[1343]Pwybynac a geissio gwadv mab a'r wraic yn gwrthnebv, rrodded y wraic i llw a gwraic o bob parth [43va] iddi a chymeredic vyδ y mab.

[1344]Pwybynac a laddo dyn a'i gynghorvvn, taled pedwar gwas a phedair llawvorwyn a bid yn ryδ ynte o'r gyflavan.

[1345]Pwybynac a essywyo ai llaw ai troed ai llygat ac na wnel iawn, kymhellet yr arglwyδ

---

[a] *MS* danaw

[b] *MS* bymth

[c] a gwraic] *catchword*

[d] *MS* b

[e] *MS* gw awl

[f] *MS* gwalen

[g] + ariant *underlined*

arnaw talv v llawvorwyn a v gwas i'r neb ydd esywiwyd[a] i aelawd o'i wysnaethv.

[1346]Pwybynac a vo ffoadur o achaws lladd kelain, ac na aller praw arnaw, rodded[b] lw viij a xl o wyr, a xxiiij onaddvnt yn y dadlav y gyrer arnaw a xxiiij eraill yn yr eglwis y bo i ddwfr swyn a'i vara fferen. [1347]Oni wna ynte taled dri gwas a v llawvorwyn

[1348]Pwybynac a roddo bonklust i arall ac na bo na gwaed na gweli, llawvorwyn. [43vb]

[1349]Pwybynac a vratho arall yn i vraich nev yn i vorddwyd nev [yn i lygad] ac nad essywio yr aelawd, taled iddaw ddwy bvnt.

[1350]Pwybynac a ladda kelain a bod yn ffoadur, taled y rrieni drosdaw, nev ynte vdvnt deholedic;[c] nev talent haner gwerth y dyn a ladder. [1351]O daw y llourvdd[d] gwedi hyny i'r wlad, taled yr haner y syδ eysywiedic y genedl ohonaw. [1352]O lleddir ynte am y gyflavan hono taler o'i rieni ynte y da.

[1353]Pawb a ddylant gwnevthur gwaith llvestav yr arglwyδ eithyr gwyr y vaerdref. [1354]Meibion eillion ni ddylant i porthi na fforthi y tevlu; a chani ddylant wyntav i porthi ef, ni ddylant wyntav nac ev mel nac ev pyscawd namyn i roddi i'r arglwydd. [1355]A'r arglwydd a ddyly gwnevthur[e] [...]

[45ra] [...] [1356]ant pynveirch y brenin. [1357]Ac o bob tayawgdref i kaif gwr a march a bwyall i wneuthur lluesdav; ar draul y brenin agen vyddant.

[1358]Tri pheth ni werth tayawc heb genat i arglwyδ: moch a mel a march. [1359]Os gwrthyd i arglwydd, gwerthed ynte wedi hynny fforδ y myno.

[1359]Tair kelvyddyd ni ddysc mab taiawg heb genad i arglwyδ: yscolheictod a barddoni a govanieth. [1361]Os diodde arglwyδ agen yni gaffo gorvn nev yni el gof wrth i gerdd, ni ddyly ddim wedi hynny.

[1362]Od ymladdant gwyr escob neu wyr abat a gwyr y brenin ar dir y brenin, ev dirwy a ddaw i'r brenin. [1363]Od ymladdant gwyr escob a gwyr abat ar dir y brenin, ev dirwy a ddaw i'r teyrn.

[1364]Y neb a arddo tir dros luδ brenin, taled iiij δ kyfraith i berchenawc y tir gan egores y ddaiar dan drais, a iiij δ kyfraith pan ddiotto yr aradr o'r ddaiar a cheiniawc am bob kwys ar a ymchwelo yr aradr. [1365]Kymered y brenin ynte yr ychen oll, a'r aradyr a'r swch a'r kwlldwr, a [45rb] gwerth y troed dehe i'r ameth am ymchweloδ y gwys, a gwerth y llaw ddehe i'r geilwad.

[1366]Tervyn y rrwng trevi, torri llvdd yw os erddir.

[1367]O chlaδ dyn dir arall i guddio peth ynddaw, perchen y tir biav y kvdd, yna iiij δ kyfraith am egori y ddaiar – onid avrgrawn vyδ, kanis y brenin biev pob avrgrawn. [1368]Y neb a gladdo annel ar dir dyn arall, taled iiij δ kyfraith am egori y ddayar (o cheffir llwdwn yn yr anel, perchen y tir biev) a thaled dair buw kamlwrw i'r arglwyδ. [1369]O chleddir pwll

---

[a] *MS* esywiwy

[b] *MS* roddef

[c] + yn llouvdd gwedi hynny *underlined*

[d] llourvdd] yn llouvdd

[e] nevthur] *catchword*; *ff. 44r-44v are blank*

odyn ar dir dyn arall heb genad, taler[a] iiij δ kyfraith i berchenoc y tir i gan y neb a'i kladdo, a thair buw kamlwrw i'r arglwyδ. [1370]Y neb a ydeilo ty ar dir dyn arall heb genad, taled dair buv camlwrw i'r brenin, [45va] a'r ty i berchennoc y tir, a iiij δ am egori y ddayar os ar y tir y lladdwyd yr adailwyδ. [1371]Onit ar y tir y lladdwyd, tynget ar i drydyδ o wyr vn vraint ac ef, a thored y ty yn ogyfiwch[b] a['r] ddayar a dyged ymaith kyn nawettyδ; ac onis dwc perchennawc[c] y tir biev.

[1372]Y neb a holo tir eglwysic nid ery nawettydd, namyn[d] egori gwyr iddaw pan i

[1373]Ni chaif neb o barth mam essyddyn arbenic na swydd o bydd o barth tad a'i dyleo. [1374]Jawn yw o barth mam gaffel ran o'r tir. [1375]Gwraic a ymroddo i hvnan i wr heb genad kenedl yn llwyn ac ymherth, ni chaif y plant ran o'r tir gan genedl ev mam oni byδ gan rybuched, gan ni [45vb] ddyly mab llwyn a pherth ran o dir.

[1376]Pwybynac a ddiotto koed gan ganiad[e] y perchenawc y tir, bvm mlyneδ a ddyly ef, chweched i'r perchenawc y tir yn rydd. [1377]Y neb a gardeilo tir gan genad i berchenawc, tair[f] blyneδ y dyly ef, a'r bedwareδ i'r perchenawc yn rryδ. [1378]Y neb adeilo buarth dail gan genad y perchenawc, dwy vlyneδ i kaif ef, a'r drydedd i'r perchenawc y tir yn rryδ. [1379]Y neb a dorro tir gwydd ar dir dyn arall[g] gan genad y perchenawc, dwy vlynedd i dyly ef, a'r drydeδ i'r perchenawc y tyr yn ryδ; yn rrad i kaif ef y vlwyddyn gynta, a'r llall ar ged.[h]

[1380]vj δ yw gwerth llo venyw[i] pan aner, hyd Galan Rracvvr. [1381] Oddyna hyd Galan Chwefrawr viij δ a dal. [1382]Kalan Mai x[j] δ a dal. [1383]Awst xij δ a dal. [1384]Kalan Racvyr xiiij δ a a dal.[k] [1385]Hyd Galan Ch[46ra]wefrawr[l] xvj δ a dal. [1386]Hyd Galan Mai xviij a dal. [1387]Hyd Awst xx a dal. [1388]Tranoeth dwy geinioc o'r tymor a iiij δ o'i gyflodawd a ddrychaif arnai, ac yna xxvj δ yw i gwerth hyd Galan Gaiaf. [1389]Hyd Galan Rracvyr xxviij a dal. [1390]Hyd Galan Mai xxx a dal. [1391]Nawed tyδ Mai y dyly vod yn deithiawl a dyvod llaeth gwyn o'i phedair teth, ac ymddaith o'i[m] llo naw kam yn i hol. [1392]Ac oni bydd velly, xvj δ yw i ij δ hevyd o'r tymor a gaif yna, ac yna xxviij δ a dal hyd Awst. [1393]Hyd Galan Rracvyr dec a devgaint a dal. [1394]Hyd Galan Chwefrawr devddec a devgaint. [1395]Trannoeth y kymer ddwy geinioc o'r tymor a iiij δ k*yfraith* o'r ail kyflodawd. [1396]Ac yna lx a dal. [1397]Gwerth korn bvwch a'i llygat a'i chlust a'i lloscwrn iiij δ kyfraith yw gwerth pob vn [46rb] onaddvnt.
[1398]O dri modd y telir teithi buwch, nid amgen no dec ar hugaint o ariant, o vvwch hesp dec ne o vlawd.

[1399]Messur llestyr llaeth buwch, sayth modveδ vydd ar wyr, tair modveδ vyδ yn lled i

---

[a] *MS* taled
[b] + o thored y ty *underlined*
[c] a *superscript*
[d] *MS* namy
[e] *MS* ganiand
[f] *MS* tair tair
[g] *MS* aral
[h] *MS* gyd
[i] *MS* gwrw
[j] *MS* ix
[k] a dal *superscript*
[l] wefrawr] *catchword*
[m] *MS* ai

waylod a thair yn lled i enav. [1400]Llonaid y llestyr messur hwnnw o vlawd gwenith[a] a delir ynghyvair pob godro hyd Wyl Gvric. [1401]O vlawd haidd oddyna [hyd][b] Awst yn yr vn messur. [1402]Oddyna hyd Galan Gaiaf o vlawd keirch yn yr vn wedd.

[1403]vj δ yw gwerth llo gwrwf o'r pan aner hyd Galan Racvyr.[c] [1404]Oddyna [hyd][d] Galan Chwefrawr viij δ a dal. [1405]Hyd Galan Mai x δ a dal. [1406]Hyd Awst xij δ a dal. [1407]Hyd Galan Rracvvr xiiij δ a dal. [1408]Hyd Galan Chwefrawr xvj δ a dal. [1409]Hyd Galan Mai xviij δ a dal. [1410]Hyd Awst xx δ a dal. [1411]Hyd Galan Racvyr xxij δ a dal. [1412]Hyd Galan Chwefrawr xxiiij δ a dal. [1413]Tranoeth y dodir [46va] gwedd[e] arnaw, a iiij δ kwtta a ddrychevir ar i werth. [1414]A nawet tyδ Chwefrawr od ynill ac yredic, nid amgenach gwerth y teithi a ddrychevir arnaw, xvj δ, ij δ o'r tymor hevyd. [1415]Yna xlvj δ vyδ i werth hyd Galan Mai. [1416]Hyd Awst xlviij δ. [1417]Hyd Galan Rracvvr l δ a dal. [1418]Hyd Galan Chwefrawr lij δ a dal. [1419]Trannoeth ij δ o'r tymor a gymer, a gwedd a ddodir arnaw, kanis ailwerth yw yna, a hynny a ddedwc iiij δ kyfraith ar yr hyn gynt. [1420]Ac yna lx a dal. [1421]Teithi ych yw yredic yn rrych ac yngwellt, ac yn allt ac yngwayred[f] yn ddidonrrwyc; ni[g] bydd teithiawl oni bydd velly.

[1422]O'r pan aner ebawl hyd Awst iiij δ kyfraith yw i werth. [1423]Oddyna hyd Galan Rracvyr xij δ a dal. [1424]Hyd Galan Chwefrawr xviij a dal. [1425]Hyd Galan Mai pedair ar xx a dal. [1426]Hyd Galan Awst dec ar xx a dal. [1427]Hyd Galan Rracvvr xxxvj δ a dal. [1428]Hyd Galan Chwefrawr xlij δ a dal. [1429]Hyd Galan Mai xlviij δ a dal. [46vb] [1430]Dwy vloyδ vyδ yna; oddyna hyd Awst lx δ a dal. [1431]Kanis xij δ a ddrychaif arnaw yna, a xij δ hevyd a ddrychefir arnaw bob tymor hyd Galan Mai. [1432]Yna i byδ teirblwydd. [1433]Sef a dal yna xvj δ a lxxx δ. [1433]Y dyδ i dalier xx δ a ddrychaif arnaw. [1435]Pan ffrwyner, iiij δ a ddrychaif ar yr hyn gynt, ac velly cxx δ. [1436]Ac o bydd amws a'i besci chwech wythnos pvnt a dal. [1437]lx yw gwerth rrawn amws. [1438]O thorir y gloren agen, gwerth yr amws oll a delir, a dilis vydd yr amws i'r neb a'i llygrws. [1439]Llygat amws a'i glust xxiiij δ yw gwerth pob vn onaddvnt. [1440]cxx yw gwerth rrwmsi. [1441]Rrawn rwmsi a'i glust a'i lygat, xij δ a dal pob vn onaddvnt. [1442]O lleddir y gloren, gwerth y rrwmsi oll a delir, a dilis vydd y rwmsi i'r neb a'i llygrws ac velly[h] [...]

[49ra] [...] [1443]a ddrychaf ar werth kyn weith pan ddoter gynta y dan wedd; gwerth kosdawc tom a gafr a iwrch ac asgwrn twn ar grevan ac ebawl ymddivad a iv [keiniawg] gwasdrodion.

[1444]Kwynos brenin, pvnt a dal: xx δ i'r bara a lx δ i'r enllyn a lx δ i'r llyn. [1445]Hyny yr amser ni thelir gwesdva ohonai.

[1446]Messvr gwestva k*yfreith*iawl, pwn march[i] o vlawd gwenith ac ych kic, saith ddreva o

---

[a] *MS* keirch

[b] *From X*

[c] *MS* Racv

[d] *From X*

[e] gweδ] *catchword*

[f] *MS* yngowayred

[g] *MS* nid

[h] ac velly] *catchword; ff. 47-48 are blank; Hand II begins on f. 49ra*

[i] *MS* mach

geirch vn rrwymvn, kib o vel y bo ix dyrnveδ yn i ddyfned a ix yn i led. [1447]A[a] xxiiij δ oni bydd braint a'i differ. [1448]O dref rydd y bo mayr a chynghellawr, medd a delir ohonai. [1449]O dref rydd arall[b] i bo [49rb] swydd arnai, bragawd a delir ohonai. [1450]O dref y dyler[c] bibaid vedd ohonai, oni cheffir medd, dwy o vragawd a delir ohonai. [1451]Oni cheffir y bragawd iiij o gwrwf yn gwynos y gayaf. [1452]Y dref y taler[d] kwynos ohonai, pedair rrandir a ddyly vod ynddi. [1453]Ni ddyleir gwestva nac ariant nac ebran [gan westua haf].[e]

[1454]Dav ddawnbwyd a ddyly y brenin i gan y tayogav bob blwyddyn. [1455]Messvr y dawn hwnw yw twrch tair modveδ yn i ddwy ysgwydd a thair yn i ddwy glvn a thair yn i ais (ynghyvair y twrch rresgyn ymenyn tri dyrnvedd hyd a thri lled heb i voel) a bacwn hallt a lx torth o vara gwenith. [1456]vi onaddvnt yn [49va] beilliaid,[f] iiij i'r nevadd a dwy i'r ysdavell. [1457]Oni thyf gwenith, trvgain torth o vara keirch, vi onaddvnt yn rrynion, iiij i'r nevadd a ij i'r ysdavell, ac yn gyfled ac o elin hyd arddwrn, a chyn dewed ac y dalion i plygv erbyn i dav emyl. [1458]Ac o vrac dogyn kip o gwrw. [1459]Ac xx hysgvb o geirch vn rrwymvn. [1460]A cheiniawc i'r gwsnaythwyr. [1461]O dayawgdref agen, velly y kaiff: yn yr haf y telir twrch tair blwydd, [1462]a brevan ymenyn dri dyrnvedd yn i dewed, [1463]a chossvn a vo o layth yn y dref yn gweddill, a lx torth o vara val y dywedasam ni vchod.

[1464]Messvr [rrandir][g] yw xij erw [a ccc],[h] a thrychanerw a ddyly vod yn y tir eredic ac yn y kav ac yn y porvadir o'i perchenawc, a'r xij erw y dylant [lle adail].[i] [1465]Messvr yr erw, vn troedveδ ar bymthec [yn hyd yr hiriau, ac vn ar bymthec][j] i hono yn hyd [49vb] yr erw a dwy yn i lled. [1466]Saith randir a vydd ymaynawl ymro gyvanedd a thair tref ar ddec ymaynawl orthir. [1467]O bernir tir i ddyn o k*yfraith*, i arglwydd a ddyly cxx δ o bob randir a varner iddaw. [1468]Os tref y bo swydd ohonai, cxx δ a ffvnt a ddyly yr arglwydd.

[1469]Nid raid arros nawet tydd am ddadl tervyn, namyn i vod yn rydd bob amser. [1470]Ac velly tir mam eglwys.

[1471]O dervydd i ddyn holi tir o ach ac edryf, ni ddyly i wrandaw onid hynafgwyr y wlad a'i hadverant[k] gan dyngv i hanvod o dadwys y genedl. [1472]Ac yna y dywaid kyfraith, 'nid adver, ni thwng'.

[1473]Pwybynac y barner[l] tir iddo yn aneledvs, a bod ar i tir dair oes gwyr yn dangnevedvs [50ra] yn vn[m] wlad a'r neb a'i dyleo heb wnevthvr vn o dri thwrw kyfraith, ai llosgi ty ai lladd kelain ai torri aradr, nid attebir iddo vyth o'r tir hwnw. [1474]O gwna ynte vn o hyny, ni bydd kayad k*yfraith* iddo yn oed a vo[n] llai no chan mlyneδ.

[1475]Pwybynac a vo yn hir yn alldvd ac yn y diwedd galw am ran o tref tat, ef a ddyly

---

[a] + xx *deleted in ms.*

[b] *MS* mall

[c] *MS* deler *changed to* dyler

[d] + y *deleted in ms.*

[e] *From W*

[f] d *superscript*

[g] *cf. Coleg yr Iesu LVII, 68.8-14.*

[h] *cf. Coleg yr Iesu LVII, 68.8-14.*

[i] *cf. Coleg yr Iesu LVII, 68.8-14.*

[j] *cf. Coleg yr Iesu LVII, 68.8-14.*

[k] *MS* hadvernant

[l] *MS* bar

[m] yn vn] *catchword*

[n] vo *added in the margin*

cxx δ i'r kynyssafiaid y del i ganthvnt iddaw y tir megis gobyr gwarchadw i dref tat.

[1476]O dervydd i arglwydd rroddi[a] tir a daiar i ddyn yn kyfreithiawl[b] a heb wrthnebv iddaw, ni ddyly mab arglwydd (kyt bod arglwydd e hvn wedi j dad) o k*yfraith* dwyn y tir i ganthaw wedi hyny. [50rb]

[1477]Tri adeilad a ddylant vod yn gyffredin y rrwng brodvr: eglwys a chored a melin.
[1478]Tri ffeth ni ddyly ev perchenawc i rranv: derw goed a dofyn wern a cherig.

[1479]Y coed a ddyly i gadw o'r trydydd dyδ kyn Gwyl Vihangel hyd y pvmthecved dydd wedi yr Ysdwyll. [1480]O chaif moch dyn arall yn i goed heb genad, ef a ddyly y decved onaddvnt y gynifer gwaith y kaffo yn i goed, hyd y nawed hwch, ac o hyny allan o vn i vn hyd y diwaytha.

[1481]Gwerth baedd koed, lx δ. [1482]Gwerth hwch goed, xx δ. [1483]Nid rydd i vwchelwr hely moch koed onid gan genad arglwyδ. [1484]Gwerth kylleic, xxx[c] δ. [1485]Ssef yw kylleic: pen [50va] y davawc. [1486]Gwerth enaid ych nev vvwch, xl. [1487]Gwerth j groen, viij δ. [1488]Gwerth y iiij chwarthawr,[d] viij δ. [1489]Ar y pen a'r trayd a'r ymysgar, ar y llwyf a'r arenav, iiij δ.

[1490]O dervydd i ddyn taraw anivail, ac od adlam i ar yr anivail a neidio ar ddyn, taled y neb a drewis yr anivail haner y syrhaed a fferchenawc yr anivail yr haner arall.

[1491]Gwerth rrawn amws oddiaithr gloren, xxiiij δ. [1492]O lleddir y gloren, y gwerth yn gwbwl a delir. [1493]Gwerth i lygaid a'i glvst, xxiiij δ. [1494]Gwerth rrawn rrwmsi, xij δ, a'i glvst a'i lygad. [1495]Gwerth amws pvnt. [1496]Palffray, lxxxx[e] δ. [1497]Rwmsi, cxx δ. [1498]Sswmervarch, lxxx δ. [1499]Gwerth ysdalwyn, tair kassec gre.[f] [50vb] [1500]Gwerth march disbadd, cxx δ. [1501]March gweini, lx δ. [1502]Gwerth rrawn kassec a'i llygad a'i chlvst, iiij δ bob vn onaddvnt. [1503]Gwerth kassec rewys,[g] cxx δ. [1504]O gwahenir hithav a'i gre ac na bo ysdalwyn a greawr[h] wrthi, lx δ a dal.

[1505]Gwerth ebawl o'r nos y ganer hyd Awst, iiij δ k*yfraith*. [1506]Hyd Galan Gayaf, xij δ. [1507]Hyd Wyl Sanfraid, xviij δ a dal. [1508]Hyd Galan Mai, 24 δ. [1509]Hyd Awst, xxx δ. [1510]Hyd Galan Gayaf, xxxvj δ. [1511]Hyd Galan Mai, xlij δ. [1512]Awst yn y drydedd vlwyddyn y drychaif[i] drychaif[i] arnaw xij δ bob tymor. [1513]Ac yna[j] tair blwydd a cxxvj δ vyδ i werth. [1514]Ac yn y Mai hwnw y dyleir i ddaly, ac y drychaif xx δ arnaw. [1515]Pan ffrwyner y drychaiff[k] iiij δ a[l] bydd cxx δ i werth. [1516]Amws o bydd ymhasc bythefnos[m] [...]

---

[a] *MS* rodd
[b] *MS* kyfreithiwl
[c] *MS* ixxx
[d] *MS* charthawr
[e] *MS* xlxxxx δ *some numbers possibly deleted in ms.*
[f] lxxx δ *deleted and encircled in ms.*
[g] *MS* rwys
[h] *MS* greaw
[i] *MS* drych rif
[j] a *superscript*
[k] *MS* drychaiffff, *first two* f*s deleted in ms.*
[l] *MS* O
[m] bythefnos] *catchword*; *ff. 51r and 51v are blank*

[52ra] [...] [1517]ty ac nad ymroddai ynte yngharchar arglwydd, kyt llosger y ty yna am i ben ni ddiwygir na'r ty yna, nac yntav o'i genedl na'r ty o'i berchenawc.

[1518]Saith wragedd a ddyly ev meibion gaffel mamwys. [1519]Vn yw gwraic a wysdler dros genedl, a chaffel mab a hi ynghwysdyl, ef a ddyly vamwys. [1520]Ail yw gwraic a roddo kenedl i alldvd, o chaif vab ef a ddyly vamwys. [1521]Trydydd[a] yw mab gwraic a gollo tref i dad o achos dial gwr o genedl i vam. [1522]Pedwerydd yw mab morwyn a ddyker trais arnai ar ddifaith, kanys y [52rb] brenin bie kadw y difaith; am nas kedwis ef a ddyly gymell[b] mamwys o'i mab. [1523]Pymed yw gwraic a ddyko mab yn k*yfreith*iawl a'i ddywad o'r gwr yn k*yfreith*iawl, ni aill y vam i ddwyn i'r ail tat, ac wrth hyny ef a ddyly gaffel mamwys. [1524]Chweched yw gwraic a ddyko alldvd i drais. [1525]Seithved yw mab gwraic vvd[c] a ymarddelwo o[d] genedl wedi bo marw i vam; o gwedir yn k*yfreith*iawl, ef a ddyly gaffel mamwys.

[1526]Pwybynac a wnel kam yn llys arglwyδ, a dywedvd na wnel iawn amdanai, dalier a charcharer oni wnel iawn; ac ni ddyly vod yn enaid vadde oni bydd kimint y kamm a [52va] wnel ac na allo wnevthvr iawn drosdaw.

[1527]Pwybynac a geissio lladd i arglwydd nev a wnel i vrad, bid enaid vadde.

[1528]Pwybynac a laddo march nev gassec nev vvwch nev ych mewn ty a hyny heb ymwad, tal davddyblic a vydd amdanvnt. [1529]O gwedir, llw davddyblic, nid amgen llw xij o wyr o'i gyffnesaviaid.

[1530]Pwybynac a wertho anivail keilliawc y'w giliδ, ef a ddyly vod iddo ysbaid hyd ymhen y nawettydd,[e] nid amgen haner y gwerth i'r neb a'i pryno,[f] o byδ marw o'r ddisbadd.

[1531]O lliwir i ddyn vod wrth ysbeiliaw[g] [52vb] dyn, nev i yssbeiliaw, os gwadv a wna, rrodded lw l o wyr i wadv. [1532]Am bwn march, llw wyth wyr. [1533]Am dori ty, llw davddyblic. [1534]Am ych ne vvwch, llw wyth nyn. [1535]Am loe ac am affyr nev ddavad nev hwch a baich kefyn, llw v nyn. [1536]Am bob rraith ladrad, haner o wyr nod a haner o wyr dinod, namyn na bo alldvd gani ddyly godor yn i lw. [1537]Alldvd ayd o lan i lan, a thynged yn herwydd pob gwr nod a oedd arnaw.

[1538]Pwybynac a roddo raith am varch[h] nev gasec nev ych nev vvwch a ddyker yn lladrad, ac wedi hyny bod gyr arnaw, i weled ganthaw liw dydd golav, rrodded lw xxxiiij, [53ra] a vijj[i] wyr o bob kymwd y kerddo a'r lladrad ynddo. [1539]Ni ddyleir gwad yn erbyn dogyn vynac.

[1540]Pwybynac a wato dwyn amws yn lladrad, llw xxiiij a'i gwatta. [1541]O holir llaδ amws yn lladrad, llw xlviij a'i gwata. [1542]Pwybynac a yrro ar arall dwyn march disbadd yn lladrad, rrodded lw xij o wyr. [1543]O holir march disbadd yn lladrad, llw xxiiij a'i dywad, ac vellv bob rraith eithr amws ynghyfraith Howel. [1544]Pwybynac a yro ar arall dwyn dyn yn lladrad,

---

[a] *MS* Trydd

[b] *MS* gymel

[c] *MS* vv

[d] o *superscript*

[e] *MS* naettydd

[f] *MS* bryno

[g] *MS* ysybeiliaw

[h] v *superscript*

[i] a vijj] *catchword*

rrodded [53rb] lw xxiiij o wyr j wadv. [1545]Pwybynac a yrro ar arall lladd dyn yn lladrad, rrodded lw l o wyr, a thri onaddvnt heb esgyn march eirioed, a heb wraic eirioed a heb gic eirioed. [1546]J wadv dwyn ki yn lladrad, llw vn dyn. [1547]J wadv dwyn gwyδ nev iar nev edyn, llw vn dyn. [1548]Am ellwng lleidr, llw vn dyn ac nad oes raith vvriedic am ellwng[a] lleidyr ac nad oes wybyddiaid am ladrad. [1549]Pob peth a holer yn lladrad ar na bo rraith vvriedic, llw vn dyn. [1550]Mach a mechni a briduw,[b] ar ranwyr gan vod gwr twng arnaddvnt. [1551]Oni byδ gwr twng, vn dyn [53va] a'i gwatta.

[1552]Pwybynac a dyngo anvdon kohoyddawc, nev gaffel lladrad kyvaddedic ganthaw, nid gair i air o hyny allan herwyδ kyfraith Howel.

[1553]Gwreictra a thrais a galanas.

[1554]Os ki a rvthra dyn a gwaiw yn i law, a myned o'r ki ar y gwaiw, ac nas gwarchayo arno, ni ddyly dalv dim amdanaw. [1555]Os y ki a vrath y dyn a dyvod gwayd ohonaw, taled arglwydd y ki gwerth y gwaed herwydd k*yfraith* i'r neb a vrather. [1556]O dervydd iddo[c] lladd y ki ac na chychwyno [53vb] o'r lle i droed, taled iddo xvj (eraill a dywaid xx), a syrthiaw[d] gwerth y ki oll i'r llawr. [1557]Os kynodedic vydd y ki, a brathv tri dyn ohonaw, nev dynnv allan ne attal tair gwaith, rrwymer y ki wrth droed[e] i arglwyδ a rraff ddwy rrychwant (eraill a ddywaid a rraf ddwy gyvelin), a chamlwrw i'r arglwydd. [1558]O bydd kynddeiriawc, ni ddiwygir i gyflavan.

[1559]Tri gwarthrvdd kenedl: vn[f] onaddvnt govvn pwy a laddawdd hwn; yr ail yw govvn pa elor yw hon; trydydd yw govvn pa vedd yw hwn.
[1560]Tri ytavel nid atverir: vn a ddyker dros ladrad, ac vn [54ra] a ddyker[g] ar vach pan vo negyf o gymell, ac ytavel a ddyker dros alanas.
[1561]Tair gorsedd arf: drws y vynwent, a dadle arglwydd, a'r lle ydd atverer; a chyd gwnel arall gam a'r arvav yn y[h] lleoedd hyny, ni syrth ar yr arvav ddim.
[1562]Tair marw dysdioleth y sydd. [1563]Vn yw, o dervydd bod dadlav y rwng dav ddyn am dir a dayar, a rroddi o'r naill onaddvnt ymhen gwybyddiaid a dwydvd o'r gwybyddiaid rry adaw o'i rieni ganthvnt bod yn wir y dysdioleth, hono y sydd varw dysdioleth. [1564]Ail yw pan vo dadl ymdervynv i gadw o aminiogav tir o ach ac edryf. [1565]Trydydd yw, o hawl dyn dyr a dayar a dangos pentanav i dad nev i hendad nev i orhendad, a lleoedd ydeilad odvn ac ysgvbawr, hono y sydd varw dysdyoleth ac a saif ynghyfraith.
[1566]Tri chargychwyn[i] heb attychwel. [1567]Vn yw gwraic, pan ysgaro yn k*yfreith*iawl a'i gwr. [1568]Ail yw kyswynvab[j] a ddywatto i dad yn k*yfreith*iawl. [1569]Trydydd yw gwr treftadawc a vo yn arglwyddieth arall pan ddel ar i ddyled, yn dadymchwel o k*yfraith* ar i ddyled. [54va]

---

[a] n *superscript*
[b] *MS* breydynw *with n superscript*
[c] o *superscript*
[d] *MS* syrthian
[e] *MS* drod
[f] vn *superscript*
[g] a ddyker] *catchword*
[h] *MS* hyny, h *deleted in ms.*
[i] char *superscript*
[j] *MS* kyswyn vav

[1570]Moch a ddylyir eu[a] kadw rac gwairglawdd bob amser. [1571]O chefir wynt yno, iiij δ k*yfraith* a delir o bob vn onaddvnt. [1572]O delir keiliawc, ai mewn garδ ai ysgybawr, ai ar lin, gollynger o wy o rivedi pob jar a vo yn y ty. [1573]Jar y gyniver gwaith i dalier roddi ev gyddvav mewn forch ne mewn kay hyd ymhen y tair gwaith, ac o hyny allan i lladd nev i prynv o'i perchenawc.[b]

[1574]Ni ddyly neb kolli i ddadl ir syrthiaw yngwallawgair vn waith, oni bydd i syrthio dair gwaith.[c] [54vb]

[1575]O bydd dav ddyn yn kerdded fordd ygyd, a chyvarvod dyn ac wynt a brathv o'r naill y llall onaddvnt ddwy waith, ac nas llwddio y llall iddo ef, ef a ddyly vod yn gyd ddial a'r neb a'i brathws, am nas differws.

[1576]Gwerth gwayd pob dyn, xxiiij δ. [1577]Gwerth goreth, xxiiij δ. [1578]Gwerth eli, xij δ. [1579]Gwerth bwyd y meddic bevnoyth, j δ. [1580]Gwerth i olevad[d] bevnoyth, j δ.

[1581]Od edy dyn dref i dad a myned ar vn o'i genedl a thrigo y gyd ac ef ar y tir, hwnw a elwir kollamnedawc, ac vn vra[55ra]int[e] yw a bonheddic kanhwynawl.

[1582]Tair[f] agweddi k*yfreithi*awl: agweddi merch brenin, xxiiij o bvnoedd, a'i chowill viiij bvnt; agweddi merch vchelwr tair pvnt, a'i chowill pvnt;[g] agweddi merch mab aillt, cxx δ a ffvnt, a'i chowill cxx δ.

[1583]O bydd dav ddyn yn kerdded drwy goed, ac ysgeiniaw gwrysgen gan y blayna ar lygad yr ola, onis rrybvddia, taled iddo i lygad, ac oss rybvddia[h] ni thal ddim.

[1584]Am bob gwaith y bo gwr gan vorwyn arall heb genad i harglwydd,[i] taled xij δ [55rb] k*yfraith* y'w harglwydd.

[1585]Pwybynac a saffo yn y lle y lladder dyn, kyd boed i ddwylaw yn ddiargyoedd taled iij byw gorddwy i'r brenin a llw kanwr.

[1586]Pwybynac a watto baich kefyn nev werth eidion, [rrodded lw pvm nyn].[j] [1587]xij nyn a wata gwerth cxx δ. [1588]xxiiij a wata gwerth pvnt, nev bvnt.

[1589]Pwybynac a ddywetto ar arall anrreithiaw, rrodded lw l o wyr i wadv.

[1590]Pwybynac a ddyko ytavel heb genad arglwydd, kolled j holl dyled a thaled dair byw kamlwrw i'r arglwydd.

[1591]Tri dyn a ddyly ga[55va]lanas ac ni ddyly syrhaed: [k]vn yw dyn a ladder a sayth drwy arall; arall; ail yw dyn a ladder a gwenwyn; trydyδ yw dyn a laddo ynvyd.

[1592]Tri dyn a ddyly syrhaed ac ni ddyly galanas: vn yw kayth. [1593]Ail yw dyn a ddeholer am

---

[a] *MS* ddalier yn

[b] *MS* pechenawc

[c] *MS* gawaith

[d] *MS* oleuab, b *deleted in ms.*, + d

[e] int] *catchword*

[f] i *superscript*

[g] *MS* pvnt, + p *superscript*

[h] taled iddo i lygad *underlined*

[i] h *superscript*

[j] *cf. Coleg yr Iesu LVII*, 76.8

[k] *Hand I resumes here for one column*

alanas ac yn keissiaw i laδ i syrhav; a hwnnw a ddyly i syrhaed, a phe lleddit ni chefit i alanas.
[1594r]Tri dyn a ddyly rran galanas ac ni ddyly talv: arglwyδ ac ynad a rringill.[a]
[1595r]Tri dyn a ddyly talv galanas ac ni ddyly i gaffel: gwraic ac yscolhaic a llowruδ.
[1596r]Tri dyn bonheddic gwirion ni ddylant galanas na syrhaed: dyn a laddo anivail a dyn a laddo ki kyn[55vb]ddeiriawc,[b] a dyn a laddo[c] pren yn i vwrw, gan i rybvddio.
[1597r]Tri maib[d] kayth o rydd yw i meibion wyntav. [1598r]Tri[e] maib rrydd o gayth: ysgolhaic a bardd a gof.
[1599r]Tri maib kayth o rydd yw i mebion wyntav.
[1600r]Tair merched ni ddyly i tad dalv i hebediw, ac wyntav yn talv amobr: merch gwr o dref gyfri heb mab, a merch gwr a ddienyddo arglwyδ, [a merch gwr a dalo gobyr estyn].[f]
[1601r]Tri dyn a ddyly[g] le yn y llys vddvn heb vod ev kefyn ar y pared: y pengwasdrawd a'r penkynyδ a'r troydiawc.
[1602]A oes anghyvarch addevedic[h] [...]

[57ra] [1603][A oes vn lle y dyly][i] [j]estrawn dalv galanas kimint a brawd nev gefynderw? Oes, pan ddigwyddo galanas a dyvod i oed i ddwyn ynte i dad arall, yna y dyly y genedl y bv e gid ac wynt talv yr alanas yn esdronion; a llyna y lle y dyly esdrawn dalv galanas.

[1604r]Tri dyn nid gair ev gair ar ddim: krevyddwr a doro i proffes, a thyst a ddyko kam dystioleth, a lleidr kynodedic.
[1605r]Tri achaws y kyll [57rb] dyn dref i dad: o brad arglwydd, a mvrn, a rrybyddio kyrch kohoyddawc gorwlad ydd el arglwydd iddaw a'i ddiffryd.[k]
[1606r]Tri gwanas gwystl, braich a llaw ac ysgwydd.
[1607r]Tri ffren y sydd rydd i ambriodawr i lladd ynghoed priodawr heb i genad: paladr arff, a ffren gelor, a bagyl ddiowrvd.
[1608r]Tri anivail a a yn ev gwerth yn ev blwydd: davad a gafr a chosdoc tom.
[1609r]Tri anogonyon kyfraith: gadaw[l] praw y'r amddiffynwr, a cheidwaid i'r hawlwr, ac esdrawn yn talv galanas.
[1610r]Tri argay tir, ty ac aylwyd[m] ac ar ac eredic a chlawdd kyva heb i droi: ni ddyleir dangos [57va] ar dor hyny.

---

[a] *MS* rrngill
[b] *Hand II resumes at the beginning of the page*
[c] *Second* d *superscript*
[d] + rry *underlined*
[e] + T *and a blot before this word*
[f] *cf. The Legal Triads of Medieval Wales, Q153*
[g] *MS* ddylly, *second* l *deleted in ms.*
[h] addevedic] *catchword*; *ff. 56r and 56v are blank*
[i] *cf. AL DC III.iii.18*
[j] *Different hand begins here*
[k] *Hand II resumes*
[l] *MS* gadw
[m] *MS* ayllwyd

[1611]Yma y tervyna Llyfyr Kynawc.[a]

[57vb] [1612]Llyma lyvyr a wnayth Howel Dda yn y Ty Gwyn ar Daf,[b] kyd boed hevyd pethav eraill ynddaw o kyfreithiav da a wnayth doythion kyn no hyny ac wedi hyny; a hyn a wnaythbwyd ynghyfraith Howel: kyfraith Howel a ddyleir i chredv. [1613]A chyd doyth yno o wys Howel y chwe gwyr doytha o Gymrv o bob kymwd ynghymrv o leygion, a saith vgaint baglawc o esgyb ac archesgyb ac athrawon da ac abadav, o ddoythion Kymrv oll y tynwyd y devddec doetha o hyny ar nailldv i wnevthvr y gyfraith, a'r vn ysgolhaic hvodla o Gymrv oll i ysgrivenv y gyfraith ac i edrych rrac[c] gwnevthvr dim yn erbyn kyfraith eglwys na chyfraith yr amerawdr.

[1988]Am lai no chenioc, tair pvnt. [1989]Oni aill i dalv, i ddeol a ddyleir. [1990]O chair yn y wlad gwedi [79ra] hyny,[g] dros yr oed y gallo gynta adaw tir i arglwydd, sseith bvnt a ddyleir iddaw; oni chaif vach ar hyny, i ddeol ail waith, ganid ymro ni roddo gwir. [1991]O chair yn wlad y drydedd waith, i ddinyddv. [1992]O genioc hyd yn chwech,[h] ssaith bvnt; oni chaif vach ar hyny, i ddeol a ddyleir. [1993]O chair yn wlad gwedi hyny, i ddienyddv a ddyly.

[1994]Tair ffordd y dylir dienyddv dyn: am ladrad o adde ohonaw e hun, ac o ballu i arddelw iddaw, ac o'i daly ar foadraeth o gwatta ef i ffo.

[1995]Val hyn y provir: llw y deiliad i vod dair nos yn i geisiaw yn i gartreff, ac [79rb] wedi hyny y gayl y'w ddaly yn ffo ac o'i anvodd. [1996]Nid oes[i] lys ar ddeiliaid; nid dim, kanid gair gair vn dyn yn vn lle, onid y naw tavodiawc. [1997]Am ballv rraith am ladrad, tair pvnt a ddyleir. [1998]Naw vgaint a ddyleir am gi ac yderyn a gwyddlwdwn kyd lladradhaer, a llw vn dyn a'i gwatta. [1999]Ni ddyleir kroc ac anrraith ar neb onid na chymyno i dda nev gael dav ladrad ganthaw, a'i anrreithiaw am y naill, a'i grogi am y llall. [2000]Ni ddyleir dienyddv lleidr a rodder ar orvodogayth, namyn i werthv; oni myn ymbrynv gan i [79va] allv, kroger ef. [2001]Ni ddylir krogi lleidr o lleddir vn o ysgrvbyl yn y llys kyn y dadlav, namyn i ellwng yn rydd, a'r neb a'i lladdo, attebed i'r arglwydd o'i leidr. [2002]Ni bydd haloc ty y lleidr o chair y lleidr, a chyn ni chayr, ni bydd namyn am i dda e hvn. [2003]Dirwy kayth am ladrad kynta, chwevgaint; am yr ail, pvnt; am y trydydd, trychv aylawd iddaw, a hwnw vydd lleidr kyhoyddawc.

[2004]Tri ffeth y sydd vn vraint a lladrad yn llaw: i gayl ar i gefyn neu yn i vwrw i wrthaw, a'i gayl dan vn to ac vn klo [79vb] ac ef, a'i gayl gar y vron yn i vwrw.

[2005]O chyll dyn da diwahan vegis eidion, a chayl peth wrth i ddamdwng, ef a ddyleir kayl y kwbl. [2006]Kroc a ddyleir am ladrad, a llosc am ffyrnicrwyth. [2007]Os o gadw kyn koll yr ymarddelw yr amddiffynwr, tynged ar i drydydd o wyr vn vraint ac ef kyn kolli o'r llall y da, i vod ef yn berchenawc ar y da hwnw kyn kolli o'r dyn y da, a henwed y dydd y katwo.

---

[a] ne *superscript*

[b] *MS* byddiaid

[c] *second* i *superscript*

[d] *MS* gweled

[e] *MS* llweylydd *underlined*

[f] u *deleted in ms.*, + v *superscript*

[g] hyny] *catchword*

[h] *MS* chwch

[i] oes] *superscript*

[2008]O myn yr hawlwr anaddwynaw[a] y keidwaid, ef a aill val y llaill. [2009]Ni ellir kadw [80ra] geni[b] a meithrng am dda gwedi el o'r llaw gynta allan, gani ddychon rroddi i lw na wahanwss y da ac ef, ac ni ellir kadw geni a meithrng am beth ni bo enaid ynddo erioed. [2010]Am ellwng lleidr, llw vn dyn i wadv.

[2011]Val hyn y dyleir traythv hawl drais.

[2012]Kynta yw kwyn wrth i arglwydd, kanys kwyn a ddyly vod yn lle y bo anghyfraith. [2013]Gwedi roddo arglwydd ky*freith* a rrwymo pleidie val y dywetpwyd vchod, yna y dyly yr hawlwr bod krair yn i law. [2014]Os yn [80rb] llaw yr amddiffynwr y bydd y da, yr hawlwr a ddyly yna damdwng y da a gair yn i gilidd val y dywetpwyd vchod yn damdwng y lladrad, eithr henwi trais. [2015]A'r amddiffynwr yna a ddyly arddelw o gadwedigayth[c] geni a meithring, nev gadw kyn koll, nev arddelw a'i kymero o'i law. [2016]Ac ef a ddyly oed wrth bob vn o hyny wrth y lle y boent ynddaw, o bydd rraid iddaw, a'r amddiffynwr a aill myned yn erbyn ac ev hanaddwynaw val y keidwaid am y lladrad.

[80va] [2017]Val hyn y dyleir am drais absen.

[2018]Yr hawlwr a ddyly vod krair ganthaw, ac wedi kywirio pleidie, kymered yr hawlwr y krair, a thynged i'r krair dwyn y da i drais o'r gwr; a henwed y da a'r gwr a ffa bryd y kolles. [2019]Ac yna gwade yr amddiffynwr i'r krair yn llym. [2020]Ac yna y barn yr ynad llw dengwyr a devgaint o'r gwyr nessaff ev gwerth a varn ky*freith* ymhob lle i wadv llawrvddiayth, onid lle y bo gwyr diowredawc. [2021]Oni bydd krair gan yr hawlwr, kolled i hawl, a naw vgaint i'r arglwydd. [2022]Onis gwatta yr amddiffynwr i'r krair, taled tair pvnt i'r arglwydd, a'i dda i'r hawlwr[d] oll, ac felly o ffalla [80vb] rraith iddaw. [2023]Ac velly y may herwydd arver a herwydd gwir ky*freith* Howel. [2024]Nid trais onid trais gwraic, kanys diwyn dirwy trais yw gwialen ariant, ac na ddyleir gwialen arriant am drais onid am drais gwraic.

[2025]Val hyn y deleir am anghyvarch.

[2026]Kwyn yn gynta, ac wedi rroddo yr arglwydd ky*freith*, yr hawlwr a ddyly vod krair yn i law. [2027]Ac o bydd y da yn y mays, yna y dyly yr hawlwr i ddamdwng yn ky*freith*iawl val y dywedpwyd vchod, a henwed anghyvarch. [2028]Yna y dyly [81ra] yr amddiffynwr[e] ardelw o vn o'r tri ardelw, ai kadw kyn koll, ai geni a meithrng, ai arddelw a'i kymero o'i law, ac ef a ddyly oed wrthvnt o bydd raid wrth y lle y bwynt. [2029]A'r hawlwr a aill i hanaddwynaw os myn, val y rrai vchod. [2030]O ffalla i arddelw iddaw, taled naw vgaint i'r arglwydd, a'i dda oll i'r hawlwr. [2031]O chaif ef i arddelw, taled y kwynwr naw vgaint y'w arglwydd. [2032]Os yn absen y bydd yr anghyvarch, kymered yr hawlwr krair yn i law, a thynged i Ddvw a'r krair y sydd yn i law dwyn y da [81rb] yn anghyvarch o'r gwr, a henwed y da a'r gwr a ffa bryd y kolles. [2033]Ac yna gwaded yr amddiffynwr i'r krair, ac yna barned yr ynad i llw ar i drydydd o'r gwyr nessa ev gwerth iddaw, a hyny wythnos o'r Svl kynta yn yr eglwys y bo i vara fferen a'i ddwr swyn, a hyny kyn gwaredo'r yffeiriad y wisc i amdanaw na rroi y barra.

---

[a] *MS* anaddwyddnaw, *second* dd *deleted in ms.*

[b] geni] *catchword*

[c] *MS* gawedigayth

[d] *first* w *superscript*, r *superscript*

[e] yr am] *catchword*

[2034]Ac yn yr amser hwnw y dyleir rroi pob raith. [2035]Oni yr yr hawlwr i'r krair, kolled i hawl, a naw vgaint i'r arglwydd. [2036]Oni watta yr amddiffynwr i'r krair, [81va] taled naw vgaint i'r arglwydd, a'i dda i'r kolledic.

[2037]Val hyn y dyleir holi echwyn.

[2038]Ni chyngain kwyn am echwyn namyn hawl heb gwyn, kanid oes anghyfraith yna, ac arglwydd a ddyly beri iawn yn gwyn. [2039]Llyma val y dyly yr hawlwr[a] ddywedvd gwedi darffo ymrwymo ynghyfraith 'messvr vy hawl i ar y gwr rakw nev ar y wraic', a henwed y dyn, 'roddi ohonof i attaw ef i nechwyn', a henwed pa vaint o dda. [2040]'O gwedi di hynny [81vb] y may i mi a'i gwyr'. [2041]Os adde yr amddiffynwr hyny, taled i dda i'r hawlwr. [2042]Os gwatta ynte, mwynhaer gwybyddiaid yr hawlwr. [2043]Llw gwybyddiaid yw tyngv gwybod a gweled; os ariant nev avr yw, tynged weled i rrivo. [2044]O myn yr hawlwr llysv y gwybyddiaid hyny, llyssed gwedi darffo vddvn dyngv. [2045]Dyweded ynte 'llyssiant ky*freith*iawl y sydd genyf arnad val nad gair dy air arnaf; o gwedi di hyny y may i mi ddigawn a'i gwyr ar[82ra]nad ti'.[b] [2046]Od adde eff hyny, byd lyssedic; o gwatta ynte hyny, mwynhayr gwybyddiaid y llall, eithr na chaif oed wrth yr ail gwybyddiaid oni byddant yn y mays. [2047]Os y gwybyddiaid a ddyd ar y ky*freith* y dyly henwi y llyssiant heb i wadv, nid raid iddaw yni henwer, ac yna henwed ai galanas ai dirdra ai gwreictra val y dywetpwyd vchod.[c] [2048]Os yr amddiffynwr kynta a ddywaid 'y da a holaist i mi mi a'i telais yt yn gwbwl; o gwedi di hyny, y may i mi ddigawn a'i gwyr, ar y ky*freith* y do[82rb]daf na ddylaf i talv yr ail tal i ti'. [2049]O gwatta yr hawlwr hyny, mwynhayr gwybyddiaid yr amddiffynwr, a llyssed y llall wynt os myn, drwy wybyddiaid eraill yn y wrth, na chaif oed wrthvnt. [2050]Od adde yr hawlwr kayl y da, bid ar a gavas. [2051]Os yr amddiffynwr a ddywaid 'mi a'th ddivernais di gynt o ky*freith* am y da hwnw; o gwedi di hyny, y may imi ddigawn a'i gwyr'. [2052]Od adde yr hawlwr i ddivarnv gynt, ni ddyly yr ail ky*freith* am yr vn da. [2053]O gwatta yr hawlwr i ddivarnv, mwynhayr gwybyddiaid yr amddi[82va]ffynwr, a llyssed yr hawlwr wynt val y kicle vchod. [2054]Os yr amddiffynwr[d] a ddywaid 'mi a rodda ymhen yr arglwydd bie yr orsedd a'r ky*freith* na bv ky*freith* erioed yrrof i a thydi am y da hwn, a rroi o'r arglwydd i mi ky*freith* heddiw o'r da hwn, ac ymrwymo ynghyfraith amdano; ac ar y ky*freith* y dodaf yr hawl yr ymrwymais i ynddi, y dylaf iawn'; ky*freith* a ddywaid o ffalla yr arglwydd na bv ky*freith* erioed am y da hwnw, y dyleir ateb i'r ky*freith* yr ymrwymwyd[e] ynδi. [2055]Ac od ymaddev wrth y ky*freith*, i wad a ddyly yr amddiffynwr iddi varnv a thalv [82vb] i dda i'r kolledic. [2056]Dyled heb oed, i thalv yn ddi oed.

[2057]Val hyn y dyeleir am adnav.

[2058]Gwedi darffo rrwymo y pleidie yn ky*freith*iawl val y dywedpwyd vchod, messvraw hawl. [2059]Ac o gwatta ef hyny bod iddaw ddigawn a'i gwyr, a gwaded a llyssed y llall wynt val y kicle vchod, nev broved i dalv. [2060]Ac velly llyssed bob vn gwybyddiaid i gilidd val y klowssoch vchod. [2061]Ac velly am bob hawl ni gynghanno rraith vvrieedic nev geidwaid

---

[a] *first* w *superscript*

[b] nad ti] *catchword*

[c] *MS* uchoc

[d] m *superscript*

[e] + w *superscript above the second* w

amdanai, ac ni chyngain am hawl onid lle y kynghano dandwng. [2062]Ac ni chynghain damdwng onid lladrad a [83ra] thrais[a] ac anghyvarch, kanys anghyfraith y sydd yn y rrai hyny, ac ni chyngain rraith namyn yn erbyn gyr ky*freith*awl i grair. [2063]Ac ni chyngain am adnav yr vn o hyny onid messvraw hawl drwy wybyddiaid, kanid oes rraith vvriedic am adnav i wadv na roed ataw y da. [2064]Oes agen val hyn: od adde y keidwad ddyvod y da attaw, a dywedvd tori y ty a dangos y tor ar y ty, a dwyn y da i ganthaw, a dwyn i dda i hvn gyda'r da arall, yna y dyly ef roi i lw a dynion y ty oll y gyd ac ef i vod ef yn iach o'r da hwnw. [2065]Oni bydd [83rb] tor ar y ty, a bod ymrysson y rrwng y keidwad a'r perchenawc am beth o'r da, yna y dyly y keidwad tyngv a'r vn dyn nessaf i werth iddaw i vod ef yn iach o'r da hwnw. [2066]A hyny o raith y sydd rac anghyfaraith y'r arglwydd, ac ir y llyav hyny oll taled y keidwad y da a addevo[b] i ddyvod ataw, oni chleddir y ddaiar a dwyn y da i dan y ddaiar; ni ddyly y keidwad talv kanis yr arglwydd[c] bie y ddayar, ac ni ddyly keidwad vod arnai namyn yr arglwydd.

[83va] [2067]Val hyn y dyleir am venthic.

[2068]Gwedi darffo kweirio pleidie y dyly messvraw hawl: 'o gwata ef hyny y mae i mi ddigon o dystion i roi ohonof i y da ymenthic attad ti'. [2069]O gwatta yr amddiffynwr hyny, mwynhaer tystion yr hawlwr. [2070]Llw tyst yw tysdv ar amddiffynwr a aill i llyssv o dair ffordd: o dyngv anvdon kohoyddawc am ladrad, a galanas, a gwreictra, a hyny drwy wybyddiaid y gaill pob vn llyssv i gilidd val y dywedpwyd vchod. [2071]O myn yr amddiffynwr provi i dalv, ef a aill val y kicle vchod, either na ellir provi talv da kynyrchawl ac na chyngain damdwng da a roer i venthic kyn boed [83vb] ky*freith*awl, ac ni chyngain i'r llall i gadw, kani chyngain kadw namyn damdwng.

[2072]Val hyn y dyleir am loc.

[2073]Dyvod y da pan ddel i oed drachefyn, a'r lloc val y gwnel i amod, val i hadvero i amodwyr o bydd iddo. [2074]Oni bydd amodwyr nid oes namyn tavod yn gyrrv ac arall yn gwadv.

[2075]Val hyn y dyleir am gyffnewid.

[2076]Kymrvd mach ar bob kyfnewid, kanid kyfnewid heb vach, onid tlyssav rredegawc nid raid mach arnaddvnt. [2077]Nid amgen, gwregis a chay a chyllell ky*freith*, oni chair ev goddiwes wr[84ra]th i[d] anilyssv.

[2078]Val hyn y dyleir am lesgedd.

[2079]Sseff yw llesgedd, da a gollo dyn[e] ai ar ffordd ai yn lle arall. [2080]A'r da hwnw a ddyly y perchenawc pa le bynac i gwelo, os o hyny ydd ymarddelw y dyn y may y da ganthaw. [2081]Onid tri da ysydd rrydd i bawb i gymrvd ar ffordd: nodwydd, a phedol, a cheinioc.[f]

---

[a] thrais] *catchword*

[b] a *superscript*

[c] r *deleted in ms.*, + r *superscript*

[d] th i] *catchword*

[e] *MS* gan ddyn

[f] *first* i *superscript*

[2082]Val hyn y dyleir am warche.

[2083]Pwybynac a warchayo na warchayed [84rb] ysgrvbl mewn lle kvddiedic, vegis ymewn[a] ty nev le ni weler, ac na cheled i bod ganthaw, o myn warche yn ky*freith*iawl. [2084]O bydd krevlon dyn am ysgrvbvl a warchaer, ac ev holi yn lladrad nev yn anghyvarch, kadwed y llall yr ysgrvbl yn eiddaw e hvn. [2085]O chwyn dyn gwarche ysgrvbl yn anghyfreithiawl, y deiliad a ddyly tyngv[b] goddiwess boniaid a blayniaid ar yr yd yn ky*freith*iawl, a threch yw i lw eff no chwyn yr hawlwr, onis gwarche kvddiedic. [2086]Ac ni ddyly dyn dwyn ysgrvbl y'w gwarche o'r dre bigilidd.

[2087]Val hyn y dyleir [84va] am gychwyn anghyfreithiawl.

[2088]Nid oes le i holi anghyffraith wahan, ba anghyffraith bynac vo, onid am alldvd a gwarche o'r dre bigilidd, ac am hawl ddadanvdd, mynegi i yrrv yn anghyfreithiawl. [2089]O hawl dyn dda o gychwyn anghyfreithiawl, nid rraid i'r amddiffynwr atteb yny'w gwahano, pa anghyfraith vo. [2090]Ac onis gwahan yr amddiffynwr, govyned yr ynad pa anghyfraith vo kyn barnv, kani wyr pa vrawd a varno yny'w gwahano.[c]

[85ra] [2091]Tri ryw[d] vyrowdyr y sydd ynghymrry herwydd k*yfraith* Ho*we*l Dda: vn yw browdwr o vyraint swydd llys y penadur brenin Aberffyraw nev Dinevwr, a brawdwr kymwt neu gantreff herwydd swydd ymop dadlav[e] y Mhowys a Gwynedd,[f] a browdwr o vraint tir ymop llys kymwt nev gantreff y Nehevbarth, nid amgen no ffob perchen tir a dayar o wr rydd dianaff a ellir i gymell i'r vyrawt ar i lw i grair ac yng kwestv yn gywir.

[2092]Pop browdwr swydd a gaiff iiii δ k*yfreithiaw*l dros bob brawt ar a roddo a dalo *kymeint a hynny*[g] [85rb] i gan y neb y barner iddaw i hawl nev gan y neb y barner arnaw. [2093]Browdwr o vyraint tir, ni chaif werth dros i vrawt, kanys ardyreth i dir yw y gwyssanaeth hwnw. [2094]Herwydd vellv y bv kyn gwnethvr kyvraith Hywel Dda irr yn amsser Dyffynwal Moelmvd, ac y gysoded yng k*yfreith* Howel Dda bot dedyryt gwlat lle y roddo y ddwy bylait o gydhvndeb, a lle nis rroddont. [2095]Kyffyraith a'i tervyna pop peth ar a holer drwy gyffyraith, kanys ynddi y may kyffiownder.

[2096]Tri achos y gellir [85va] gwrthod browdwr: vn o'i vot yn anghyffyredin kyn barn, ac o'i vot yn ranoc ar y peth y boer yn dadyle amdano, y trydyδ kymyryt gobyr anghyvyreithiawl i gymyryt ar ni bo kyffyraith yn i varnv.

[2097]Ysbait pop browdwr i rroddi brawt rwng dadylevwyr, xv niwyrnot; onis gwybydd yn hvawdyl kanys hyn*n*y yw oed dadylav o gyffyraith Hywel Dda. [2098]Ac os browdwr o vyraint swydd a eirch oet dydd hwy no hyn*n*y ar ni wypo i vyrawt, kollet i swydd hep amgen boen arnaw; kanis ni ddyly swydd hwy noc [85vb] ymetyr o wnethvr gwssaneth yn i amser.

---

[a] n *superscript*

[b] *MS* tyrngu, r *deleted in ms.*

[c] *Remainder of page is blank apart from the catchword*

[d] Tri tyw] *catchword*

[e] *MS* davlav

[f] *MS* gwwynedd

[g] *MS* nyd; *from J, Coleg yr Iesu LVII, 45.12*

[2099]Tri ffeth ni ddyly lliaws o vyrwdwyr i wneuthur hep genat yr arglwydd a'r pyleidiev: bwyta, nev yffet, nev ymwahanv.
[2100]Tri devnydd hawl yssyd: gair, a golwc, a gweithyret.
[2101]Tri gwallowgair y sydd: gair y bo gweli tavot amdano, a gwallowgair yn y llys, a gwallowgair ar k*yfraith* am ladd neu losg neu ledyrad. [86ra]
[2102]Tri modd[a] y bydd kamlwrw: vn yw am anaddawt a wneler yn erbyn y brenin, a hwnnw a a ddamweinia o lawer modd. [2103]Ail yw gwnethur peth kamgyleus anghyvyreithiawl yn erbyn brenin yn i lys neu oddige i lys. [2104]Trydydd yw gwneuthur peth yn erbyn i wyr nev y denantiait i wlat yn anghyvreithlon ac y perthyn kamlwrw amdanunt.

[2105]A llawer modd y damweinia i ddyn[b] wnethvr kwl yn erbyn i arglwydd pryssenawl. [2106]Nit amgen dwyn i nythot i adar, torri i goet ne i dai, lladd i ledveginot nev i aniveiliait, kelv i bydavav o'r tayogav, bwrw koed derw ar i fforth [86rb] lle delai, torri ffyrdd nev dervynav k*yfreithiawl* mesvrawl, a'i llwybryrav k*yfreithiawl* a'i hwylvedd k*yfreithiawl*. [2107]Gollwng aniveiliait y'w rrwydav k*yfreithiawl*, torri gwarchav nev i lvddias gwarchav, kelv i vesobyr, tyngv anvdon kyhoeddoc, ac am anghywirdeb iddaw yngkwesti bwyta nev yffet, nev hwahan i wrth i gymdeithion kyn dedyrvd y varn. [2108]Nev arwain arvav lle nis dyleit, oddiaith y tair gorrssaff aryff nev y tair gorssaff gwaywff kyffreithiawl; lladd adar ni ddyleir i lladd ar dir dyn arall hep i genat; ac am grwyn y tri ffryff a ddyly y [86va] brenin i krwyn pa le bynac i lladder; ac am yr adar a ddyly i gwerth; ac am vynet ar ynaid yng kyngor hep i erchi, gwarchev o'r dre i'r llall.

[2109]Tri ryw gamlwrw y sydd: kamlwrw vndyblic, a chamlwrw davdyblic, a chamlwrw tridyblic.
[2110]Tri modd y kollir kamlwrw vndyblic: o vethlu yr howlw yn holi, nev na chyll[c] hynno; nev o vethlv yr amddiffyn i amddiff*ynnwr* o dremygv y dadylav hep esgussot drostaw k*yfreith*iawl yn y llys; y trydyδ drwy varn k*yfreith*.
[2111]Tri modd y bydd [86vb] kamlwrw davddyblic: vn yw pan daler gweli tavot y arglwydd, ail yw pan ddinesao dyn ar yr yngynat yn barnv a bydd y brenin yn y lle, trydydd yw pan wyssier dyn yn erbyn arall yn gaddav i holi a'i ddyvot ef a'r cwynwr rac bron y brenin y'r llys ac yna kiliaw o'r kwynwr rac bron.
[2112]Tri modd y bydd kamlwrw tridybylic: vn yw am y tair affaith diwaetha o affeithiau galanas o ffalla y raith[d] y'r affeithwyr, sef yw, lle gomeddo [87ra] amddiffynwr[e] gwibiawdyr a mach drosdaw ar ddyvot a'i wyssiaw deir gwaith o blygit y breni*n* heb ysgvssod k*yfreith* drostaw yn y dadylev. [2113]Tryddydd ar hawlwr gwibiawdyr a mach drostaw ar galyn i ddadyl, a'i alw deir gwaith ymop vn o'r tri dadylav; camlwrw am bob vn y'r arglwydd, a'i adel ef yn rrydd o'i hawl, obylegid na ddoeth ef i'r dadylev kyntaf.

[a] Tri modd] *catchword*
[b] *MS* ddym
[c] *MS* chyl
[d] *MS* yr yvraith
[e] amddiffynw] *catchword*

[2114]Tri dyn ni dyly kamlwrw arnvnt: arglwydd, a'r neb a vo trosto yn holi, ac ynat, kanys gwell yngynadiaeth no dim prysenawl, [87rb] a mab llai no ffedeir blwydd ar ddec o oet kanys kosb y tat y sydd arno.
[2115]Tri dyn a dal abediw hep dir: bonheddic kanhwynawl, a gwr kyvarwyssawc, a map pedeir blwydd ar ddec. [2116]Y mab aillt[a] a ddyly bod yn arddelw o hynny allan a'i abediw yw dros yr arddelw.
[2117]Tri ffeth nit rait praw arnvnt: nid rait praw ar addef, namyn i dystv; nit rrait praw ar ddiddim i vot yn [87va] ddiddim, namyn provet y llall nat ddiddim ef; trydydd[b] ar vyrawt eithyr tystiolaeth ynat i bwy y barnawdd hi.

[2118]Llyma gyniver ffordd y sydd i holi tir a dayar yn gyvyreithiawl.
[2119]Hawl briodolder, iach ac edyryt yw hynny; a dadanudd, ac ymwrthyr, a mamwys, ac ymdervynv, a hawl gyffyran, a hawl adyran, a gorffen ran, a hawl gyhyd.

[2120]A llyma val y dyleir holi tir o ach ac edyryf.
[2121]Kyntaf yw kyff[87vb]yroi hawl yn ix niev kalan gayaff nev yn naw niev Mai, ac onis hawl yn vn o'r ii ix dydd hyn*ny*, ni chaiff atteb yni ddel y llall. [2122]Os yn ix dyδ Mai yr hawl, atep a ddyly kyn nawetyδ kalan gayaff. [2123]Oni chaiff atep yna, holet naw niav Mai elchwyl; ac oni i chaiff yna, ni bydd kayat k*yfreith*, ac ni bydd kayd kyvyraith vyth o hynny allan pan vyno arglwydd rroddi kyffyraith iddo, eithyr y dyddiev dyddion. [2124]Seff yw y dyddion, o nos y Nodolic gwedi gossber hyt duw Kalan gwedi yfferen, ac[c] o nos Basc gwedi gosber hyt duw [88ra] Pasc[d] Bychan gwedi yfferen, ac o nos Sadwrn y Svlgwyn gwedi gosber hyt duw Ssvl y Drindot wedi yfferen.
[2125]Gwedi darffo kyffyroi val y dywedassam ni vchod, yr arglwydd a ddyly[e] kyn gwrandaw hawl kymyryt edyrvt henaffgwyr y wlat am yr iach a'r edyryd, ac oni gan yr iach, ni ddyly wrandaw dim. [2126]Os gwir yr iach val y dyly vot y'r howlwr, yr arglwydd a ddyly dyvynv yr ymddiffynwr i'r maes i atep iddaw. [2127]Yna y dyly yr howlwr mynegi mesvr i hawl ar y tir a'i dylet. [2128]Yna y dyly yr amddiffynwr galw am oet wrth i borth [88rb] i atep, a dodi ar y k*yfreith* y dyly. [2129]Yna y dyly yr ynat barnv oed i atep, herwydd pellet yr howlwr i wrth yr amddiffynwr. [2130]Os yn vn kymwt ac ef, tridiav. [2131]Os yn yr ail kymwt y bydd, pvm niev.[f] [2132]Os yn y kantreff arall y bydd, naw niav a gayf i atep. [2133]A gwedi yr ateppo, a roi o'r arglwydd y gyffraith ryngthvnt, a galw o'r howlwr am vach ar a varno k*yfreith*, yr amddiffynwr a all yna galw am oed i geisiaw mach kyt a'r oet i atep. [2134]Pan del yr oed hwnnw, y dyly yna yr amddiffynwr dangos y meichie ac ev roddi yme[88va]ddiant yr arglwydd, yni vo dosbarth y k*yfreith*. [2135]Ssef meichie a ddyleir am k*yfreith* tir a dayar: gwystlon o ddynion byw; dav ddyn nev a vo mwy o bob plaid o wyr vn vraint a'r blaid y ddel drosdi, a'r rrai hyn*ny* nid oes nawdd vddvnt yn vn lle, nac yn eglwys nac yn lle arall. [2136]Ac ni ddyly hawlwr oed i geisio mach. [2137]Yn y trydyd oed y dyly k*yfreith* vod, ac ni ddyly k*yfreith* vod namyn ar tir. [2138]Gwedi darffo i'r oydav oll a ddyvod y dadlav ar y tir y dyly yr

[a] *MS* aill
[b] *MS* trydd
[c] + c *superscript*
[d] Pasc] *catchword*
[e] *MS* ddylyf
[f] *Something superscript*

ynad kweirio pleidie yn ky*freith*iawl, val y dywedpwyd vchod, ac erchi o'r ynad i'r pleidie 'ymddywedwch weithian'. [2139]Yna y dyly yr hawlwr menegi [88vb] i vod ef yn wir briodawr ar y tir hwn a'r ddayar o ach ac edryf, ac y dyly i gael ef; o gwatta ef i ddyled, bod iddo ddigon a'i gwyr i bod yn wir ddyled, a bod iddo ddigon o geidwaid a gattwo i briodolder, a dodi ar y ky*freith* y dyly gwbwl o'i ddyled a'i briodolder, ac od air yn i erbyn, y dyly mwynhav i wybyddiaid a'i geidwaid. [2140]Yna y dyly yr amddifynwr atteb o wadv, nev adde, nev arddelw ky*freith*iawl val na ddyle[a] na gwadv nac adde. [2141]Os adde a wna yr amddiffynwr hyn*n*y, barner i'r hawlwr vessvr i hawl. [2142]Os gwatto ef, mwynhayr gwybyddiaid yr hawlwr, a llysed y llall wynt os dichon. [2143]Ac nid [90ra][b] rraid[c] yna amhiniogav tir na gwyr gorffdref, kanys provi dyled y maynt, ac nad provi kyfran. [2144]Os yr amddifynwr a ddywaid 'kyfran ky*freith*iawl tir a dayar a vv y ryngof i a thydi, ac i ti y doeth y lle ar lle, ac y may hwnnw genyd yn dv a thal am y tir hwn; ac o gwedi di hyn*n*y, y mae i mi ddigawn a'i gwyr, ac ar y gyfraith y dodaf na ddyli di yr ail kyfran genyf i'. [2145]Os gwadv a wna yr hawlwr hyny, mwynhayr gwybyddiaid yr amddifynwr a llysed y llall wynt o vn o'r tair fordd y llysyr [90rb] gwybyddiaid: galanas, a dirdra, a gwreictra; a raid yw ev bod yn amhiniogav tir hefyd. [2146]Ac o fyna y vrawd, divarner yr hawlwr. [2147]Os ef a ddywaid 'araphawl yw dy hawl', traythe r val y kicle yngod. [2148]Os yr amddifynwr a watta ach ac edryf, nis dichon, kanys hynafiaid y wlad a'i hadverodd.

[2149]Pwybynac a gynhalio tir dair oes gwyr yn vn wlad a'r priodorion, a heb wnevthvr ohonvn vn o dri thwrwf ky*freith*, ni wrthebir vyth[d] vddvnt am y tir hwn*n*w, [90va] kan rrygaws ky*freith* y rryngthvnt. [2150]O gwnant wyntav vn o'r tri ffeth hyn, ai torri aradyr, ai llosgi ty, ai lladd kelain, ni ddiffydd i hawl hyd ymhen y nawed ach.[e] [2151]A diasbad hwn*n*w yn myned i briodawr yn amrodawr ach a wrandewir ynghyfraith, a hono a elwir diasbad ach vwch aduan, a wrandewir. [2152]Yna y dyly hwnw dodi disabad vwch aduan, ac y dyly ynte kaffel kynnic. [2153]Seff yw hyny, kimint a'r gwr mwyaf i warchadw. [2154]Ni ddyleir kynic tir lloc i neb ymlaen i gilidd, hyd yn oed tail. [90vb] [2155]Pwybynnac y barner gwarthec arno, yn i ddewis y bydd ai talv y gwarthec, ai ev gwerth kyfraith.

[2156]Val hyn y dyleir holi dadanvdd.

[2157]Tri rryw ddadanvdd ysydd: dadanvdd ty ac eredic, a dadanvdd kar, a ddadanvdd bwrn a baich.

[2158]Ni aill neb holi dadanvdd onid am dir a oedd yn llaw i dad pan vv varw, ac yn i law ynte e hvn, a'i yrrv ynte i ar y tir yn anghyfreithiawl. [2159]Yna y dyly yr hawlwr kyffroi hawl yn vn o'r naw nie kynta [91ra] o'r Mai,[f] nev o'r naw nie kynta gwedi kalan gauaf, ac onis kyfry yn vn o'r ddav ddydd hyny, ni chaif atteb yni ddel y llall. [2160]Os yn naw nie Mai i hawl, parod y dyly gayl atteb kyn naw nie kalan gayaf. [2161]Ac oni chaiff atteb yna, holed yr ailwaith yn y naw nie hyny. [2162]Ac wedi kyffro ef i hawl yn y ddav amser hyny, ni bydd kayad ky*freith* iddo byth pan vyno arglwydd roddi ky*freith* iddo. [2163]Gwedi roddo arglwydd ky*freith* iddaw a chwyirio pleidie val y dywedpwyd vchod, ac erchi ar ynad i'r pleidie

[a] *MS* ddyly, *second* y *smudged*, + e *superscript*

[b] *No f. 89, but the catchword corresponds to the first words on f. 90r*

[c] raid] *catchword*

[d] *MS* vydth

[e] *MS* ac

[f] or mai] *catchword*

ymddy[91rb]wedvd, yna y dyly yr hawlwr mynegi i vod ef yn kyfanheddv y tir hwnw o dy ac aylwyd ac eredic ac aylwyd ky*freith*iawl, a'i yrrv yn anghyffreithiawl i ar y tir, ac anhvddaw i aylwyd yn anghyfreithiawl. [2164]'Ac o gwedi di hyny, y may i mi ddigawn a'i gwyr, ac ar y gyfraith y dodaf yr aylwyd a anhvddiwyd yn anghyfreithiawl y dylaf i i dadanhvddaw yn ky*freith*iawl'. [2165]Yna y dyly yr amddiffynwr dywedvd vn o ddav atteb, ai gwadv i yrrv i ar y tyr yn anghyfreithiawl, [91va] ai ynte dywedvd 'o ddadanvdd y devthvm i i'r tir hwn'. [2166]Os gwadv i yrrv yn anghyfreithiawl a wna, mwynhayr gwybyddiaid yr hawlwr, ac o myn yr amddiffynwr llyssv y gwybyddiaid hyny llyssed o vn o dri llyssiant: ai dirdra heb ddosbarth, ai galanas heb ymddwyn, a gwreictra, a hyny gwedi darffo vddvnt tyngv yr hyn a brovwynt. [2167]Ac velly lyssed bob vn gwybyddiaid i gilidd drwy wybyddiaid eraill yn y mays. [2168]Ac o ffyna gwybyddiaid yr hawlwr, barner iddo ddyfod drachefyn i'r lle y gyrwyd o[91vb]hono yn gyfreithiawl i ddadanhvddaw yr aylwyd a anhvddossid gynt hyd ymhen y vlwyddvn, heb atteb i neb ar a'i holo. [2169]Ac ni vernir ef yn briodawr yna, namyn i vod yn warcheidwad hyd yr oed vchod, ac yna atteb i'r neb a'i holo, oni bydd dwyn keidwaid ohonaw ar ddechre i hawl ac i briodolder y gyda'i wybyddiaid. [2170]Ac os dwc y keidwaid y gyda'i wybyddiaid, ni ellir kyfro arno vyth. [2171]Onis dwc, ef a ellir i holi pan ddel y'r oydav vchod.

[2172]O myn y gwr amddiffynwr yn gynta i holi ef, val hyn y dyly y δwedvd. [2173]Gwedi darffo ymrwymo [92ra][a] ynghyfraith,[b] mynegi i vod ef yn briodawr ar y tir hwnw, a digawn o geidwaid a gatwo i briodolder ganthaw, a bod gormes anghyfreithawl arnaw, a henwed y gwr y sydd ormes arnaw. [2174]'Ac o gwedi hynny, dy vod yn ormes anghyfreithiawl, y mae i mi ddigawn a'i gwyr, ac ar y ky*freith* y doda y dylaf mwynhav vyngheidwaid a'm gwybyddiaid'. [2175]Yna y dyly yr amddiffynwr ddywedud 'myvi y sydd briodawr ar y tir hwn a'r ddayar,[c] a digawn ym o geidwaid a gattwo vymbriodolder, ac ar y ky*freith* y dodaf vod iownach i mi gadw y tir yssydd i'm llaw noc i ti gadw y tir nid ydiw i'th law a ni ddyly vod, ac ar y ky*freith* y dodaf kyt henwych di dy geidwaid yn gynta, [92rb] a'th wybyddiaid, pan yw y keidwaid ky*freith*iawl a ddyleir ev mwynhav yn gynta; a ffan yw vn o'r lle y dyly keidwaid vod i gadw tir, ac na chyngain i ti gadw y tir, nid ydiw i'th law, kani cheidw gwaglaw'. [2176]Yna y dyly yr ynad kymrvd keidwaid yr amddiffynwr yn gynta kyd adawer yn ddiwaytha, kanys yr arddelw ky*freith*iolaf[d] a ddyleir i gymrvd yn gynta. [2177]Ac o bydd da y keidwaid, barner iddaw y tir yn dragwyddawl. [2178]O metha y keidwaid, divarner yr amddiffynwr, ac wedi hyny mwynhayr gwybyddiaid [92va] yr hawlwr a'i geidwaid ar y tir hwnw. [2179]Ac o byddant kwbwl, barner iddaw y tir; ac oni byddant kwbwl,[e] barner y tir i'r arglwydd herwydd a y rwng y ddev wr hyny, oni bydd dyn arall a brovo i vod yn eiddo ef y tir amgen no'r rrai kynta a ddadlevodd.

[2180]Ac velly yr holir dadanvdd kar, ac velly yr holir dadanvdd bwrn a baych, ac nid rraid yna amhiniogav tir na gwyr gorfdref i brovi i yrrv yn anghyfreithiawl i ar y tir, val y dyleir i brovi dyled am dir. [2181]A rraid yw i'r neb a'i katwo y tir kwbwl geidwaid o amhiniogav tir a gwyr [92vb] gorfdref. [2182]Ssef yw gorfdref, rrandireδ a gynvller o drefi

[a] *First section of the page by Hand I*

[b] ynghyfraith] *catchword*

[c] *Hand II resumes*

[d] *MS* kyolaf, + i *superscript*

[e] kwbwl] *deleted in ms.*

vchelwyr a gyfrano ev tervynav, a thervyn y dref y bo y dadle ynddi, ac o rrai hyny y kair amhiniogav tir. [2183]Ac o dyd yr hawlwr yn erbyn y keidwad na heniw o orfdref, ynte a aill dywedvd i hanvod o orfdref, a digawn o geidwaid iddo a gattwo braint gorfdref; ac nid rraid y keidwaid hyny namyn yn addwyn vreiniawl. [2184]Os yr amddiffynwr kynta a ddywaid yn erbyn yr hawlwr dadanvdd 'o ddadanyδ y doythym y tir a'r ddaiar, a digawn [92'ra][a] ym[b] o geidwaid a gatwo braint dadanvdd ac ar y ky*freith* y dodaf na ddyly dadanvdd ddyvod ar dor i gilid', yna y dyly yr hawlwr dywedvd 'ydd wyt ti yn gwarchadw y tir hwn yn hwy no braint dadanvdd; o gwedi di hyny, y may i mi ddigawn a'i gwyr, ac ar y ky*freith* y dodaf gwedi elych di dros vraint dadanvdd, y dylaf ine ddadanvdd ar dy dor di'. [2185]Yna y dyly yr amddiffynwr dywedvd 'mine a ddywedais pan yw o ddadanvdd y devthvm i i'r tir hwn, ac a arddelwais o geidwaid i gadw braint [92'rb] dadanvdd genyf, ac ar y ky*freith* y dodaf y dylaf mwynhav vyngheidwaid yn gyntaf'. [2186]Yna y dyly yr ynad kymrvd keidwaid yr amddiffynwr, ac o bydd ansavedic ac addwyn, divarner yr hawlwr hyd tra vo braint dadanvdd iddaw: ssef yw hyny, braint dadanvdd. [2187]Os dadanvdd ty ac eredic a vernir i ddyn, oed vn dydd a blwyddyn a ddyly yn ddihawl, ddiatteb i neb. [2188]Os dadanvdd kar a vernir i ddyn, pvm niav a ffvm nos a gaif o orffowys yn ddihawl. [2189]Os dadanvδ bwrn a baich a vernir i ddyn, tridiav [92'va] a thair nos y kaif orffowys yn ddihawl, heb atteb i neb or a'i holo.

[2190]Val hyn y dyleir am ymwrthryn.

[2191]Ni ellir ymwrthryn namyn y rwng dav a vo yn eisde ar yr vn tir, a ffob vn yn dywedvd vod yn eiddo gwbwl o'r tir. [2192]Ac ir hyny, y neb kynta a gyfro am y tir a ddyly vod yn hawlwr amdanaw, a chyfroi hawl yn naw niav kalan gayaf nev y naw niav Mai val y dywedpwyd vchod. [2193]Ac wedi rroddo yr arglwydd ky*freith* yrryngthvnt, a chyweir[92'vb]io pleidie, ac erchi o'r ynad vddvnt ymddywedvd, yna y dyly yr hawlwr messvraw hawl[c] a menegi i vod yn briodawr ar y tir a'r ddaiar hwnw, a digawn o geidwaid iddaw a gatwo i briodolder, a digawn a wyr iddaw dyvod y tir iddaw o ran. [2194]A dodi ar y ky*freith* y dyly mwynhav[d] y gwybyddiaid a'r keidwaid. [2195]Yna y dyly yr amddiffynwr dywedvd i vod ef yn briodawr ar gwbwl o'r tir hwnw a'r ddaiar, a bod iddo ddigawn o geidwaid a gatwo i briodolder ar y tir ganthaw, a digawn o wybyddiaid iddaw a wyr dyvod iddo y tir hwnw o ran. [2196]A [93ra] dodi[e] ar y ky*freith* y dyly ef mwynhav i wybyddiaid a'i geidwaid yn gynta, kanys ef y sydd warcheidwad ky*freith*iawl ar y tir hwnw. [2197]Yna y dyly yr ynad kymrvd y kyngevsseddav, ac oni bydd tysdiolaythav a'i llvddiaw, kymered ef wybyddiaid yr amddiffynwr a'i geidwaid yn gynta, a llyssed y llall wynt os dichawn. [2198]Ac wedi darffo traythv y rrai hyny, mwynhayr gwybyddiaid yr hawlwr a'i geidwaid, a llyssed y llall wynt os dichon. [2199]Ac ni aill neb yna o'r ddwy blaid ddwyn gwybyddiaid na cheidwaid onid o orfdref. [2200]O metha i wybyddiaid a'i geid[93rb]waid i'r naill, divarner ef o'r tir. [2201]O metha i bob vn i wybyddiaid a'i geidwaid, rraner y tir y rryngthvnt yn ddav haner. [2202]O metha i bob vn, divarner pob vn.

---

[a] *There are two f. 92*

[b] ym] *catchword*

[c] *MS* awl

[d] *MS* mewynhau, e *deleted in ms.*

[e] dodi] *catchword*

[2203]Val hyn y dyleir holi mamwys.

[2204]Tair merched ni ddyleir dadle ac ev hytivedd am dir o barth ev mam: mab gwraic vonheddic a roddo kenedl i alldvd; a mab gwraic a rodder[a] yngwystl dros genedl, a chayl mab a hi yngwystl;[b] a mab a ddialo gwr o genedl i vam a[c] cholli tref i dad o achaws y gyflafan hono.

[2205]O myn [93va] mab gwraic a rodder i alldvd holi mamwys, val hyn y dyly: dyvod ar yr arglwydd ac erchi iddo iawn a chyfraith. [2206]Yna y dyly yr arglwydd dyvynv i genedl ynte i adde iddaw, nid amgen brodvr i vam a'i chefynderw a'i chyfyrderw, kanys y rrai hynny a ddyly vod yn rroddiaid arnai, kanis ar ev tor hwy y daw mab ev kares os rroddant i alldvd. [2207]Kanys graddav tir yw y rai hyny, ac ni aill vn dyn ellwng[d] neb i vamwys na thretadogi neb na'i dragwyddoli heb ddyhvndeb y tair gradd vchod. [2208]Ac wedi delwynt i'r dadlav, y [93vb] dylant gwnevthvr vn drosdvnt, a rroi koll a chayl ymhen hwnw, ac i hwnw gweirio plaid gyfreithiawl. [2209]Gwedi darffo kweirio y pleidie ac erchi o'r ynad vddvnt ymddywedvd, yna y dyly yr hawlwr mynegi i vod ef yn vab i alldvd o Kymraes vonheddic, a rroi o'r gwr a ymrwymodd ac ef (a henwed y gwr a'i genedl) i vam ef i alldvd yn anghyfreithiawl, a'i alldvdaw ynte o dref tat. [2210]'Ac o gwedi di hynny, y may i mi ddigawn a'i gwyr, ac ar y ky*freith* y dodaf, gan na alldvdassochi[e] vyvi o dref tat y dylaf ine dir o barth vy mam'. [2211]Yna [94ra] dyly yr[f] amddiffynwr ateb o wadv nev adde nev ardelw ky*freith*iawl val na ddyly ateb. [2212]Os i wadv, mwynhaer gwybyddiaid yr hawlwr, a llyssed y llall wynt os dichawn, val y kicle vchod. [2213]O fyna i braw, rran a gaif o'r tir kimint ac vn o'r brodvr i vam, eithr y tyddyn arbenic. [2214]Ni ddyly iawn ohono hyd y drydedd ach. [2215]Os adde a wna, rraner ac ef val dywedpwyd vchod. [2216]Os yr amddiffynwr a ddywaid 'nid merch dy vam di i'r gwr a ddywedi di, ac ni ddylewn ninav ateb i ti o'r hawl hon', yna dyweded yr hawlwr 'mi a [94rb] ddodaf ar y ky*freith* na ddyly neb gwadv i gilidd ar y pyrthyno iddaw ran tir ac ef, a gwir yw hyn*ny*'. [2217]Os yr amddifynwr a ddywaid 'tref tat y sydd i ti yn y lle a'r lle; o gwedi hynny, y may i mi ddigawn a'i gwyr, ac ar y ky*freith* y doda na ddyly treftadawc vamwys', od adde ef hynny, bid ar dref i dad. [2218]Os gwata ynte mwynhayr gwybyddiaid yr amddiffynwr. [2219]Os yr amddiffynwr a ddywaid 'araphawl yw dy hawl, ac ni ddylaf i atteb i ti o'r hawl honno, a mi a ddodaf ymhen y llys rrygyfroi hawl [94va] ohonot ti arnaff vi am yr hawl hon gynt, a thewi ohonod gwedi hynny vn dyδ a blwyddvn, ac ar y ky*freith* y dodaf na ddylyaf i atteb i ti bellach', o ssaif yr arglwydd ar gyffroi hawl gynt ohonaw a thewi a hi vn dydd a blwyddvn, ni ddyleir vyth atteb i'r hawl hon*no*. [2220]Os yr amddiffynwr a vyn dywedvd yn erbyn yr hawlwr 'mi a'th ddivernais di gynt o ky*freith*; o gwedi di hynny, y may i mi ddigawn a'i gwyr', dyweded ef yr ymadrawdd hwnnw kyn ymrwymo ynghyfraith arall. [2221]Onis dywaid, [94vb] rraid yw atteb i'r ky*freith* yr ymrwymwyd ynddi.

[2222]O myn mab gwraic a wystler holi mamwys, val hyn y dyly: val y kicle yn y llall vchod, hyd yn oed messvraw hawl. [2223]Yna y dyly mab menegi roddi o'r gwr hwnnw a'i

---

[a] e *deleted in ms.*, + e *superscript*

[b] + dros *encircled*

[c] *MS* a a

[d] *MS* ell g *with a space for the other letters*

[e] *MS* allddvdassochi, *second* d *deleted in ms.*

[f] dyly yr] *catchword*

genedl graddav tir i vam ef yn gwystl drosdvnt hwy yn anyledvs, ac yn y gwystl hwnnw dwyn trais o alldvd arnai, a'i gayl ef o'r trais hwnnw. [2224]'Ac o gwedi di hynny, y may i mi ddigawn a'i gwyr; ar y ky*freith* y dodaf gan rroddassochi vy mam i drossoch yn lle ni allassoch i chadw rrac[a] trais, y dylaf inav ran tir i genwch chwi'. [2225]Yna y dyly yr [95ra] amddiffynwr[b] atteb iddaw o wadv, nev adde, nev arddelw val y vamwys arall vchod. [2226]Os i wadv a wna, mwynhaer gwybyddiaid yr hawlwr, a llyssed y llall. [2227]Os dichawn wynt[c] ac o ffyna i braw, rran a gaif. [2228]Os yr amddiffynwr a arddelw na ddylant ateb,[d] ardelwed val y vamwys arall vchod. [2229]Os amddiffyner mamwys a ddywaid 'pa vamwys bynac vo dy vam di a ymroes o'i bodd i'r gwr', a cheisiaw dwyn gwybyddiaid ar hynny, nis dyly; kani chyngain praw ar varw. [2230]A chyd boed byw, [95rb] ni ddyly, kani ddyly neb atteb iddaw ef namyn y neb a ymrwymodd ac ef, ac nid ymrwymodd y wraic ac ef.

[2231]Os mab a ddialo gwr o genedl i vam ac a gollo tref i dad a hawl mamwys, holed val y kigle vchod oll ymhob pwnk; eithr henwi messvr i hawl pa ffordd y kolles tref i dad i hvn, a dwyn praw ar hynny val y llaill.

[2232]Val hyn y dyleir am gyfran.

[2233]Kyfran a ddyly yn gynta y rrwng brodvr: y mab ieva a ddyly dewis y tyddyn ac a vo o dai ar yr wyth erw, os vchel[95va]wr vydd. [2234]Ac o hyna i hyna dewisent y tyddynav, ac i bawb a vo ar i dyddyn o dai. [2235]Ac wedi hyn*ny*, raned y mab ieva ymhob lle, ac[e] o hynaf i hynaf dewisent. [2236]Ac wedi hynny, kefnderw a ddyly adran, eithr na ssymvd neb o'i dyddyn rrac i gilid, kanis kimint yw y tyddynav, ac na ddyly neb vod yn adeilwr[f] y'w gilidd. [2237]Velly y dyly kyfyrderw adran, ac wedi y trydydd ran, kadwed bawb i ran ganthaw yn gyfreithiawl drwy geidwaid o amhiniogav tir. [2238]Os mab aill vydd, pedair erw a ddyly vod ymhob tyddyn a rranv, a dewisso ac adran vch y llall vchod.

[2239]Val[g] hyn y dyleir [95vb] am gyhyd.

[2240]Ni ddyleir kyhyd yn vn lle onid mewn tref gyfrif, ac yn y dref honno y dyly pawb kimint a'i gilidd, ac nid kysdal. [2241]Ac yn y dref honno y dyly meibion dir ymywyd ev tat, eithyr y mab ieva a ddyly aros marw i dad, kanys yn lle y tat y dyly vod. [2242]Y neb a alwo am dir yn y dref gyfrif, ef a ddyly ddewis tyddyn yn y lle gwac y myno heb dy ynddaw, ac wedi hynny kyhyd a ffawb. [2243]Ac wedi hynny, o gwrthyd y tir a galw am dir gwedi hyn*ny*, nid nes iddo gayl y tir a vv yn i law gynt no thir arall, oni bydd gwac heb gymrvd o neb.

[96ra] [2244]Val[h] hyn y dyleir am orffen rran.

[2245]Pwybynac a gaffo dechre rran, ef a ddyly gayl rran gwbwl, kan ni ddyryllia ky*freith* i ddyled a neb onid amod a'i gwna. [2246]O bydd vn a vyno holi gorffen rran, val hyn y dyly. [2247]Gwedi darfo kyweirio pleidie yn ky*freith*awl ac erchi o'r ynad vddvnt ymdywedvd, yna y

---

[a] *second* r *superscript*

[b] amddiffynwr] *catchword*

[c] + n *superscript*

[d] *MS* eb

[e] *Hand I*

[f] *MS* adeilw

[g] *Hand II resumes*

[h] val] *catchword*

dyly yr hawlwr messvraw hawl a menegi i vod yn vrawd nev gefnderw nev gyfyrderw, kani ddyly holi namyn y rrai hynny yn vrawd iddo ac yn briodawr; a digon a gatwo i [96rb] briodolder ganthaw. [2248]O gwata na chafas ddechre ran, bod iddo ddigawn a'i gwyr i gayl ohonaw, a dodi ar y ky*freith* kan gavas ef ddechre rran, y dyly gayl kwbwl o rannv ac ef y tir. [2249]Yna y dyly yr amddiffynwr atteb o vn o dair ffordd, ai gwadv, ai adde, ai arddelw ky*freith*iawl val na ddyleo atteb, ac velly y dyly pob amddifynwr atteb am bob peth o vn o'r tri hynny. [2250]Os adde a wna yr amddiffynwr hynny, rraner ac ef. [2251]Os i wadv a wna, mwynhaer gwybyddiaid yr hawlwr. [2252]O ffyna y gwybyddiaid, raner ac ef; os yr amddiffynwr a [96va] ddywaid 'mi a renais a thi y kwbwl; o gwedi hynny y may i mi ddigawn a'i gwyr, ac ar y ky*freith* y dodaf na ddylaf i yr ail rranv a thydi'. [2253]Od adde yr hawlwr hynny, bid ar a gavas. [2254]Os gwatta ynte, mwynhaer gwybyddiaid yr amddifynwr. [2255]Ssef y rryw wybyddiaid vydd y rrai hynny: gwr o bob rrandir o orfdref. [2256]Os yr hawlwr a ddywaid 'a renaisti a myvi nis gwadaf, ssef yw hynny, hyn a hyn, a hyn y sydd heb rranv; o gwedi di hynny, y may i mi ddigawn a'i gwyr, ac ar y ky*freith* y dodaf y dylaf i mwynhav [96vb] yn gynta vy gwybyddiaid'. [2257]Yna y dyly yr amddiffynwr dywedvd 'myvi a ddywedais gyne ddarvod i mi ranv kwbwl a thydi, ac a ddodais hynny ymhen gwybyddiaid ky*freith*iawl yn gynta, ac ar y ky*freith* y dodaf y dylaf i mwynhav yn gyntaf'. [2258]Y ky*freith* a ddywaid yna, pan yw gwybyddiaid yr amddiffynwr a ddyleir yna i mwynhav yn gynta, kanys trydydd gwybyddiaid ky*freith*iawl am dir ynt. [2259]A llysed y llall wynt o myn. [2260]Os yr amddiffynwr a ddywaid 'mi a renais a thi bob lle, a mi a [97ra] ddodaf[a] hyn*n*y ymhen y rranwyr', od adde ef y rranwyr, bid ymhen y rranwyr. [2261]Os gwata ynte y rannwyr, gwaded val y gwedir mach, a rran a ddyly gwedi hynny. [2262]Os yr amddiffynwr a ddywaid 'araphawl yw dy hawl', traythe ohonai val y klywyd drachefn vchod.

[2263]Val hyn y dyleir am dervyn.

[2264]O bydd ymrysson y rrwng llys a thir arall, y llys bie tervynv. [2265]Ac wedi llys, llan bie tervynv, nid [97rb] amgen no thir essgob. [2266]Ac wedi llan, braint vcha bie tervynv. [2267]Ac wedi braint, kyngwarchadw bie tervynv. [2268]Ssef yw kyngwarchadw: ar ddifaith ty ac odvn ac ysgvbawr. [2269]O bydd ymrysson am dervyn y rrwng dwy dref vn vraint, kyngwarchadw bie tervynv. [2270]O bydd kyhydev dav warchadw, edryt o bedwar gwyr ar hvgaint o hynaviaid y kantref, os gwybyddant. [2271]Onis gwybyddant, ayd yr hawlwr, a dangossed y tyrvyn[b] tva'r barth yr amddiffynwr, a thynged [97va] y tervyn a ddangosso yn pervedd ac yn y pen eitha. [2272]Ac wedi hynny, dangossed yr amddiffynwr y tervyn ynte, a thynged yn y tri lle. [2273]Ac na ddyged neb[c] randir kwbwl yni ddangos. [2274]Os dwc, kolledic vydd o gwbwl, ac wedi as tyngo pawb, rraner yr amrysson yn ddav haner. [2275]Oni tyngyr, vn diffaith i'r brenin y dyly vod. [2276]Os tyng vn ac nas tyngo y llall o'r pleidie, y neb a'i tyngo kymered o dwng y blaid oll. [2277]Os arglwydd a eirch i ddwy dref ddangos tervyn ev trevi y rrwngthvnt, wynt[d] a ddylant i ddangos [97vb] os gwybyddant. [2278]Onis gwybyddant, gwadent nas gwddant, ac wedi hyn*n*y yr arglwydd a ddyly gwnevthr tervyn y rryngthvnt, a'r arglwydd a ddyly vddvnt chwevgaint dangos.

---

[a] ddodaf] *catchword*

[b] e *superscript*

[c] *MS* nab, + e *superscript*

[d] wynt] *superscript*

[2279]Tri argay dangos: rrandir, a braint, ac adeilad, gani ellir dangos tervyn ar dor y rrai hynny, ac na ellir dwyn randir yn nangos.

[2280]O bydd ymrysson y rrwng dwy dref am vraint, a ffob vn yn dywedvd 'gore vymraint i', 'gore vymraint yne', yna y dyly yr ynad govvn i'r [98ra] howlwr[a] pa vraint y sydd vddvnt hwy. [2281]Yna y dyly yr howlwr mynegi ev braint wynt, ai penkenhedlayth, ai kyngellwriaeth, ai braint arall, a digawn o geidwaid a gatwo i vraint ganthaw. [2282]Oddyna govyned yr ynad i'r amddifynwr pa vraint y sydd iddaw ynte. [2283]Yna y dyly ynte menegi[b] braint wyntav val y llaill, a digawn o geidwaid iddaw ynte a gatwo i vraint ganthaw. [2284]Yna y dyly yr ynad kymrvd keidwaid pob vn, [98rb] a'r hwn a vo gore i vraint a gatwo yn eiddo barner iddo dervynv ar y llall.

[2285]Tri lle y dyly dyn vesur i hawl gan amddiffynwr hep hawl hep atep o hon*n*o. [2286]Vn yw o gomedd ygwyl kyffreithiawl, kyffaddav vydd yr hawl am omedd y gwys. [2287]Ni vernir hagen yn vessvr hawl i neb ar absen, hyt yn oet y trydydd gwys, ac ni ddylyff tystiaw na ddel amddiffynwr i'r maes na galw am vyrawt y hyt y [98va] trydydd gwys. [2288]A'r tri gwys hynny a ddyleir i gwnevthvr yn gyffyreithiawl hagen a'i galw velly. [2289]Ail yw yn y dydd koll kaffel: nit oes esgvsot kyvyreithiawl eithyr na wypo ynat i varn, ac o dodir angav yn esgus drosdo ni rrymia, kanit esgus k*yfreithawl* ac ni rrymia. [2290]A chyvadde vydd messur yr hawl arnaw ac ar i dda mal pe byw vai, os bydd iddaw. [2291]Oni ddaw yr amddiffynwr ynydd koll kaffel gossodedic o ben ynat wedi rwymo pleidiev barn er messur i hawl arnaw, kani ddyly[c] ddyly[c] kyvyraith nis gwnel. [2292]Trydydd yw lle y kais [98vb] howlwr vesur i hawl ar y talawdur marw neu[d] [mach].[e]

---

[a] howlwr] *catchword*

[b] + y *superscript*

[c] *MS* ddyl

[d] *remainder of page is blank*

[e] *From H.*